# ECO'R WYDDFA

Rhif 196 RHAGFYR 1993 Pris 25c

## RHIFYN NESAF YR ECO

**Bydd y rhifyn nesaf o Eco'r Wyddfa yn dod o'r Wasg NOS FERCHER, 22 RHAGFYR.**

**Plygir y papur yn Festri Capel Coch, Llanberis am 6 o'r gloch. Mae'n ofynnol i bob pentref anfon cynrychiolwyr i helpu gyda'r plygu ac yn gyfrifol am ei gludo i'w pentref ar gyfer ei ddosbarthu cyn y Nadolig.**

# CEFNOGWCH FUSNESAU LLEOL!

Bydd darllenwyr rheolaidd Eco'r Wyddfa yn gwybod fod rhifynnau Rhagfyr a Nadolig/Ionawr yn cynnwys cyfarchion Nadolig gan fasnachwyr a busnesau'r fro. Yn y rhifyn hwn ceir cyfarchion o Lanberis, Deiniolen, Cwm-y-glo a Brynrefail. Ymhen tair wythnos tro Llanrug, Bethel, Waunfawr, Penisarwaun a Chaeathro fydd hi i ddymuno'n dda ichi dros yr Ŵyl.

Yr hyn am trawodd eleni, fwy nag erioed, wrth fynd o amgylch yn casglu hysbysebion yw nad oes raid inni mewn gwirionedd fynd tu allan i'r fro am y rhan fwyaf o'n anrhegion Nadolig. Mae'n ffasiynol i fynd i Gaer, Lerpwl a Manceinion ac mae hynny'n ddifyr dros ben os ydach chi'n hoffi talu crocbris petrol a pharcio, yna stryffaglio drwy'r torfeydd yn chwilio am fargen nad yw efallai yn fargen wedi ichi ddod adref a sbïo'n fanwl.

'Does dim ciws na thrafferth parcio fel arfer yn Llanberis na'r pentrefi eraill eto mae dewis anhygoel o gynnyrch lleol a thu hwnt yn y siopau. Trwy gefnogi masnachwyr lleol 'da chi'n helpu'r economi leol. Drwy brynu nwyddau lleol 'da chi'n helpu'n ymarferol i greu gwaith.

Edrychwch ar hysbysebwyr y rhifyn hwn a chofiwch amdanyn nhw. Mae nhw yma drwy'r flwyddyn at eich gwasanaeth, nid rhyw stondin mynd a dod. Ac mae arian eu hysbysebion yn y papur hwn yn help i gynnal Eco'r Wyddfa weddill y flwyddyn — hebddynt buasai'n rhaid tocio'n ddirfawr ar nifer y tudalennau yn un o bapurau bro mwyaf swmpus a bywiocaf Cymru.

R.J.R.

# LLEISIAU'R GWEUNYDD

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Parti Lleisiau'r Gweunydd o dan arweiniad Mrs Einir Wyn Owen. Eleni cafwyd noson wahanol, sef noson o Gawl a Chân. Wedi mwynhau'r cawl a'r bara brith cafwyd cyngerdd gan rai o ddisgyblion Einir, rhai yn ifanc iawn ac wedi ennill nifer o eisteddfodau lleol, y Genedlaethol a Llangollen. Cafwyd unawdau gan Enir Wyn hefyd.

Yn flynyddol cyflwynir elw'r cyngherddau a'r raffl tuag at achos da ac eleni cyflwynwyd siec o £500 tuag at gronfa y rhai sy'n dioddef o Asmtha. Gwnaed elw o £297 yn ystod y noson.

Yn ystod mis Hydref teithiodd y parti i Galway, Iwerddon, lle y bu'n cynnal dau gyngerdd. Yn ymweld â Galway yr un wythnos roedd Côr Meibion Hwlfforddd ac yn dilyn cyfarfod y ddau gôr mae'r merched wedi derbyn gwahoddiad i Ŵyl Gerddorol yn Abergwaun ym mis Mai 1994.




*Einir Wyn Owen, arweinydd Lleisiau'r Gweunydd, yn cyflwyno siec am £500 i Gymdeithas Asthma Caernarfon a'r Cylch.*

# LLEISIAU LLANBABO



*I ble mae'r criw hwyliog yma'n mynd, a pham mae nhw mor hapus? Mae'r hanes ar y dudalen gefn.*

Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r rhifyn nesaf yn dynach na'r arfer oherwydd y Nadolig. RHAID i bob cyfraniad neu newyddion fod yn llaw'r gohebwyr pentref neu'r golygyddion erbyn NOS LUN, 13 RHAGFYR.

# ECO'R WYDDFA

Rhif 196
Rhagfyr 1993

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR


**GOLYGYDDOL**
**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**(Ffôn: 675649)**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**(Ffôn: 872390)**

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
**FFOTOGRAFFWYR**
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
Gareth Williams, Angorfa, Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)
Tony Storey, Awel y Mynydd, Ceunant, Llanrug (650600)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ Hen, Waunfawr (650599)
**TREFNYDD GWERTHIANT**
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (676846)
**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
**TREFNYDD PLYGU**
Sioned Roberts (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.**
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larser Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (676733)
**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS FERCHER, RHAGFYR 22**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, RHAGFYR 13**
os gwelwch yn dda

# DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.**

| RHIFYN | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â | RHIF FFÔN |
|---|---|---|---|---|
| CHWEFROR | IONAWR 27 | WAUNFAWR | Mrs Nan Roberts | 650570 |
| MAWRTH | MAWRTH 3 | LLANRUG | Mr Iolo Llywelyn | 650200 |
| EBRILL | MAWRTH 31 | CWM-Y-GLO | Mrs Iris Rowlands | 872275 |
| MAI | EBRILL 28 | DEINIOLEN | Mr W. O. Williams | 871259 |
| MEHEFIN | MAI 26 | BRYNREFAIL | Miss Lowri P. Roberts | 870580 |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 30 | BETHEL | Mr Geraint Ellis | (0248) 670726 |
| AWST | — | — | — | — |
| MEDI | MEDI 8 | DINORWIG | Mr Meirion Tomos | 870056 |
| HYDREF | MEDI 29 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans | 872407 |
| TACHWEDD | HYDREF 27 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans | 872034 |
| RHAGFYR | RHAGFYR 1 | CAEATHRO | Mr Clive James | 677438 |

**Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.**

# Llythyrau

## LLYTHYR AGORED AT YSGRIFENYDDION EISTEDDFODAU LLEOL

*Annwyl Gyfeillion,*

*Eleni, am y tro cyntaf, mae'r cwmni cyfoethog hwnnw BT yn cynnig nawdd i Eisteddfodau lleol. Gall meddwl am hyn leddfu peth ar eich dicter pan ddaw'r bil nesaf drwy'r post neu pan ddaw'n wybyddus faint o elw a wnaeth y cwmni mewn blwyddyn.*

*Eleni hefyd fe beidiodd BT ag anfon allan filiau dwyieithog Cymraeg a Saesneg. Bellach polisi'r cwmni yw anfon allan filiau Saesneg i bawb a rhai Cymraeg i'r sawl sy'n mynd i'r drafferth i ofyn amdanynt.*

*Mae polisi o'r fath yn un cwbl annheg ac yn rhagfarnu yn erbyn Cymry Cymraeg. Yn ôl gweledigaeth BT mae dau ddosbarth o bobl yn byw yng Nghymru. Yn gyntaf mae gennych y bobl normal hynny sy'n siarad Saesneg ac yn cael bil yn eu hiaith eu hunain gan BT heb orfod gofyn amdano. Wedyn mae gennych chi bobl od ac eilradd sy'n siarad Cymraeg ac yn gorfod gwneud cais am fil yn eu hiaith eu hunain.*

*Rhaid i Gymry Cymraeg iselhau eu hunain drwy wneud cais arbennig am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Dr Meredydd Evans wedi tynnu sylw at yr annhegwch hwn drwy wrthod talu ei fil. Mae ef bellach yn ddi-ffôn.*

***Wrth i ysgrifenyddion yr Eisteddfodau Lleol wneud cais am nawdd gan BT gofynnwn i chi ofyn i'r cwmni ail gyflwyno'r polisi o anfon biliau dwyieithog i bawb yng Nghymru fel bod pob cartref a busnes drwy'r wlad yn cael biliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.** Mae'n **bwysig** bod y Gymraeg yn cael ei gweld ar aelwyd pawb.*

*Mae perygl mawr i gwmnïau eraill ddilyn yr un polisi gan gynnig biliau Cymraeg i'r rhai sy'n gwneud cais amdanynt yn unig. Yn y diwedd fe benderfynir nad oes digon o alw ac fe ddileir y gwasanaeth yn gyfan gwbl.*

*Yn gywir,*

*ARWEL JONES*
*Cadeirydd Grŵp Statws*
*Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*
*Pen Roc, Rhodfa'r Môr,*
*Aberystwyth.*

## Darpariaeth i'r Ieuenctid yn Llanberis

*Tan y Clogwyn*
*Llanberis*

*Annwyl Olygydd,*

*Cyfeiriaf at lythyrau sydd wedi ymddangos yn yr Eco* o berthynas i yfed ymysg pobl ifanc Llanberis.

Carwn fynegi fy mharch i ieuenctid Llanberis, y rhan helaeth ohonynt yn gyn-ddisgyblion i mi, gan fanteisio ar y cyfle hwn i arbed eu cam. Byddaf yn cyfarfod â rhai o'r bobl ifanc hyn oddi amgylch y pentref ac edmygaf eu gonestrwydd di-ragrith.

Yn sicr, un o broblemau mawr y gymdeithas gyfoes yw cyffuriau a chredaf fod alcohol yn gyffur cryf, effeithiol, ac anodd iawn yw adfer y rhai sy'n gaeth iddo.

Ond nid problem a berthyn i ieuenctid yn unig yw'r broblem hon, ond yn hytrach i bob oed. Nid yw'n broblem gyfoes fel y rhan helaethaf o gyffuriau eraill, 'roedd cryn yfed yng Nghymru ganrif yn ôl pan oedd 'Bethel ar yr aswy, A'r Bedol ar y dde'. Cofiwn hefyd am y cyfnod hwnnw yn y canol oesoedd pan oedd effaith yfed Gin yn ddamniol i boblogaeth Lloegr. Cyfeirio yr wyf at y 'Gin drinking period'. Felly, hen broblem yw hon yn bodoli o gyn ddyddiau'r offeiriad yn nofel Daniel Owen — *Gwen Tomos* — hyd heddiw. Ond problem gyfoes hefyd gydag effeithiau trychinebus.

Ond beth am y sefyllfa ymysg yr ieuenctid yn Llanberis? Fe ddywedir, a hynny yn gywir, mai un rheswm tros droi at alcohol yw syrffed. Pobl ifanc yn 'bored' heb ddim i'w wneud ond loetran yn ddi-bwrpas ar y strydoedd. A bod yn hollol onest, nid oes fawr o ddarpariaeth ar gyfer yr ieuenctid yn y fro. Sefyllfa resynus sy'n bodoli, pobl ifanc o Loegr yn heidio i'r cylch i dreulio hoe a hamdden mewn sefydliadau arbennig, tra bo pobl ifanc yr ardal yn gorfod edrych yn eiddigus arnynt o hirbell. Gwrthun yn wir yw hyn ac ni ddylid ei oddef. Paham nad oes mannau o'r un natur i bobl ifanc Llanberis a'r cylch fel y cânt ollwng 'stêm' ar Lyn Padarn, yn y coedwigoedd ac ar y llethrau?

Cawn hen chwarel Glynrhonwy ar gwr y pentref a da o beth yw gweld y ffatri newydd yno. Ond beth sydd yn mynd i ddigwydd i holl erwau eraill o'r safle? A yw Glynrhonwy yn dal yn broblem i Gyngor Arfon?

Gwelaf yma gyfle ardderchog i Gyngor Arfon i ymateb i anghenion y bobl ifanc. Ie, defnyddio rhan o'r hen chwarel fel canolfan ieuenctid i bobl ifanc yr ardal. Y mae adnoddau canolfan o'r fath yng Nglynrhonwy gyda holl anghenion sefydliad o'r math hwn. Ni chredaf fod man mwy addas yng Nghymru gyda'i greigiau i'w dringo, natur ac anian ar bob llaw, Llyn Padarn i hwylio a rhwyfo, llethrau gwych i ddatblygu llwybrau sgïo, a hyn oll yn ganolig ac o fewn cyrraedd i ieuenctid y fro. Beth fuasai pobl Lloegr yn ei roi am fan mor ddelfrydol ar risiau eu drysau?

Ond yr hen gŵyn a glywir bid siwr — nid oes arian ar gael, mae'r dirwasgiad yn gwasgu ar wariant, nid yw'r Llywodraeth yn San Steffan yn hael tuag at goffrau gweigion y Gymru wledig. Eto, er hyn, rwy'n sicr y gellid cyllido cynllun eangfrydig o'r math hwn gydag ewyllys a gweledigaeth eglur a phendant. Gellid gwireddu breuddwyd trwy frwdfrydedd a sêl. Dyma sialens i aelodau Cyngor Arfon sicrhau fod rhan wledig o'r dosbarth yn cael yr un breintiau a Chaernarfon a Bangor, a bod yn rhan o'r broses o ddatblygu dinasyddiaeth addas i'r dyfodol. Beth am dderbyn yr hen chwi Gynghorwyr brwd?

Mae'n wir dweud hefyd fod alcohol yn hawdd iawn i'w brynu ar Stryd Fawr Llanberis. Erbyn heddiw nid tafarndai yn unig sy'n gwerthu diodydd ond sefydliadau eraill megis gwestai a siopau. Yr wyf yn ymwybodol fod siopwyr cyfrifol y pentref yn ofalus iawn i bwy y gwerthant ddiodydd, ond ni allant ddilyn hynt y cynnyrch ar hyd balmentydd y pentref. Credaf fod Ynadon braidd yn rhy hael gyda'r trwyddedau, gan gofio mai gan y Fainc y mae'r hawl i wrtho a chaniatau gwerthu alcohol.

Hawdd iawn yw rhoi'r cyfrifoldeb ar eraill parthed y broblem hon, gan feio aelwydydd, rhieni yr ieuenctid eu hunain, a.y.b. Ond mae'r cyfrifoldeb yn ddyfnach ac yn berthnasol i'r gymdeithas yn gyffredinol.

Pe byddai ateb i'r broblem gennyf buaswn yn alluog, ac yn falch tros ben. Ond credaf y gellir gwella'r sefyllfa drwy ymroddiad, gweledigaeth, ewyllys, brwdfrydedd, cydymdeimlad a thrwy ddangos parch tuag at ein pobl ifanc.

Yr eiddod yn gywir,
JOHN H. HUGHES

# Llythyrau

## Medalau Thomas Gee a Madam Bevan Evans

*Gwahoddir ceisiadau am y Medalau uchod oddi wrth aelodau hŷn yr Ysgol Sul, hynny yw aelodau sydd dros 80 oed.*

*Y mae un amod pendant yn ôl y ffurflen . . . 'A yw'r ymgeisydd yn **parhau** i fynychu'r Ysgol Sul?'*

*Rhaid cadw'n dynn at yr amod hwn. Tristwch yw gorfod gwrthod ceisiadau sy'n cyfeirio at flynyddoedd o wasanaeth ambell un, ond oherwydd llesgedd a henaint yn methu dod yn awr.*

*Y mae oedrannau y rhai sy'n arferol yn derbyn y Medalau oddeutu 85 oed a'r Tystysgrifau i'r rhai ychydig yn iau.*

*Anfoner am y ffurflen sydd i'w dychwelyd erbyn **Rhagfyr 31, 1993,** at:*

*Y Parchedig J. Haines Davies*
*'Goleugell'*
*24 Ffordd Cadwgan*
*Hen Golwyn*
*Clwyd LL29 9PY*

## Ydach chi ar y 'List'?

*Annwyl Olygydd,*

*A wnewch chi ganiatáu lle i mi gyfeirio at gofrestri etholwyr 1994/95 os gwelwch yn dda?*

*Bydd eich darllenwyr yn gwybod bod y gwaith o'u paratoi yn mynd rhagddo ar sail y ffurflenni a lanwyd ganddynt yn ystod mis Hydref eleni. Byddant yn dod i rym ar Chwefror 15fed y flwyddyn nesaf.*

*Os oes rhywrai heb anfon y ffurflen gofrestru honno yn ei hôl, gan feddwl hwyrach ei bod hi'n rhy hwyr erbyn hyn, dyma eu hatgoffa bod y drefn rŵan yn rhoi hyd at Rhagfyr 16, 1993, iddynt wneud hynny.*

*Hydref 10fed eleni oedd y dyddiad cymhwyso. Os oedd rhywun yn byw yn yr etholaeth ar y dyddiad hwnnw, neu a thŷ yn yr etholaeth, y mae ganddynt hawl i bleidlais.*

*Dylai enwau pobl ifanc sy'n cael eu pen-blwydd yn ddeunaw oed o fewn y cyfnod hyd at Chwefror 15, 1995, gael eu cynnwys hefyd.*

*Y dyddiad olaf felly ar gyfer sicrhau bod enwau'n cael eu cynnwys yng nghofrestri y flwyddyn nesaf ydyw **Rhagfyr 16, 1993,** ond does dim rhaid oedi tan hynny. Gorau po gyntaf. Dylid eu hanfon at Swyddog Etholiadau'r Cyngor.*

*Yn gywir,*
*ELFED ROBERTS*
*Trefnydd Meirionnydd Nant Conwy*
*Plaid Cymru.*

## 'Seren y Dwyrain'

Mae gan gannoedd o gyn-filwyr Cymreig achos i feddwl yn annwyl eleni am *Seren y Dwyrain*, yr unig gylchgrawn Cymraeg erioed i'w gyhoeddi yn y Dwyrain Canol. Fe'i hargraffwyd yn ninas Cairo o dan olygyddiaeth ei sefydlydd T. Elwyn Griffiths (Llandybie a Chaernarfon). Fe fyddai'r cylchgrawn yn 50 oed eleni pe bai yn dal mewn bod.

Llwyddodd *Seren y Dwyrain* i roi yn nwylo bechgyn a merched Cymru, a wasanaethai gyda'r Lluoedd Arfog yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica yn ystod y rhyfel mawr, ddeunydd darllen Cymraeg yr oeddynt yn awchu amdano. Fe wethredai hefyd fel dolen gyswllt rhwng yr amryw gymdeithasau Cymreig a ffurfiwyd yn y Dwyrain Canol gan fechgyn Cymru er mwyn diwallu eu hiraeth a'u hangen am gyfathrach a'u cyd-Gymry.

Olynydd *Seren y Dwyrain* yw *Yr Enfys*, cylchgrawn y mudiad 'Cymru a'r Byd' (Undeb y Cymry ar Wasgar) sy'n cysylltu ein mamwlad â'i phlant a wasgarwyd drwy bedwar ban byd.

## Awdurdod Iechyd Gwynedd Y Gymraeg yn Hanfodol

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*Ymddangosodd dwy hysbyseb yn y wasg yn ddiweddar, y naill yn gwahodd ymgeiswyr am swydd Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Gwynedd, a'r llall am swydd Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Awdurdodau Iechyd Gwynedd a Chlwyd.*

*Nid yw'r hysbysebion, y pecynnau gwybodaeth a'u llythyrau cysylltiol yn cyfeirio at gymwysterau ieithyddol.*

*Mae'r ddwy swydd wrth reswm yn allweddol yng ngweinyddiad yr awdurdodau, ac yn swyddi dylanwadol iawn yng nghyd-destun dyfodol polisïau iaith y cyfryw gyrff. O'r herwydd mae penodi siaradwyr Cymraeg yn hanfodol os yw safle'r Gymraeg i'w gryfhau a'i datblygu.*

*Mae nifer o unigolion a chymdeithasau yn anfon at Awdurdod Iechyd Gwynedd yn mynnu bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swyddi hyn a gofynnwn yn garedig i chi wneud yr un modd er mwyn dwyn pwysau cynyddol mor fuan ag sy'n bosib.*

*Dylid anfon at Mr Graham Hulse, Awdurdod Iechyd Gwynedd, Coed Mawr, Bangor, Gwynedd LL57 4TP.*

*Diolch i chi am eich cydweithrediad.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*IEUAN WYN*
*a'r Parchedig JOHN OWEN*

## HONNO Gwasg i Fenywod Cymru

*Annwyl Olygydd,*

*Ysgrifennaf atoch i ofyn tybed a fyddech yn fodlon hysbysu eich darllenwyr am y canlynol, os yw gofod yn caniatáu:*

*Gwasg cydweithredol yw HONNO sydd yn cyhoeddi llyfrau gan fenywod Cymru. 'Rydym yn cyhoeddi yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg — efallai y bydd rhai o'ch darllenwyr yn cofio am dyddiadur Hafina Clwyd, Buwch ar y Lein, a ymddangosodd ym 1987, neu'r flodeugerdd o gerddi gan fenywod, O'r Iawn Ryw, a olygwyd gan Menna Elfyn ac a ddaeth o'r wasg ym 1991.*

*'Rydym yn awyddus iawn i gyhoeddi mwy o waith gwreiddiol yn Gymraeg — boed yn nofelau, yn gyfrolau o straeon byrion, yn hunangofiannau neu'n ysgrifau — pob math o ddeunydd. Ein nod yw rhoi cyfle i fenywod Cymru weld eu gwaith ar ddu a gwyn. Felly os oes rhyw rai o blith eich darllenwyr benywaidd yn ysgrifennu, ac yn awyddus i weld cyhoeddi eu gwaith, byddai gennym ddiddordeb pendant yn eu cynnyrch. (Y peth gorau fyddai iddynt gysylltu â mi trwy lythyr neu trwy roi caniad ffôn yn y lle cyntaf.)*

*Gan ddiolch i chi am bob cydweithrediad.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*ELIN AP HYWEL*
*Golygydd/Swyddog Datblygu*
*ar ran HONNO*
*'Ceri', Ffordd Ddewi,*
*Aberystwyth, Dyfed SY23 1EU.*
*Ffôn (0970) 623150*


**SIOP BRYN PISTYLL**

ANTUR WAUNFAWR

**Anrhegion Nadolig ar gyfer y teulu**
- ★ Basgedi Cynnyrch Cartref
- ★ Aromatherapi ★ Teganau
- ★ Addurniadau Nadolig
- ★ Basgedi Blodau Sych

**Galwch Heibio am baned yn y caffi**
**Nosweithiau hwyr yn cael eu trefnu – gwyliwch ein posteri am y manylion**



**ELWYN PRITCHARD**
**PARC PADARN**
**LLANBERIS**

Dewch yma i chwilio am anrhegion Nadolig. Dewis da i blant ac oedolion. Anrhegion personol i lenwi'r hosan.

Beth am gael fframio llun i'w roi'n anrheg Nadolig?

Ar agor Llun - Sadwrn 10am - 4pm

**Ffôn: Llanberis 870922**



Prynwch eich **COEDEN NADOLIG** oddi wrth

**Alwyn a Sarah Jones**
**RACCA**
**PENISARWAUN**



- ★ Dewis da o drefniadau blodau sych
- ★ Trefiniadau blodau ffres
- ★ 'Wreaths' celyn yn arbennig ar gyfer y 'Dolig

Galwch neu ffoniwch
**870605**
am fanylion

# CHWILOTA

## DIWEDD Y BYD



**'Sgwn i sawl chwedl am ddiwedd y byd sydd? Diddorol oedd sylwi yn 'Siambr Selwyn' y mis diwethaf am ragwelediad Petulengro o ddinas Llundain wedi diflannu gan adael dim ond un tŷ ar ôl. Math o ddiwedd byd (neu ddechrau byd newydd).**

**Rhai blynyddoedd yn ôl datgelwyd yn yr *Eco* fod maen siglo arbennig wedi ei ddymchwel yn fwriadol oddi ar y llethrau uwch Bwlch Llanberis. Yn ôl traddodiad, pan ddymchwelai'r maen hwnnw, byddai goruchafiaeth y Saeson dros Gymru yn llwyr. Math arall o ddiwedd byd.**

Mae'n rhyfedd meddwl pa mor aml mae diwedd y byd wedi ei gofnodi gan wahanol broffwydi dros y canrifoedd:

1520: sect grefyddol yng Ngogledd Ewrop yn credu mai hwy oedd y genhedlaeth olaf;

1814: Joanna Sothcott yn credu bod diwedd y byd hwn ar ddod a nefoedd sosialaidd ar fin dechrau;

1822: John Wroe yn casglu dilynwyr Southcott i baratoi am y byd newydd (efallai i chwi wylio'r gyfres deledu am y cyfnod hwn, 'Mr Wroe's Virgins', fe'i hail-ddarlledwyd yn ddiweddar ar BBC2);

1990: tair mil o ddilynwyr gwraig yn galw ei hun yn Elizabeth Prophet yn paratoi am ddiwedd y byd mewn dyffryn yn Montana, America. Enw'r dyffryn? Paradise Valley!

1992: ar Hydref 28ain casglodd ugain mil o bobl at ei gilydd yn Ne Korea i ddisgwyl diwedd y byd am hanner nos;

1993: yn Kiev, Rwsia, miloedd o ddilynwyr y 'Great White Brotherhood' yn disgwyl diwedd y byd. Yn ôl eu harweinydd, Maria Devi Khristos (Mair-Duw-Crist) roedd *Konets Cveta* (Diwedd y Goleuni) i fod i ddigwydd ar Dachwedd 14eg. Wnaeth o ddim, ond yna, darganfuwyd fod rhywun wedi camgyfrif y dyddiau i ddiwedd y byd, ac mai ar Dachwedd 24ain y bydd y digwyddiad hanesyddol.

Felly, mae'n bosibl na chewch chi gyfle i ddarllen y llith hwn! Ond rhag ofn i'w mathemateg fod yn wallus eto, fe ddof yn ôl i'n hardal fach ni . . .

### Y TEMLWYR DA

Bûm yn crybwyll Cymdeithas y Temlwyr Da yn achlysurol o'r blaen. Mae'n debyg eu bod ar eu cryfaf yn hanner olaf y ganrif ddiwethaf, a cheir sôn am eu cyfrinfeydd yn amryw o bentrefi'r fro. Mae tystysgrif liwgar a darluniadol o eiddo Cyfrinfa Glannau Ifor, Llanrug, i'w gweld yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Ar wahân i fod yn gysylltiedig â'r capeli ac yn llwyr-ymwrthodwyr, roeddynt hefyd yn cynnal cyfarfodydd diwylliannol, ac yn fath o sefydliad yswiriant cynnar.

Daeth llythyr i law gan Mr M. G. Williams, Gwylfa, Bethel yn cyfeirio at anrheg a gyflwynwyd gan Demlwyr Da ardal Capel y Glasgoed 'i Mr William Owens a'i briod, Catherine, ar ddydd eu priodas, gan Aelodau Cyfrinfa Temlwyr Da Glyn Arthur, fel arwydd o'u parch tuag ato fel un o aelodau cyntaf y Gyfrinfa uchod, ac fel coffadwriaeth mai hwy a briodwyd gyntaf yng Nghapel y Glasgoed, Llanddeiniolen, Gorffennaf 9fed, 1873 gan y Parch John Williams, Hermon, ym mhresenoldeb Mr William Rice Whiteside, Cofrestrydd.'

Mae Mrs Williams â diddordeb mewn cael gwybod pwy oedd y ddau a briodwyd, ac a oes rhai o'u disgynyddion yn byw yn y fro heddiw. mae gen innau ddiddordeb hefyd, gan mai fy hen daid, a enwir uchod, oedd cofrestrydd Plwyf Llanddeiniolen yn y cyfnod hwn. 'Roedd yn gweithio i Undeb (Tlodion) Caernarfon, ac yr oedd ardal Brynsiencyn, Môn, yn rhai o'i ddalgylch. Yno, mae'n debyg, y cyfarfu â'i ail wraig. Mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

### CERDDED YR HETAR

Fe fu llawer un yn 'weindio'r cloc' yn nhref Caernarfon ers talwm — fel arfer ar nos Sadwrn a nos Sadwrn bach. Dwn i ddim os ydi ieuenctid heddiw yn cadw at y traddodiad.

Llythyr o Gaerdydd ddaeth a 'weindio'r cloc' i'r cof, a chlywed am y tro cyntaf erioed am yr arfer o 'gerdded yr hetar', a hynny yn Llanrug ei hun. Mrs Tilda Owen, Y Fron, Llanrug gynt, anfonodd am yr arferiad; a'i mham fyddai'n arfer a defnyddio'r ymadrodd. Golygai fynd am dro o Sgwâr y Post draw tua Capel Hermon, troi ar hyd y Lôn Groes nes cyrraedd Ffordd Crawia, ac yna cerdded yn ôl i'r Sgwâr: dyna'r hetar.

Wrth gofio'r daith o gwmpas yr hetar, mae Mrs Owen yn cyfeirio at Lanrug rhwng y ddau ryfel: Miss Williams, Ty'n Winllan yn athrawes yr 'infants' yn Festri Capel Mawr. Pam tybed? Onid oedd digon o le yn yr Ysgol Gynradd newydd?

Mae'n cyfeirio hefyd at nifer o siopau: London House (yno mae 'pen cigydd y fro' yn cadw siop heddiw!), William Ifans y newyddiadurwr a Siop Hudson. Ble roedd y newyddiadurwr? A beth oedd Hudson yn ei werthu?

Ar un gongl o'r hetar roedd bwthyn Bryn Bedw (cyffordd Lôn Groes a Ffordd Crawia), ond i deulu Mrs Owen, 'Yr Hen Dŷ', oherwydd mai yno y magodd ei nain wyth o blant. Mae'r ddau enw wedi eu colli erbyn heddiw.

Diolch am eich llythyr a'ch geiriau caredig i'r *Eco*. Peidiwch ag oedi gormod cyn sgwennu eto.

### HEN ENWAU TAI

Anaml iawn y bydd ffermydd yn cael eu hail-enwi, ond gwahanol iawn yw'r drefn ar dai mewn strydoedd a stadau. Bydd haneswyr cymdeithasol y dyfodol yn cael trafferth i leoli rhai tai am fod eu henwau (fel Bryn Bedw uchod) wedi newid. Bûm yn edrych ar daflen cyfrifon Capel Llanrug am y flwyddyn 1887 yn ddiweddar, a sylwi cymaint o enwau tai sydd wedi diflannu. Dyma rai enghreifftiau: Bryn house, Llanrug House, Hafodycoed, Tŷ Coch, Tyn y Gorlan, Belle View, Arfonic View, Cefn Coch. Gwn fod rhai o'r tai yn aros, ond gydag enwau newydd. Ble tybed mae'r gweddill? Ac mae'n siŵr y gellir darganfod degau o dai tebyg ym mhentrefi eraill y fro. Beth am enghreifftiau erbyn y rhifyn nesaf (gan gofio rhoi'r enwau presennol hefyd!)

Anfonwch unrhyw wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (0286) 673515.

---

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**

**CYSTADLEUAETH**

**CYNLLUNIO CERDYN NADOLIG 1994**

Categori 1: yn gyfyngedig i Gylchoedd Meithrin
Categori 2: yn gyfyngedig i Ysgolion Cynradd
Categori 3: Ysgolion Uwchradd, Colegau Celf, Unigolion

**DYDDIAD CAU: IONAWR 31, 1994**

**Dylid anfon y cynhyrchion i:**
**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
**145 ALBANY ROAD**
**CAERDYDD CF2 3NT**

CANLLAWIAU:


1. Llunio cynllun mewn du a gwyn.
2. Y cynllun i gyfleu neges y Nadolig ond ar yr un pryd yn adlewyrchu amcanion a gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin.
3. Ceidw'r Mudiad Ysgolion Meithrin yr hawl i addasu'r cynllun cyn ei argraffu'n derfynol.
4. Bwriedir cyhoeddi y 3 cynllun buddugol (1 ym mhob categori) a'u gwerthu mewn pecyn o 3, Nadolig 1994.
5. Hawlfraint y cynllun yn eiddo i'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

**GWOBRAU:**
Categori 1: Pecyn Nwyddau Mabon a Mabli.
Categori 2: Pecyn Arlunio.
Categori 3: £50.


**Aled Jones**
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
**4 Bryn Eglwys**
**PENISARWAUN**
**Ffôn Llanberis**
**871047**

***W.J.GRIFFITH***
**PLYMAR A GOSODWR**
**GWRES CANOLOG**
**Pant Tirion, Llanrug**
Ffôn: Caernarfon 673248
**Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi**
CORGI — GAS IN SAFE HANDS
*Aelod o'r Association of Mechanical Services Contractors*
***Dim un dasg rhy fychan***
***Dim un dasg rhy fawr***

**BARRY'S GLASS**
• am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
• Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
• Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.




Y PRISIAU GORAU – GARANTÎD!
**CAMELOT, PENISARWAUN**
**871144** (Dydd) **871774** (nos)

# 'Un funud fach . . .'

## SIARAD PLAEN

Oeddech chi'n fodlon ar y Gyllideb? Petrol yn 13.5 ceiniog y galwyn yn ddrutach; torri 10% ar grantiau i fyfyrwyr; codi oedran ymddeol i ferched i 65; a thaliadau morgeisi uwch. Gweld y manylion hyn yn y papur newydd y bore 'ma, drannoeth y Gyllideb, a wnes i.

Chlywais i mo'r newyddion o gwbl bnawn ddoe. A neithiwr roeddwn yn y Cyfarfod Misol ym Mangor, a gan bod hwnnw wedi para am dair awr a hanner (cofiwch chi, cyfarfod BYR oedd o neithiwr!), mi gollais weld pob bwletin newyddion gyda'r nos hefyd. Ond ar y ffordd adref mi wrandewais ar ddyn ar y radio yn egluro gwerth y Gyllideb. Ond mae arna'i ofn mai gwrando'n ofer wnes i, heb ddeall yr un gair. Yr holl ffordd o ganol dinas Bangor i ben Nant y Garth mi geisiais ddeall y dyn, a dwn i ddim eto be ddeudodd o: rhywbeth am *contingency, economic growth, backward development, arbitrary initiatives* neu eiriau digon tebyg na allaf hyd yn oed eu cofio ddeuddeng awr yn ddiweddarach wrth deipio'r golofn hon. Mymbo jymbo go iawn oedd holl ddoethinebu'r dyn i rywun di-glem fel fi.

Ond os na ddysgais ddim am y Gyllideb wrth wrando arno mi ddysgais mor bwysig ydi siarad yn ddealladwy. Mae yna berygl i weinidog neu bregethwr siarad iaith nad oes neb yn ei deall ar adegau. Rhaid i'r neges fod yn ddealladwy. Ac wrth i'r Nadolig nesáu gallwn ddiolch mai neges eglur iawn ar ein cyfer yw yr Efengyl.

Cofio wnawn y Nadolig hwn eto bod Duw wedi siarad â ni trwy ei Fab Iesu Grist. Mae'r Duw Mawr wedi dod i'r byd ym mherson Iesu Grist. Wrth edrych ar yr Iesu mi gawn ni weld felly sut un yw Duw. Y mae yn bur, yn berffaith, yn ffeind, yn ddoeth; y mae yn llawn o gariad, yn maddau pechodau, yn awyddus i bobl ddod ato a'i garu; y mae yn malio am y gwan, y gwael a'r tlawd. Wrth edrych ar fywyd a gwaith yr Iesu cawn olwg glir iawn ar y Duw sydd wedi ein creu a'n caru. Gobeithio y byddwn yn ei weld a'i glywed yn glir y Nadolig hwn.

JOHN PRITCHARD

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

**Cronfa Haematoleg:** Y mae'r ymateb i'r gronfa uchod wedi bod yn syfrdannol a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Y cyfanswm erbyn hyn yw £844. Diolchir i Mrs Janice Jones, Perthi, am wneud parti 'Pippadee' gan sicrhau elw o £82.41. Enillydd y sgwâr lwcus oedd Ian Boyd, CEGB. Os dymuna unrhyw un gyfrannu cysyllter ag un o'r swyddogion neu'r Trysorydd, Ann Paterson ar 872405.

**Eglwys Santes Helen:** Rhagfyr 19 am 2 o'r gloch cynhelir Naw Llith a Charol a chymerir rhan gan aelodau'r Ysgol Sul. Rhagfyr 25ain, dydd Nadolig, gweinyddir y Cymun Bendigaid am 8.30 a.m. gan y Parchg Tegid Roberts. Ni chynhelir gwasanaeth Ddydd Sant Steffan, Rhagfyr 26ain.

**Ysgol Sul Bosra:** Yn ystod gwasanaeth Diolchgarwch gwnaed casgliad o £20.46 tuag at addysg Kanini, y chwaer fach groenddu o Kenya. Gobeithir cynnal gwasanaeth Nadolig os y bydd pawb wedi gwella o'r dwymyn.

Yn ôl yr arfer, gobeithir Parti Nadolig ynghyd ag ymweliad gan Sant y Plant yn Neuadd yr Eglwys ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Santes Helen. Byddwn yn falch o unrhyw gyfraniad.

**Cardiau ar Werth:** Cofiwch fod cardiau Nadolig a luniwyd gan blant y pentref ar werth gan yr Ysgol Feithrin a Chyfeillion yr Ysgol.

**Llongyfarchiadau** i Carolyn a Martin ar enedigaeth eu mab bychan, Marc. Pob bendith i chwi fel teulu. Llongyfarchiadau hefyd i Gwenda a Victor Jones, Bryntirion, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

**Diolch:** Dymuna Carolyn a Martin ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth eu mab, Marc.

**Pwyllgor Neuadd:** Tynnwyd Clwb Cant Hydref yn Llygad-yr-haul, a'r enillwyr oedd: W. Jones, 24 Bryntirion; Manon Glyn, Bryn Eglwys; Gethin Philips, Waun. Tynnir Clwb Cant Tachwedd mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned ar nos Fawrth, Tachwedd 23ain.

**Gwellhad:** Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref gan obeithio y byddwch yn gwella erbyn rhialtwch y Nadolig.

**Plygu Rhifyn y Nadolig yr Eco: Taer** erfynnir am wirfoddolwyr o'r pentref i helpu gyda plygu'r Eco yn Festri Capel Coch, Llanberis, ar nos Fercher, Rhagfyr 22ain, o 6 o'r gloch ymlaen. Diolch yn fawr.

**Ysgol Gymuned Penisarwaun:** Yn dilyn gwyliau hanner tymor dychwelodd y plant i'r ysgol ac ar yr un diwrnod dechreuodd Miss Eleri Thomas a Miss Debbie Williams ar gyfnod o ymarfer dysgu. Myfyrwyr o'r Coleg Normal yw Miss Thomas a Miss Williams ac fe fyddant yn treulio chwe wythnos a hanner gyda phlant yr adran iau a dymunwn pob llwyddiant iddynt gan obeithio y byddant yn mwynhau eu hymarfer dysgu ym Mhenisarwaun.

Yn ddiweddar treuliodd Miss Bethan Williams, un o'r gweinyddesau, wythnos yn yr Alban yn mynychu un o gyrsiau'r 'Prince's Trust' ac yn deillio o'r cwrs hwn fe gafodd Miss Williams gynnig mynd i Hwngari ym mis Mawrth 1994 am bythefnos i barhau ei chwrs.

Fel rhan o'u thema 'Pobol sy'n ein helpu' mae'r babanod wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar. Yn gyntaf fel alwodd PC Bevan i siarad am ei waith fel plismon ac yna fe ddaeth Anti Beryl i siarad hefo'r plant am ei gwaith yn helpu'r plant i groesi'r ffordd o flaen yr ysgol ar ddechrau a diwedd bob dydd. Uchafbwynt y thema oedd ymweliad â pencadly y Frigâd Dân yng Nghaernarfon i weld y dynion tân wrth eu gwaith. Yn ystod yr ymweliad fe alwyd y frigâd dân allan ar ymweliad brys. Dychwelodd pawb i'r ysgol wedi mwynhau eu hunain yn fawr ac wedi eu cynhyrfu — gan gynnwys Mrs Thomas! Diolch i bawb sydd wedi cynorthwyo yn ystod y thema.

Gyda'r Nadolig yn prysur agosáu mae yna brysurdeb mawr yn yr Ysgol. Mae'r plant yn gweithio'n galed yn dysgu darnau r gyfer y Gwasanaeth Nadolig a gynhelir yn y Neuadd Gymuned ddydd Mercher, Rhagfyr 15fed, am 1.30 o'r gloch i rieni a phlant bach, ac am 6 o'r gloch i oedolion. Gwneir casgliad tuag at Uned Haematoleg Ysbyty Gwynedd. Mae'r gwasanaeth yma m fod ychydig yn wahanol i'n gwasanethau Nadolig arferol. Os ydych am wybod ym mha ffordd mae'n wahanol yna bydd yn rhaid i chwi droi i mewn a bydd croeso cynnes i bawb.

**Urdd — Adran Bentref:** Nos Fawrth, Tachwell 2il oedd noson agoriadol y tymor. Daeth 35 o blant ynghyd i ymaelodi a chwarae gêm Chwilen. Diolch i Anti Delyth a Susan am gadw trefn.

Ar Dachwedd 9fed cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Richard Lloyd Jones, Bethel, lle roedd pawb yn gweld sêr. Lynne wnaeth dalu'r diolchiadau.

Tachwedd 16eg daeth Mr Leslie Larsen atom unwaith eto i ddangos rhai o'r cannoedd o sleidiau diddorol sydd ganddo. 'Roedd y plant wedi synnu gweld lluniau o Benisarwaun o dan eira mawr ac yn gobeithio ei weld 'go iawn' eleni!! Diolchodd Elgan i Mr Larsen.

Erbyn y dawr yr Eco allan bydd Adran Cwm-y-glo wedi bod draw atom. Mae Eifion Harding wedi cytuno i gynnal noson o chwaraeon.

Y gweithgareddau sy'n weddill am y tymor yw —

Rhagfyr 2il: Ymweld â Stiwdio Barcud i fod yn rhan o gynulleidfa Rhaglen Hywel Gwynfryn.

Rhagfyr 7fed: Canu hefo Mrs Ann Thomas.

Rhagfyr 14eg: Gwneud gwaith llaw ar gyfer y Nadolig gyda Mrs Gwen Roberts.

Rhagfyr 21ain: Parti Nadolig a Disgo.

**Diolch:** Dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i bawb am yr holl ddymuniadau da a'r gweddïau drosto ar achlysur ei osod yn glerig mewn gofal ym mhlwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun. Diolch i bawb a ddaeth i'r oedfa arbennig a gynhaliwyd yn eglwys Llandinorwig, ac am yr holl baratoadau ar gyfer yr oedfa.

**ORIAU NEWYDD MEDDYGON LLANBERIS BOB DYDD GWENER:**
**Llanrug yn y bore o 9.30 — 11.00**
**Deiniolen yn y pnawn o 2.00 — 3.30**
**Croeso i'r Dr Alwyn Parry i'n plith.**


MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

**GERDDI GLASCOED**
(Ger Capel Glascoed)
**PENISARWAUN**
I'ch gardd fod ar ei gorau galwch heibio neu ffoniwch
**870453**

Cwmni
**TARIAN** Cyf.
Yswiriant Car neu Yswriant Tŷ
Gadewch i ni Roi pris i chi.
**TARIAN**
**6 Stryd Bangor, Caernarfon**
**Ffôn: (0286) 677787**

Geni • Bedyddio • 18oed • Priodas
Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri
**PWYTHAU CAIN**
Cynllunir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn
Hefyd gwniadwaith o bob math gwneud dillad, newidiadau, llenni, a.y.y.b.
Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438
Dywediadau • Diarhebion • Graddio • Penblwyddi • Anrhydedd • Llwyddiant • Dyrchafiad • Ymddeoliad
Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL PLAS GWYN**
**Pontrug, Caernarfon**
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
**Ar ffordd A4086**
**Caernarfon — Llanberis**
**Ffôn/ffacs: 0286 672619**
**Richard S. Humphreys**

# O Siambr Selwyn

Fe ddiflannodd yr ysgrif wreiddiol ar gyfer y golofn hon, rhywle rhwng letter box Lleifior, Llanrug, a Gwasg Gwynedd. Ta waeth fe ddysgodd wers i minnau gadw copi o'm sgriptiau o hyn allan. Ond gresyn fyddai gadael y siambar yn wag ar dywydd mor aeafol.

* * * *

Ychydig flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn llunio cwestiynau ar gyfer y gyfres 'Profi'r Pethe' mi ddois ar draws sawl ffaith ddiddorol — felly i lenwi'r bwlch am y tro — dyma rai ohonyn nhw:

1. Wyddoch chi fod Clwydfardd a fu'n Archdderwydd Cymru am ddeunaw mlynedd (1876-1894 — record) wedi dringo i gopa'r Wyddfa ag yntau yn 84 oed.
2. Bu'r bardd enwog Siôn Wyn o Eifion yn glaf yn ei wely am dros hanner can mlynedd.
3. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1891, fe gwympodd y babell mewn storm enbyd ac fe laddwyd un wraig yn y gynulleidfa.
4. Roeddwn i bob amser yn cysylltu Madam Adelina Pati â Chraig y Nos, a diddorol oedd canfod iddi gael ei geni yn Sbaen, addysgwyd hi yn Efrog Newydd a chafodd ei chladdu ym Mharis.'
5. Yr un mor ddiddorol oedd canfod i Eluned Morgan (Patagonia) gael ei geni ar fwrdd llong ym Mae Biscay yn y flwyddyn 1870.
6. Rydan ni gyd yn gyfarwydd â stori drist Eisteddfod y Gadair Ddu, ond mae'n ffaith hefyd nad oedd Wil Ifan, bardd y goron yn bresennol chwaith i gael ei goroni y diwrnod cynt.
7. Doedd T. Gwynn Jones ddim yn bresennol i gael ei gadeirio am ei awdl 'Ymadawiad Arthur' yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1902. Roedd o'n helpu'i ewythr i gario gwair. Fe gadeiriwyd ei gyfaill Beriah Gwynfa Evans yn ei le. Wrth gwrs doedd y beirdd buddugol ddim yn cael gwybodaeth am eu llwyddiant ymlaen llaw yn y dyddiau hynny. Doedd T. H. Parry Williams ddim yn gwybod am ei fuddugoliaeth ddwbwl yn Wrecsam, 1912, pan aeth o yno fel 'Congrinero' ar gefn ei feic.
8. Mae'n wir i un prifardd fod yn chwarae croci o bopeth pan alwyd arno i sefyll ar ei draed yn Eisteddfod Genedlaethol Aberhonddu, 1899. Dyfed oedd y bardd absennol y tro hwnnw ar yr achlysur iddo gipio ei drydedd cadair genedlaethol.
9. A goeliwch chi hyn ta? Cynan o bawb. Ia Cynan, yn codi ar ei draed i seiniau nodau ar y piano yn hytrach nag i alwad y corn gwlad, pan enillodd o goron Caernarfon am ei bryddest enwog 'Mab y Bwthyn'. Oedd, roedd na rhywun wedi anghofio mynd a'r corn gwlad i'r seremoni. Fedrwch chi feddwl am hynna yn digwydd pan oedd Cynan ei hun yn gofalu am y seremoniau?

* * * *

Ia rhyfedd o fyd a bodau rhyfedd yw beirdd. Dywedir i'r Bardd Cocos sgwennu at y Frenhines Victoria gan gynnig ei phriodi. Gwrthod nath hi yn ôl pob hanes. Dyna Royal Wedding fydda honno wedi bod.

* * * *

O dan yr amgylchiadau dyna fi wedi llwyddo i bapuro wal y siambar yn frysiog a bler am fis arall. Rwan rhaid i mi fynd ati i gloriannu cyfansoddiadau eisteddfod Chwilog a steddfod Ysgol Botwnnog. Ydw rydwi dros fy mhen a nghlustia dan bapura, ac mae'r amser yn brin. Rydwi wedi sylweddoli ers tro byd bellach na fedrai byth ymddeol. Mae'n braf cael bod yn brysur. Prysur hefo'ch pleserau.

*(Ymddiheurwn i Selwyn am i'w golofn wreiddiol fagu traed a diflannu, a diolch iddo am lunio'r golofn uchod gyda ychydig oriau o rybudd yn unig.)*

# FACHWEN

**Mani — un o Hogia Fach-wen:** Ychydig wythnosau'n ôl buom yn claddu Emmanuel Hugh Jones — gynt o Cae Canol, Fachwen. 'Mani bach' i ni yr hen ardalwyr.

Er iddo fynd i fyw i Fangor ym mlynyddoedd ola' ei oes, yr oedd Fachwedn yn agos iawn at ei galon. Bob tro y gwelem ein gilydd 'hogia Fachwen' oedd ar ei wefus a gwên o glust i glust. Yr oedd yn frôd drybeilig o 'Robat 'cw' (Robert John y deintydd-gonsurwr); Gwenfron, 'yn titsio tua Recsam'; a Gwyn, 'lectrisian fel finna'. Ni ddaeth dros y brofedigaeth o golli Enid ei briod ddwy flynedd yn ôl.

'Mynnych ym min yr hwyr ag ef yn unig' gwelid ef yn ei gar 'pin men papur' ar y bont sy'n wag sy'n croesi'r dŵr difwstwr ym Mhen-llyn . . . Mae'r holl atgotion yn un gabalfa . . .

'Un yw byw, un yw bywyd
Y boen a'r hoen ar ei hyd.'

'Nid oedd dwthwn fel y dwthwn hwn' — y pedwar a'r pumdegau yn Fachwen — Fachwen Bobi Robaits, Johnny Rowlands, 'Rhen Gwil, Islwyn, John Fowc Jones, Neli a Twm Siop, Bob Mani, Wil Ffowc, Bob Meinar, Stanley, Emlyn, Guto Jôs, Jac bach Tŷ Capel . . . y gwragedd a'r mamau bendigedig . . . cymortha . . . ac ia . . . Mani bach — chwarelwr, tyddynwr a dyn ardal da . . . a'r Fachwen yn heulwen ei haf . . .

MANI BACH

O'i hendref a hi'n hydrefol — yr aeth
  â rhin ddoe Cae Canol,
 y dyn oedd fflach drydanol
 ond fflach Mani, ni ddaw'n ôl.

Yn ôl i'n gorffennol ni — yn hogia
  agos bro'r chwareli,
 yn alltud wedi'r hollti
 crawen brin, dolen o'n bri.

Ein bri pan oedd gwead braf — hen degwch
  y gymdogaeth araf
 a llafurwaith i'w eithaf,
 Fachwen yn heulwen ei haf.

Yr haf i'r fro honno'r iaith — ef fynnai'
  chyfuno â ch'ledwaith
 a hwyl ar Sul gŵyl a gwaith
 a rhawd ei deulu'n rhwydwaith.

Rhwydwaith y weirglodd a'r rhedyn — a llain
  buwch a llo o dyddyn,
 ponc chwarel, diogel-dynn,
 un y wyrth o'n holl berthyn.

Perthyn i flwch — cadw'r parthau — a sŵn
  ei salm a'r emynau,
 hoffter a drôi grefftau
 yn bur hael i'r lle barhau.

I barhau, er holl bŵer hin — ar war
  Eryri'n ei drycin,
 yn hafau'r dref cofia'r drin
 a hafau ei gynefin.

Cynefin y werin fu'i nef — yntau
  yn anterth ei ddioddef
 yn huno'n drist draw'n y dref,
 a chandryll ach ei hendref.

NORMAN CLOSS

# DRAENOG





Gofynnodd y Golygydd i mi ymchwilio i hanes y gŵr barfog hwn. Yn anffodus tameidiog fu'r wybodaeth ddaeth i law. Efallai y gall rhai o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ychwanegu at y wybodaeth a gynhwysir yma.

Mae'n ymddangos iddo gychwyn ei yrfa fel tafarnwr rhadlon yn Nyffryn Peris yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Yn ôl y sôn cafodd dröedigaeth go ffiars a threuliodd rhan o'i oes yn teithio Cymru benbaladr yn pregethu. Yn wir daeth yn un o Hoelion Wyth y cyfnod a bu galw mawr am ei wasanaeth. Un nodwedd amlwg a berthynai i'w bregethu oedd y byddai'n ddigon disymwth yn torri allan i ganu ar ganol ei bregeth. Meddai lais melfedaidd ac ymhlith ei hoff gyflwyniadau cerddorol fyddai 'Addfwyn a Thyner' a 'Lili y Dyffrynnoedd'.

Yn anffodus, yn aterth ei yrfa cafodd ei bigo gan chwanen ar ôl iddo eistedd ar fainc rhwng gŵr amheus yr olwg a wisgai ddillad gwyn tyn a hen drempyn budr!

Anghofiodd gau ei fotwm top ac fe'i pigwyd yn ei fogel. Bu'r bigiad yn gymaint o ysgytwad iddo fel y diflanodd am rai blynyddoedd. Cred rhai iddo ymuno a'r French Foreign Legion a gwasanaethu fel Gerndarme yno. Gwnaeth ffrindiau â Chymro arall a bu'r ddau yn canu y 'Two Gendarmes' yn aml yn yr anialwch. Gorchwyl a dynnai ddeigryn i lygaid sawl Arab!

Cred eraill iddo ymuno â'r Wild Bunch, dan arweiniad Butch Cassidy a'r Sundance Kid, a'i gwadnu hi i lawr ar gefn ei geffyl i barthau Patagonia. Yno y bu yn un o sefydlwyr ac yn aelod o Gôr Meibion Dyffryn Camwy am rai blynyddoedd.

Dychwelodd i Gymru ac i Ddyffryn Peris ar ôl cael ei lethu a lwmp o hiraeth! Hwn yn ôl yr hanes oedd symbyliad y bardd i gyfansoddi 'Hiraeth y Cymro'. Ail afaelodd yn ei grefft gyntaf fel tafarnwr.

Yn anffodus methais ddarganfod ei enw. Gwn fod gwell haneswyr na mi yn y dyffryn ac apeliaf yn daer am gymorth.


AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR . . .




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858



J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

# BRIWSION
## gan B.R.

Rhai da am rannu briwsion ydi ciwad Mr Major. A gwell fyth am roi'r argraff mai gwledd fawr yw'r briwsion hynny.

Does neb wedi dallt y busnes yma'n well na Syr Wyn Roberts. Ydach chi'n ei gofio yn cyflwyno'r Mesur Iaith i'n sylw? Wrth gwrs, roedd yn deall yn iawn bod angen cryfhau y Mesur hwnnw, ac yr oedd yn ein sicrhau y byddai hynny yn digwydd yn ystod taid y Mesur trwy'r Senedd. Fuodd yna ddim cryfhau arno. Glywsoch chi addewid ddiweddaraf Syr Wyn? Mae wedi cyhoeddi ei fod **yn fodlon ystyried** ei gwneud yn gyfreithlon i bobl sy'n dysgu gyrru car arddangos y llythyren 'D' yn hytrach na'r 'L'. Rŵan ta, bu pobl yn galw am yr hawl hon ers blynyddoedd. Mae chwarter canrif er pan welais yn y papur newydd lun o'r glaslanc Eurig Wyn wedi iddo gael dirwy am ddangos y llythyren D tra'n dysgu gyrru. Gredwch chi bod yna rai yn dal i gael eu dirwyo am y drosedd ddifrifol hon heddiw. A dyna Syr Wyn, chwarae teg iddo, o'r diwedd yn gwneud ei gyhoeddiad dramatig: **mae'n fodlon ystyried y mater!** Dylai'r Cymry fod yn ddiolchgar. Ond, wrth gwrs, rhaid i ni gadw'r L am sbel eto, tra bydd Syr yn meddwl am y peth.

Mae bós newydd Syr Wyn yn gallu rhannu briwsion hefyd. Bu sôn am ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd. Mae yna filoedd o weithwyr yn ansicr am eu dyfodol, mae pobl yn poeni beth ddaw o bethau fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi'r ad-drefnu. A dyna Mr John Redwood yn gwneud cyhoeddiad bod yr ad-drefnu i'w ohirio am flwyddyn arall **mewn araith ddeng eiliad** ar ddiwedd y ddadl seneddol, heb roi na chyfle nag amser i neb ei holi ynghylch y penderfyniad. Ond dyna fo, mi ddylai'r Cymry fod mor ddiolchgar am ddeng eiliad o'i ddoethineb.

A beth am Kenneth Clarke a'i gynlluniau i godi treth ar werth ar dannwydd. Cyhoeddwyd ers misoedd bod y dreth hon i'w gosod. Cafwyd cwyn a phrotest. Ofnir y bydd yna blant a hen bobl yn dioddef. Ofnir y straen ychwanegol ar deuluoedd cyffredin. A'r briwsion cysur a gawn ydi bod gan y Llywodraeth gynllun i roi help i'r holl bobl hynny a fydd yn ei chael yn anodd talu'r biliau uwch. Cofiwch chi, fedran nhw ddim deud ar hyn o bryd pwy gaiff yr help na faint o arian fydd ar gael. Ond ddylai neb ohonom boeni o gofio bod y Llywodraeth yn addo na chawn gam!

Ond nid oes monopoli ar rannu briwsion gan y Llywodraeth. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn dallt y gêm yn iawn. Bu ond y dim i Gymru gyrraedd ffeinals Cwpan y Byd. Cyn y gêm, roedd y tîm, y cefnogwyr a'r Wasg o'r farn y dylai'r rheolwr Terry Yorath barhau yn ei swydd, doed a ddelo. Hyd yn oed wedi'r gêm, does neb wedi dweud o ddifri yn wahanol. Ond beth am y Gymdeithas Bêl-droed? Pa gysur oedd ganddyn nhw i'r rheolwr; pa anogaeth roesant? 'Dydan ni ddim wedi siarad efo neb arall am y swydd.' Fe allan nhw fod wedi dangos hyder yn y rheolwr a chynnig cytundeb newydd iddo. Ond na, dylai fod yn fodlon nad oedd y Gymdeithas wedi trafod ei swydd efo neb, ddim hyd yn oed efo fo. Does ryfedd iddo awgrymu wedyn y bydd raid iddo ystyried cynigion am swyddi dramor.

Ond rhag beio pawb a phopeth arall, tybed nad yw'r un bai yn y rhan fwyaf ohonom? Daw llawer ar ein gofyn yr adeg hon o'r flwyddyn am gyfraniad at wahanol elusennau. Sut byddwn ni yn ymateb eleni? Ai rhoi yn hael wnawn ni ynteu rhoi briwsion a pherswadio'n hunain yr un pryd i ninnau rannu gwledd fawr?

# BEIBL WILLIAM MORGAN AR GAEL ETO

Ers i'r Beibl Cymraeg Newydd gael ei gyhoeddi yn 1988 mae gennym ddau gyfieithiad o'r Beibl cyfan yn ein hiaith. Erbyn hyn mae'r ddau gyfieithiad i'w gweld ochr yn ochr â'i gilydd mewn capel ac eglwys a chartref. Ond tybed a oeddech wedi sylwi ei bod yn mynd yn fwy anodd dod o hyd i gopïau o'r hen gyfieithiad ar silffoedd siopau?

Cymdeithas y Beibl, sydd â'i phencadlys bellach yn Swindon, a fu'n cyhoeddi'r Beibl Cymraeg ar hyd y blynyddoedd. Ers cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd, mae'r Gymdeithas wedi canolbwyntio ar werthu'r cyfieithiad hwnnw. Ni chafodd yr hen gyfieithiad ei ail-argraffu wedyn, ac o ganlyniad aeth copïau o Feibl William Morgan yn fwyfwy anodd i'w cael.

Erbyn hyn fodd bynnag mae'r sefyllfa hon wedi newid. Rhoddodd Cymdeithas y Beibl ganiatâd i'r Gymdeithas Feiblaidd Drindodaidd, sydd â'i phencadlys yn Llundain, i ail-argraffu'r hen gyfieithiad. O gofio wrth gwrs na fwriadwyd erioed i'r Beibl Cymraeg Newydd ddisodli Beibl William Morgan mae hyn yn newydd arbennig o dda.

Y gobaith yw y bydd cyfieithiad William Morgan yn dal i gael ei ddefnyddio yn helaeth yn y capeli a'r eglwysi, yn ogystal ag mewn defosiwn personol. Mae'r Beibl clawr caled ar werth am bris rhesymol iawn o £7.95. Mae ar gael hefyd fersiwn clawr lledr ohono mewn bocs hardd am £25.

# COLOFN NAWDD CYMDEITHASOL

### PENSIWN DWYIEITHOG

Ers mis Medi eleni mae trefnidau newydd mewn grym i ddosbarthu ffurflenni cais am Bensiwn Ymddeol i bob sy'n byw yng Nghymru.

Pan fydd rhywun sydd wedi bod yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cyrraedd o fewn pedwar mis i oed ymddeol y wladwriaeth (60 i ferched a 65 i ddynion) fe fydd yn derbyn llythyr o swyddfa'r Asiantaeth Budd-daliadau yn Newcastle upon Tyne, ynghyd â ffurflen gais am Bensiwn Ymddeol.

Ers mis Medi bydd pobl sydd yn byw yng Nghymru yn derbyn y llythyrau a'r ffurflenni hyn yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Mae hyn yn bosibl oherwydd fod cyfrifiadur yn Newcastle yn gallu didoli codau pôst Cymru oddi wrth y gweddill ac yn trefnu bod y llythyrau a'r ffurflenni a anfonir i Gymru yn y ddwy iaith.

Os oes rhywun angen ychwaneg o wybodaeth ar hyn neu ar unrhyw fater arall yn ymwneud ag unrhyw fudd-dal neu bensiwn Nawdd Cymdeithasol, ffoniwch y Linell Ddi-dâl Gymraeg ar **0800 289 011.** Mae'r alwad am ddim, ac os hoffwch fe anfonwn gopi o'r llyfryn dwyieithog, **'Budd-daliadau ar ôl ymddeol'**, i chi. Mae'r llyfryn hwn yn sôn am amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i bensiynwyr, nid am agweddau Nawdd Cymdeithasol yn unig.

# CAEATHRO

**Clive James, Hafan, Bryn Gwna.**
**Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)**

**Cyngor Cymuned:** Yn y cyfarfod cyfredol penderfynwyd rhoi £100 i'r Pwyllgor Cae Chwarae; £25 i Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ; £15 i Ysgol Feithrin y Bontnewydd; a £50 i fynwent y Capel; er mwyn i'r mudiadau hyn gario ymlaen gyda'u gwaith da. CAfwyd adroddiad fod Cyngor Sir Gwynedd wedi penderfynnu fod y llwybr cyhoeddus o ardal Penrhos yn rhedeg rhwng Maes-y-coed a Bryn Eglwys. Dylid gweld gwaith adeiladu cysgodfan bws newydd cyn bo hir.

**Noson Calan Gaeaf:** O dan nawdd y Pwyllgor Cae Chwarae cynhaliwyd coelcerth ar noson Calan Gaeaf ar y cae chwarae. Yn ogystal cafwyd codi afalau o'r dŵr, cawl, ac afalau toffi a siocled. Uchelbwynt y noson oedd y gystadleuaeth gwisg ffansi a'r lanternau gorau. Diolch i Harriet am feirniadu ac i'r plant a'u mamau am gystadlu, i'r pwyllgor am eu llafur caled ac i'r plant hŷn am godi'r goelcerth.

**Sioe'r Pentref:** Cynhelir y sioe nesaf ar ddydd Sadwrn, 20 Awst. Yn ystod y gaeaf ceir cyfle i wneud gwaith crefft a phrynu planhigion mewn potiau er mwyn eu paratoi ar gyfer y sioe nesaf. Gellir gweld rhest cystadlaethau ar hysbysfwrdd y pentref a hysbysfwrdd y Capel.

**Marwolaeth:** Bu farw Gomer Lovell yn ystod mis Hydref — canwr, adeiladydd cychod, saer a siopwr. Cydymdeimlwn â'r teulu Margaret, Siân ac Alison.

**Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Rhagfyr —
5: Parchg W. R. Williams am 2.
12: Parchg Ronald Williams am 2.
19: Dafydd Iwan a'r bobl ifanc am 5.30.
26: Dim gwasanaeth cyhoeddus — trefniadau teuluol.

**Tynfa'r Pentref:** Enillwyr mis Tachwedd oedd — £40: Michael Wyn Williams, Bodwyn; £25: Viv Morgan, Tyddyn Uchaf; £15: Idris Owen, Crud yr Awel.

**Parti Nadolig:** Cynhelir parti i blant o dan 11 oed yng Nglangwna ar brynhawn Mercher, 22 Rhagfyr, ac i oedolion dros 16 oed ar nos Sadwrn, 18 Rhagfyr. Trefnir y ddau achlysur gan Gymdeithas y Cae Chwarae.

# Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru

Carem dynnu sylw darllenwyr Eco'r Wyddfa at raglen cangen Arfon o'r Gymdeithas hyd ddiwedd mis Ebrill 1994. Bydd manylion rhaglen tymor yr haf ar gael yn y flwyddyn newydd pryd y trefnir teithiau yng ngofal arbenigwyr yn eu maes i wahanol ardaloedd yng Ngwynedd. Bu newid er gwell ym mholisi iaith y Gymdeithas yn ddiweddar a chyflwynir rhannau o'r Cylchlythyr yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Edrychwn ymlaen am ddatblygiadau pellach i'r cyfeiriad hwn.

**Nos Fawrth, Rhagfyr 7, am 7 p.m.:** Parti Nadolig. Bwyd da, sgwrs ddifyr ynghyd â gwesteion yn dangos rhai o'u hoff sleidiau am fywyd gwyllt. Gerddi Llysieueg, Treborth.

**Nos Fawrth, Chwefror 1, am 7.30 p.m.:** Sgwrs a sleidiau gan Jean Roscoe o dan y teitl 'Deserts of Morocco'.

**Chwefror 26:** Taith i Martinmere (ar y cyd â'r grŵp adar) i weld elyrch, gwyddau a hwyaid gwylltion. Ffoniwch (0248) 602186 neu (0248) 353398 yn nes ymlaen am fwy o fanylion.

**Nos Fawrth, Mawrth 1, am 7.30 p.m.** Dathlu Gŵyl Ddewi gyda sgwrs a sleidiau gan Eluned Bebb Jones ar 'Fywyd Gwyllt Eryri'. Bara Brith a Teisen Gri i ddilyn. Gerddi Llysieueg, Treborth.

**Nos Fawrth, Ebrill 26 am 7.30 p.m.:** Sgwrs gan Gyfarwyddwr newydd y Gymdeithas, Morgan Parry, ar ei gynlluniau a'i weledigaeth ar gyfer y Gymdeithas.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Enid Griffith, Cadeirydd Arfon (0248) 351714; Eluned Bebb Jones, Ysgrifennydd Arfon (0248) 362988; neu'r Swyddfa, 376 Stryd Fawr, Bangor (0248) 351541.

# Y FLOEDD


*Richard Lloyd Jones yn cofio'r amser y llofruddiwyd J. F. Kennedy.*

Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 24, 1963 oreddwn i'n un o'r 43,234 ar Barc Goodison yn Lerpwl. Dyma'r dydd Sadwrn ar ôl llofruddiaeth yr Arlywydd Kennedy yn Dallas. Roeddwn wedi mynd ar drip o Ysgol Dyffryn Ogwen i Lerpwl y diwrnod hwnnw. Roeddem yn mynd i weld Laurence Olivier mewn perfformiad o'r 'Entertainer' yn Theatr y Playhouse gyda'r nos, ac wedi cael mynd i Goodison yn y pnawn i weld gêm rhwng Everton a Stoke City. Dyna'r gêm bêl-droed broffesiynol gyntaf i mi ei gweld. Roedd yr enwog Stanley Mathews, ag yntau yn 50 mlwydd oed, yn nhîm Stoke, yn ei dymor olaf dros y tîm. Ac roedd 'pin-up boy' y cyfnod, Alex Young, yn arwain ymosodwyr Everton. Roy Vernon oedd yr unig Gymro ar y cae. Everton enillodd 1-0, â Tony Kay yn sgorio gydag ergyn o 25 llath. Fe ddeuai hwnnw i amlygrwydd yn nes ymlaen trwy gael ei garcharu gyda Peter Swan am 'fixio' canlyniad gêm.

Er cystal y gêm a phermormiad Olivier yn y theatr, digwyddiad arall sy'n aros yn y cof. Fel ym mhob gêm a chwaraewyd y pnawn hwnnw cafwyd dau funud o dawelwch er cof am yr Arlywydd. Roedd distawrwydd llethol, ond yna clywyd un floedd glir, 'Long live Kruschev'. Aeth y dorf yn ei blaen ond yn dal yn ddistaw. Ar ddiwedd y ddau funud codwyd y dyn a waeddodd dros ben y dorf, heibio i ni, i lawr at y trac o amgylch y cae. Cafodd ambell ddyrnod wrth gael ei basio yn ei flaen. Aethpwyd ag ef o'r cae yn ddiseremoni gan bedwar plismon. Ym marn y dorf, bron nad oedd y dyn cynddrwg â llofrudd, er na wn i ai ceisio bod yn ddoniol yr oedd ynteu mynegi barn wleidyddol. Ymhen ychydig wythnosau yr oedd gerbron y llys, ond niw wn beth oedd y cyhuddiad na'r ddedfryd. Ond fe gofiaf i'r dyn gael ei wahardd rhag mynd ar gyfyl yr un cae pêl-droed ym Mhrydain byth wedyn.

Heddiw, mae'n anodd cael ysbaid dau funud o ddistawrwydd. Ac mae'r un mor anodd cael y dorf i fod yn dawel tra cenir anthem y gwrthwynebwyr. Roedd llais y Sgowser yn glir fel cloch yn 1963; y dyddiau hyn, fyddai neb wedi ei glywed. A thybed a fyddai heddiw wedi apelio yn erbyn unrhyw ddyfarniad ar y sail bod gan yr unigolyn yr hawl i leisio'i farn.

Nadolig Llawen oddi
wrth **Bryn a Kathleen**



Am eich
**ANGHENION**
**ADEILADU**
mawr a bach
**MASNACHWYR**
**A "D.I.Y."**
am **BRISIAU**
**CYSTADLEUOL**

**BRYN**
(B & K Williams)

**Yr Hen Ysgol**
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482



Burmah AM BETROL, DIESEL, OLEW AC AMRYFAL ANGHENION MODURO Burmah

**GORSAF BETROL**
**LONDON GARAGE**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn: Llanberis 872046**
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb



**Mae Joan a Charles Ware**
**SWYDDFA'R POST**
**a Stordy Cwm-y-Glo**
**Ffôn: 870242**





yn dymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'w
holl gwsmeriaid







NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth
**C. a D. WAGER**
**Llythyrdy**
**BRYNREFAIL**
**Ffôn: Llanberis 870241**
Eich Stôr Leol Deuluol ar gyfer Papurau
Newydd, Bwydydd, Ffrwythau, Llyfrau
Cymraeg, Llysiau, Melysion, Tybaco


# CWM-Y-GLO


**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275**


**Llongyfarchiadau:**
— i Eiriona a Dino, 1 Rhes Bryn, ar enedigaeth mab, Christian, brawd bach i Michael;
— i Betty ac Ifan, 14 Dôl Afon, am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf; ganwyd merch fach, Elin Catrin, i Steven ac Isabel yn Llanrug.

**Gwellhad buan:** Dymunwn wellhad llwyr i Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, arôl iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd, hefyd cydymdeimlwn â Mrs Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith yng Nghaernarfon.

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Annie Hughes, Bryn, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith yn Sir Fôn.

**Marwolaeth:** Yn dawel ym Mhlas Pengwaith, gynt o Graig-y-don, bu farw Miss Annie Parry yn 98 mlwydd oed. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl gyda'r Parchg Gwynfor Williams yn gwasanaethu ac yna yn dilyn ym mynwent Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w nith a'i nai, Gwyneth a Peris Edwards, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Adref o'r Ysbyty:** Dymunwn wellhad llwyr a buan i Siân, Foelas, Bwlch, ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Clwb Pobl y Cwm:** Ar Hydref 28 roedd yn bleser, fel bob amser, cael croesawu Mr H. J. Hughes, Llanberis, i'r Clwb, ac yn ôl yr arfer, cawsom bnawn difyr iawn yn ei gwmni. I Blas Glynllifon yr aeth â ni y tro hwn, yn ôl yn wir i'r amser cyn adeiladu'r plas, ac o'r pryd hwnnw hyd heddiw. Mae Mr Hughes yn storïwr campus sy'n gallu cadw diddordeb o'r dechrau i'r diwedd, a diolchwyd yn gynnes iddo am ei gwmni a'i sgwrs ddifyr. Gofalwyr y baned a'r raffl oedd Mrs E. Hughes a Miss E. Hughes, ac enillydd y raffl oedd Mrs Mair Williams.

Ar 11 Tachwedd ein Llywydd gweithgar, Mr Ll. Hughes, fu'n ein diddori y tro hwn, ac yn ôl i ddyddiau prysur 'Copr Ladis' Mynydd Paris ein harweiniodd. Mwynhawyd yn fawr hanes y mwyngloddio prysur a fu, a diolchwyd i Mr Hughes am ei gyfraniad gwerthfawr.

Mrs E. Hughes a Mrs G. Chick ofalodd am y lluniaeth ysgafn, gyda chyfraniad, a'r raffl gan Mrs Katie Williams.

**Bingo:** Cynhaliwyd noson o Bingo ar 19 Tachwedd a drefnwyd gan Rhieni ac Athrawon yr Ysgol ac fe wnaed elw o £200. Enillwyd y raffl gan y canlynol — (mewnol): 1, Keith Williams; 2, B. Davidson; 3, Betty Roberts; 4, Clair Pritchard; 5, Kim Cullen; 6, Mrs A. Jones; 7, Terry Williams; 7, Catherine Ffoulkes; 8, Clair Pritchard; 9, K. Williams; 10, Leigh Williams; (allanol): 1, Jonathan, Llanberis; 2, B. Chadwick; 3, Karrah Williams; 4, 20 Dôl Afon; 5, 872462; 6, 13 Dôl Afon; 7, Andrew, Tŷ Coch; 8, M. Barnicott; 9, Alison, Brynrefail; 10, Megan, Bwlch; 11, Kim.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth arferol.

**Yr Urdd:** Hydref 11 — Cafwyd noson hwyliog o Bingo a Chwilen. Anti Val ac Anti Judith oedd yn gofalu am y noson a dioch yn fawr iddynt am eu gwaith. Tachwedd 1 — Mwynhaodd pawb ddawnsio gwerin gyda Mrs Bethan Williams, Llanrug. Diolch yn fawr iddi am ddod atom. Gofalwyr y noson oedd Anti Margaret ac Anti Sioned. Tachwedd 15 — Daeth un o weithwyr Gwasanaeth Tân, Caernarfon, atom i ddangos fideo a chael sgwrs ddiddorol iawn gyda'r plant. Diolch yn fawr iddo am ddod atom. Gofalwyr y noson oedd Anti Avril ac Anti Karen.

Cymerodd dau o blant yr adran ran yng ngala nofio'r Urdd ym mhwll nofio Bangor. Ar nos Iau, Tachwedd 11, aeth Keith Williams i gystadlu yn y nofio o dan 10 oed a daeth yn chweched a seithfed yn ei ras. Nos Lun, Tachwedd 15, aeth Angharad Swift i gystadlu o dan 12 oed a daeth yn ddegfed a phymthegfed. Da iawn y ddau ohonoch.

**Yr Ysgol Feithrin:** Nos Fercher, 3 Tachwedd, cynhaliwyd Disgo Gwisg Ffansi i'r plant yn yr Ysgol, ac yr oedd pawb yn chwys domen ar ôl dawnsio. 'Roedd y plant i gyd wedi eu gwisgo yn arbennig o dda, dyma'r enillwyr — Ysgol Feithrin: 1, Angharad a Rebecca Starkey fel angylion bach; 2, Drew Michaela a Liam Radnor fel dynion bach, bach, bach; 3, Kerry fel merch fach Gymreig. Dosbarth Mrs Williams: 1, John Callaghan fel Michael Jackson; 2, Ryan Roberts fel dyn y gofod; 3, Clair Pritchard fel cath fach wen. Dosbarth Mrs Jones a Mrs Williams: 1, Karrah Williams fel Indiad; 2, Bronwen Angharad fel ystlum; 3, Luke Roberts fel pry' copyn.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i Mrs Vera Price a Mrs Veronica Williams am wneud y gwaith anodd o ddewis y goreuon ac hefyd i Mrs Glenda Roberts, Brynrefail, am wneud y Disgo; ac i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn un mor lwyddiannus. Gwnaed elw o £94.32. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

**Undeb y Mamau:** Cafwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 1 Tachwedd. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs M. Roberts, Mrs J. Side a Mrs B. Jones. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol gan y trysorydd, Mrs G. Roberts, fel rhai cywir. Darllenwyd cofnodion y pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 1992. Ail-etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall a chytunodd Mrs Craven i ymweld â'r cleifion yn Llanrug. Cafwyd adroddiad gan Mrs E. Taylor am y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs D. Jones a Mrs Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs Craven a Mrs M. Roberts. Aelodau Cwm-y-glo oedd yn gyfrifol am y baned a diolchwyd iddynt gan Mrs Craven.

Bydd Gwasanaeth o Garolau yn Hafan Elan ar nos Lun, 6 Rhagfyr a bydd croeso cynnes i bawb.

**ORIAU NEWYDD MEDDYGON LLANBERIS BOB DYDD GWENER:**
**Llanrug yn y bore o 9.30 — 11.00**
**Deiniolen yn y pnawn o 2.00 — 3.30**
**Croeso i'r Dr Alwyn Parry i'n plith.**



*(Cwm-y-glo — parhad)*

**Ysgol Cwm-y-glo:** Ar hyn o bryd, mae dwy fyfyrwraig o'r Coleg Normal yma ar ymarfer dysgu. Estynnwn groeso i Mis Non Thomas a Miss Catrin Evans gan obeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith. Yn anffodus bu Non mewn damwain car ar ei ffordd i'r ysgol, ond rydym yn falch iawn ei bod yn well ac na chafodd niwed rhy ddifrifol.

Cafodd dosbarth y Babanod bnawn pleserus iawn yng ngweithdy Piggery Pottery Llanberis. Gwnaeth pob un ohonynt botyn personol, yng nghwmni Elen Parry o Lanrug. Diolch iddi hi am ei chymorth.

Bu Nyrs Beti Parry yn sgwrsio gyda'r Babanod am fwyta'n iach a chadw'n lân, a chawsant orig ddiddorol iawn yn ei chwmni.

Llongyfarchiadau i Ben, Chris, Matthew, Daniel, Branwen, Jenny ac Angharad ar fod yn llwyddiannus yn y Cwrs Beicio. Diolch arbennig i Mr Dafydd Edwards fu'n eu hyfforddi.

Mr Ted Rowlands, Cwm-y-glo enillodd y wobr gyntaf am fis Hydref yng Nghlwb yr Ysgol. Aeth yr ail wobr i Mr Gwyndaf Hughes, Llanrug.

Cynhaliwyd noson o Bingo llwyddiannus iawn unwaith eto dan nawdd Cymdeithas Rhieni / Athrawon yr Ysgol. Diolch i bawb gefnogodd y weithgaredd ac am yr holl roddion dderbyniwyd ar gyfer y gwobrau a'r raffl.

Cofiwch fod gennym lian sychu llestri deniadol iawn ar werth eleni. Arno, mae pob plentyn wedi gwneud llun ohono'i hun ac wedi ei lofnodi. Maent ar werth yn yr Ysgol am £2.50. Anrheg Nadolig ardderchog i deulu ac i ffrindiau!

A sôn am y Nadolig, cynhelir Cyngerdd Nadolig yr Ysgol ar nos Iau, Rhagfyr 16, am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni.

## BRYNREFAIL

**Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580**

**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Gwyn Hefin Jones a'r teulu, Rhandir, yn ei brofedigaeth o golli ei fam, sef y ddiweddar Mrs Ceinwen Jones, Penrhosgarnedd, Bangor.

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion at ddwy chwaer o'r pentref sydd mewn ysbytai. Yn dilyn damwain, treuliodd Miss Blodwen Owen, 2 Tai Orwig gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond ar hyn o bryd yn gwella'n foddhaol yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Hefyd Mrs Betty Owen, Llwyncoed Bach hithau o ganlyniad i ddamwain ac sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Taith Ffilmio:** Ar Hydref 31ain, gadawodd Mrs Anita Long, Tan yr Onnen am Papua New Guinea am gyfnod o chwe wythnos i gymryd rhan mewn taith ganwio. Caiff yr antur ei ffilmio gan gwmni o Awstralia ac fe'i noddir gan S4C.

**Eglwys M.C. Brynrefail:** Ddydd Sul, Tachwedd 14eg, Sul y Cofio, cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn oedfa'r hwyr pryd y cymerwyd rhan gan Mr Richard Wyn Evans, Miss Lowri Prys Roberts a mrs Jennie Angharad Roberts.

Cynhelir y gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig eleni ar brynhawn Sul, Rhagfyr 19eg am 2 o'r gloch, dan nawdd plant, ieuenctid ac aelodau'r Eglwys.

**Ar y Teledu:** Ymddangosodd Kelvin Houston, 2 Trem Eilian ar raglen 'Heno' yn ddiweddar, pan gafodd ei gyfweld yn dilyn ei ddyletswyddau fel aelod o'r Gatrawd Frenhinol Gymreig yng Ngogledd Iwerddon.

**Sefydliad y Merched:** Cyfarfu'r gangen leol yn y Festri, nos Lun, Tachwedd 15fed dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Hwn oedd y Cyfarfod Blynyddol a chroesawyd Mrs Louise Pritchard (Trysorydd Sirol) fel VCO. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn — Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Betty Owen; Trysorydd: Mrs Gwawr Morris. Hefyd fe dderbyniwyd Mrs Berna Jones, Meillionen fel aelod newydd o'r gangen a hi enillodd wobr y mis, rhoddedig gan Mrs Betty Owen. 'Roedd lluniaeth y noson ar ffurf bwffe a baratowyd gan yr holl aelodau.

**Marwolaeth:** Ddydd Mercher, Tachwedd 10fed, yn Ysbyty Bryn Seiont, bu farw Miss Annie May Williams, Llys Arfon, yn 72 mlwydd oed. Dioddefodd gystudd blin a wynebodd yn ddewr.

Bu'r angladd ddydd Mawrth, Tachwedd 16eg, yng Nghapel M.C. Brynrefail. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parchg John Morris, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg John Glyn, Waunfawr. Yn ei deyrnged i'r ymadawedig tystiodd y gweinidog i'w phrofiad o Dduw fod yn sylfaen i'w bywyd ac i hynny fod yn angor iddi wynebu marwolaeth yn gadarn a di-stŵr. Bu'n hynod ffyddlon i'r Eglwys ym Mrynrefail ar hyd y blynyddoedd. 'Roedd yn gyn-flaenores ac wedi hyfforddi to ar ôl to o blant ac ieuenctid yn yr Ysgol Sul. 'Roedd hefyd yn fwr ei pharch yn ardal Penisarwaun, lle bu'n athrawes ymroddedig yn yr Ysgol Gynradd am flynyddoedd lawer.

'Roedd yn gymeriad tawel, tyner a pharchus iawn ac yn nodedig am gydnabod gwasanaeth eraill.

Yn cynorthwyo'r gweinidog yn y gwasanaeth yn yr Amlosgfa roedd y Parchg Dewi Tudur, Talsarnau, a'r Parchg Ioan Davies, Bangor. Y cludwyr oedd y Mri Tecwyn, Dewi, Glyn ac Ian Williams (neiaint). Cynrychiolwyd Eglwys M.C. Brynrefail gan Mr Richard Wyn Evans, Mrs Jennie Roberts, Mrs Bertie Roberts, Mr Gwyn Hefin Jones, a Miss Lowri Prys Roberts (blaenoriaid). 'Roedd y trefniadau angladdol yng ngofal E. W. Pritchard, Llanberis. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i brodyr Mri Wilbert, Oliver a Gwyndaf Williams, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u colled. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn y llu cardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant ynghyd â'r rhoddion tuag at Ymchwil y Cancr ac Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont.




CYFARCHION NADOLIG
O GWM-Y-GLO
A BRYNREFAIL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
MEDWEN
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
Ffoniwch 678376 i drefnu amser

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430
HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Dymuna Maldwyn a Margaret
Gwesty'r
Fricsan
(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Llanberis 870289
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
MODURDY
London Garage
GWERTHWR MODURON A PHARTIAU
FIAT
CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870234
Arbenigwyr mewn tiwnio moduron
M.O.T.

*Enillydd cystadleuaeth 'Medal yr Ifanc' yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, Llanrug, 1993*

# DIANC

gan DELYTH HUMPHREYS

Annwyl Fodolaeth,

Coelia di fi, 'doedd o ddim i fod i ddigwydd. 'Roeddwn dan ddylanwad y ddiod feddwol felltich yna. Maddeua i mi. Gobeithio, er mwyn y nefoedd, y byddi di'n fyw i gael darllen hwn. Buasai'n well gen i ddweud wyneb yn wyneb wrthyt, ond ni fedraf fod yn siŵr y bydda' i'n dal i fod ar dir y byw.

Mae'n well i mi ddechrau:

Dathlu gŵyl y Nadolig yr oeddem ni, fy ffrind a minnau. Fe gawsom barti yn nhŷ Gwen ac 'roedd pawb i ddod â ffrind. Felly mi fedri di goelio fod yna dipyn yno. 'Roedd y rhan fwyaf yn ddieithr i mi, ond erbyn diwedd y noson 'roedd pawb yn weddol gyfeillgar. 'Roedd un bachgen y tu hwnt o groesawgar. Gerallt oedd ei enw. Daeth i'm croesawu ar riniog y drws. 'Roedd clwstwr o enethod o'i gwmpas fel gwenyn o amgylch pot jam.

'Roedd yn berchen ar dwmpath o wallt du, trwchus, a llygaid gleision a fuasai'n toddi calon unrhyw ferch. Fe ddeuthum i'w adnabod yn dda yn yr ychydig oriau hynny.

Eisteddodd Gerallt ar y gadair esmwyth. Teimlwn fel pe bawn yn y seithfed nef. Trodd a'm hwynebu. Cydiodd yn fy ngwallt yn dyner a'm cusanu. 'Roedd ei gusan yn felys, a'c arogl cwrw yn gryf ar ei wynt. Y peth nesaf a gofiaf oedd fod Gerallt wedi fy nhywys i fyny'r grisiau ac i un o'r ystafelloedd gwely.

Trannoeth, sylweddolais pa mor ffôl y bûm, a thrio cofio a wnaethom ymddwyn fel oedolion cyfrifol. Tra 'roeddwn yn pryderu roeddet yn tyfu y tu mewn i mi.

'Roedd y diwrnodau a ganlynodd yr un peth ag arfer ond ymhen tair wythnos teimlwn yn ddifrifol o sal, a meddyliwn fod y byd ar ben. Wrth gwrs, fe sylweddolais be' allai fod yn achosi'r salwch, felly fe es i ymweld â'r meddyg. Pan ddywedodd wrthyf fy mod yn feichiog, llewygais. Ond ar ôl gwella tipyn rhedais adref er nad oedd gen i affliw o syniad beth i'w wneud.

'Wn i ddim be' ddaeth drosof. 'Roedd meddwl am orfod dweud wrth fy mam, a phan ddeuai trigolion eraill y pentref i wybod, yn fy ngwneud yn sal. Buasai'n fêl ar wefusau pawb.

Brasgamais i fyny'r grisiau i'm hystafell wely a chloi'r drws. Meddyliais pa mor braf oedd cloi'r drws ar fy mhroblemau Estynnais fy mag ysgol a stwffio rhai pethau angenrheidiol iddo — pethau fel dillad isaf, arian, a bag ymolchi.

Yr unig beth oedd yn fy mhoeni oedd fi fy hun . . . hunangyfiawn, . . . hunandosturiol . . . fi. Poeni tra yr oeddet ti yn tyfu y tu mewn i mi.

Rhedais allan o'r tŷ i gyfeiriad yr arhosfan bws. Fy mwriad oedd mynd mor bell ag y gallwn o'm cartref. Dim ots i ble, os oedd o'n ddigon pell o dafodau haerllug a hallt y cymdogion. Roedd hynny'n ddigon da i mi.

Felly dyna pam 'rwy'n ysgrifennu hwn atat.

'Rwy'n byw ar y strydoedd. Feddyliais i erioed y buaswn yn dod i'r fath gyflwr. 'Rwyf wedi gweld digon o bobl eraill yn crafu byw ond ni allaf goelio fy mod i'n gorfod chwilio yn y biniau sbwriel am damaid i'w fwyta.

Heblaw amdanat ti, buaswn wedi rhoi'r ffidil yn y to amser maith yn ôl, ac wedi gadael yr hen fyd cas yma. Mae gennyf fywyd bach, gwerthfawr arall i ofalu amdano. Ond mae 'mywyd i ar chwal.

Mae'n siŵr bod fy rhieni yn poeni amdanaf, ond nid oes unrhyw ffordd y gallaf gysylltu â nhw. O, na allwn droi'r cloc yn ôl! Paid am eiliad â meddwl fy mod yn difaru bod yn feichiog, ond y camgymeriad mwyaf a wnes oedd cefnu ar fy mhroblemau.

'Does gen i ddim eiddo personol o gwbwl. Cafodd rhywun, nad oedd posib yn ei iawn bwyll, y pleser o'm gweld yn torri fy nghalon pan welais fod fy mag wedi diflannu. 'Does dim yn awr a all fy atgoffa o'r gorffennol di-boen.

Gobeithio dy fod yn iach i mewn yn fan'na. 'Dwi'n gwybod dy fod ti angen llawer mwy o faeth na'r hyn yr wyt yn ei gael, ond dydi o ddim yn hawdd. 'Rydw i'n cyfri fy mendithion os wyf yn lwcus i gael tafell o fara wedi llwydo erbyn hyn.

'Rydw i'n siŵr i mi wled Mam y dydd o'r blaen, neu nain i ti. Er mai yn y pellter y'i gwelais, fe allaf adnabod ei het fawr grand filltiroedd i ffwrdd. 'Sgwn i be' fuasai ei hymateb pe gwyddai fod yna wyres neu ŵyr ar y ffordd? Ar ôl dod dros y sioc, rwy'n siŵr y busasai wrth ei bodd.

Ond gaiff hi wybod?

Wyt ti'n synhwyro dy awyrgylch. Gobeithio nad wyt ti ddim. Daeth dyn ataf ddoe gan ofyn a oeddwn eisiau gwneud 'ffafr' fach iddo. Paid a phoeni, fe wrthodais gan gofio dy fod ti yn tyfu y tu mewn i mi.

Efallai dy fod eisiau gwybod ychydig am dy dad, er mwyn cael rhywfath o sylfaen pan wyt ti'n hŷn. Gerallt. Dyna yw ei enw. Mae'n byw yn Llandrindod, yn ôl pob sôn. Os wyt yn penderfynu cysylltu ag o, gwna. Nid ei fai o oedd o gwbwl. Nid yw hyd yn oed yn gwybod ei fod yn dad.

Efallai y buasai'n syniad da i ti gael gwybod 'chydig o fanylion am dy nain a dy daid, i ti gael cymorth ganddynt pan wyt yn hŷn. Catrin Hughes yw enw fy mam, ac enw fy nhad yw Robert Hughes. Maent yn byw yn 'Nhyddyn Isaf', Llandrindod, ar hyn o bryd.

Paid â phoeni am eu hymateb. Efallai na wnânt fyth faddau i mi, ond mae yna obaith i ti, gan dy fod yn berson newydd heb wneud dim da, na dim drwg. Yr wyt yn fywyd newydd, pur, dilychwin. Os wyt ti'n ddigon lwcus i gael dy dderbyn ganddynt, rho neges iddynt oddi wrthyf i: 'Rydw i'n difaru hyd heddiw am y cam gwag a wnes, ac yn deall os nad oes arnynt eisiau maddau i mi.

Dydw i ddim eisiau bod yn drist, ond nid wyf yn meddwl y gallaf fyw am lawer ar ôl dy enedigaeth. 'Rwy'n gwybod dy fod am fyw, 'rwyt mor iach â chneuen. Teimlaf bob symudiad yr wyt yn ei wneud, yn enwedig ar ôl i ti ddarganfod fod gennyt ddwy goes!

Trysora'r llythyr yma. Hwn yw'r unig wrthrych y gallaf gynnig i ti, i'm cofio.

Os na elli di faddau i mi, 'rwy'n deall. A dweud y gwir dydw i ddim yn siŵr a fuaswn i yn maddau i fy mam ar ôl iddi fy ngadael chwaith. Maddau i mi neu beidio, mae gennyt nain a thaid gwerth eu pwysau mewn aur, a modryb fuasai'n fodlon dy warchod bob noson o'r flwyddyn!

Er mai fi fy hun sy'n dweud, 'roedd gen i ddyfodol disglair o'm blaen, ac wedi cael digon o brofiadau i ehangu fy ngorwelion. Fy uchelgais oedd teithio'r byd, a phe na bawn wedi bod mor ffôl, buasai wedi bod yn bosib i ti ddod efo mi. Mam a'i phlentyn yn teithio ar eu pen eu hunain. Mae hynny'n swnio fel paradwys.

Wyt ti'n ddigon cynnes? 'Rwyf wedi lapio cymaint ag y gallaf amdanaf yn barod. Synnet ti pryd y gall taflen o bapur newydd fod mor ddefnyddiol. 'Rwyf wedi dysgu llawer am 'Werth Bywyd' a rheimlaf fy mod wedi disgyn yn hegar i'r gwaelodion. Mae pob un diwrnod yr un fath. Mae fel petai Chwefror y trydydd yn cael ei ailadrodd yn ddi-baid.

Bellach mae chwe mis ers i ti gael dy genhedlu. Mae'n siŵr dy fod wedi dod o hyd i dy ddwy law, ac yn sugno dy fawd yn brysur fel mae'r lluniau yn ei ddangos mewn llyfrau.

Os oes un pwrpas yn unig i sgwennu y llythyr yma, mae o i dy berswadio i ddianc o'r fan hyn. Does dim dyfodol yma ar y stryd ac ni chei dy drin fel person, ond fel anifail yn byw yn y gwyllt.

Mae'n rhy hwyr yn awr i mi ddianc. 'Rwyf wedi cael fy ngharcharu. Ond gan nad wyt ti ddim wedi anadlu'r aer llygredig yma eto, sicrha dy fod yn cael dy ryddhau.

Nid wyf yn siŵr sut mae gwneud hyn, ond pan wyt yn ddigon hen i ddeall, ac i ddarllen y llythyr yma, mae'n RHAID i ti fynd.

Ond, coelia di fi, 'doedd o ddim i fod i ddigwydd.

Cariad,

MAM x x x

*Delyth hefyd oedd awdur y stori 'Chwarae'n Troi'n Chwerw' a enillodd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llanrug, ac a gyhoeddwyd yn Eco'r mis diwethaf. Ymddiheurwn na roddwyd ei henw wrth y stori.*




*Delyth yn cael ei chyfarch yn ystod Seremoni'r Cadeirio yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Am fwy o hanes yr Eisteddfod gweler y dudalen ganol.*

# EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

## (Deiniolen a'r Cylch)

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni ar nos Wener, 29 Hydref a'r Sadwrn 30 Hydref. Y beirniaid eleni oedd Mrs Valerie Ellis, Mynytho (Cerdd); Mr Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug (Adrodd a Llên). Dyma'r canlyniadau –

ADRODD Ysgol Feithrin: 1, Gethin; 2, Gwenllian; 3, Jamie. Dosbarth derbyn: 1, David; cyd 2, Bedwyr a Daniel; cyd 3, Iola a Nidian. Dosbarthiadau 2 a 3: 1, Ruth; cyd 2, Bethan a Donna; 3, Heledd. Safon 1 a 2: 1, Lowri; 2, Tristan; 3, Gethin. Safon 3 a 4: 1, Rhian; 2, Elfed; cyd 3, Julie a Louise. Parti cydadrodd dan 12 oed: 1, Parti Jennie; 2, Bethan ac Elfed. Adrodd dan 15 oed: 1, Alawr Mari Hughes; cyd 2, Lyndsey a Michelle; cyd 3, Erica, Jenny Lynn, Iwan Llŷr. Dan 19 oed: 2, Lyndsey V. Parry. Deialog dan 21: Lyndsey a Carwyn. Darlleniad o'r Ysgrythur i ddysgwyr: 1, Miss Jean Moeller. Adrodd o'r Ysgrythur agored: 1, Lyndsey V. Parry. Prif Adroddiad: 1, Meira Turner, Waunfawr.

CANU Ysgol Feithrin: 1, Sioned Mair, Dinorwig; 2, Sioned; cyd 3, Nicola a Gwenllian. Dosbarth derbyn: 1, Manon; 2, Bedwyr; 3, Emma; 4, Iola. Dosbarthiadau 2 a 3: 1, Heledd B. Parri; 2, Donna; 3, Ynyr G. Parri. Safonau 1 a 2: 1, Tristan; 2, Gethin; 3, Rhian. Safonau 3 a 4: 1, Elfed Morgan Morris; 2, Rhian. Unawd Cerdd Dant dan 12 oed: 1, Elfed Morgan Morris. Cân Werin dan 12 oed: 1, Rhian; 2, Jenny Lynn; 3, Gethin. Pari Canu dan 12 oed: 1, Parti Jenny Lynn; 2, Parti Bethan ac Elfed. Unawd offerynnol 12 i 15 oed: 1, Iwan Llŷr; 2, Arwel; cyd 3, Urien Sion a Rhodri. Unawd dan 15 oed: 1, Lyndsey V. Parry; 2, Elfed Morgan Morris; cyd 3, Alaw Mari a Jenny Lynn. Unawd Cerdd Dant dan 19 oed: 1, Lyndsey V. Parry; 2, Michelle Louise; 3, Nia, Caernarfon. Cân Werin dan 19 oed: 1, Lyndsey V. Parry; 2, Michelle Louise; 3, Nia, Caernarfon. Deuawd dan 19 oed: 1, Lyndsey a Jenny; 2, Nia ac Erica. Unawd dan 19 oed: Lyndsey V. Parry. Deuawd offerynnol dros 12 oed: 1, Sian ac Euros; 2, Iwan a Jonathan. Unawd piano dan 19 oed: 1, Einir Gwenllian; 2, Michelle Louise; 3, Lyndsey V. Parry. Côr neu barti ieuenctid: 1, Parti Lyndsey. Unawd Cerdd Dant agored: 1, Lyndsey V. Parry; 2, Nia Land. Unawd offerynnol dan 12 oed: 1, Jenny Lynn; 2, Arwel; 3, Urien; 4, Rhodri. Unawd i ddysgwyr Cymraeg dros 15 oed: 1, Miss Moeller. Unawd dan 24 oed: 3, Nia Land. Deuawd dros 19 oed: 1, Alun ac Wmffra, Waunfawr. Unawd offerynnol agored: 1, Gavin Saynor; 2, Euros; 3, Siân. Canu Emyn-dôn dros 50 oed: 1, Wmffra; 2, Alun Mabon, Waunfawr. Cân Werin dros 19 oed: 1, Wmffra, Waunfawr; 3, Alun Mabon, Waunfawr. Her Unawd: cyd 3, Alun ac Wmffra, Waunfawr. Cyfansoddi Tôn: 1, Annette Bryn Parri. Cyfansoddi cân ysgafn: 1, Annette Bryn Parri.

ADRAN LENYDDOL Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1, Kayley; 2, Manon; cyd 3, Iola a John Stevens. Dosbarth 2 a 3: cyd 1, Heledd ac Alecia; cyd 2, Ruth, Mathew, Donna M. Safonau 1 a 2: 1, Aneurun; 2, Lowri. Safonau 3 a 4: 1, Rhodri; 2, Ceri; 3, Sarah. Barddoniaeth dan 12 oed: 1, Rhodri; 2, Ceri Olwen; cyd 3, Kelly a Rhian. Rhyddiaith dan 15 oed: 1, Alaw Mari; 2, Jenny Lynn. Barddoniaeth dan 19 oed: 1, Lyndsey V. Parry. Rhyddiaith dan 19 oed: 1, Siân Ellen Thomas. Medal Lenyddol dan 21 oed: Karen Owen, Pen-y-groes. Stori Fer agored: 1, Dafydd G. Evans, Bethel. Englyn Digri: 1, R. Gwynn Davies, Waunfawr. Englyn: 1, Robert Henry Parry, Caernarfon. Erthygl: 1, Mr Hugh Jones, Deiniolen. Telyneg: 1, Mary W. Jones. Cyfansoddi Emyn: 1, Mary W. Jones. Llinell goll: 1, Mary W. Jones. Baled: 1, R. D. Roberts, Y Groeslon. Creu Brawddeg: 1, Mary W. Jones. Cystadleuaeth y Gadair: Mrs Eirlys Glyn Thomas, Dinbych.

ADRAN CELF A CHREFFT – Arlunio Ysgol Feithrin: 1, Simon; 2, Louise; 3, Karen. Dosbarth derbyn: 1, John Steven; 2, Michelle Lousie; 3, Tasmin. Dosbarth 2 a 3: 1, Heledd; 2, Gregory; 3, Alatea. Safonau 1 a 2: 1, Ben Boothroyd; 2, Rhian Owen; 3, Lowri Williams. Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd: 1, Lynne Roberts. Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Uwchradd: 1, Tanya Thomas. Dros 19 oed: 1, Hugh T. Jones. GWAITH LLAW Ysgol Feithrin: 1, Simon; 2, Louise; 3, Jamie. Dosbarth derbyn: 1, Nidian Caffo. Dosbarth 2 a 3: Llinos Morris. Safonau 1 a 2: 1, Trystan Ellis Morris. Safonau 3 a 4: 1, Jonathan Roberts. Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd: 1, Jennie Lynne Morris; 2, Lynne Roberts. GWAU Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Rhian; 2, Julie; 3, Stephanie. Dan 15 oed: 1, Alaw Mari. Dros 15 oed: 1, Nan Owen; cyd 2, Valmai Williamsa Menna W. Jones; 3, Elan Williams. GWNÏO Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Rhian; 2, Carol; 3, Ffion. Dan 15 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Crosio: 1, Nan Owen. Tegan Meddal: 1, Bethan Williams. COGINIO Dan 8 oed: 1, Nidian Caffo. Dan 12 oed: cyd 1, Trystan a Jenny L. Morris; 2, Rhian; 3, Lowri. Dan 15 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Gingercake: 1, Valmai Williams; cyd 2, Marian Morris a Menna W. jones; 3, Elan Williams. Dynion yn unig: 1, John B. Jones; 2, Hefin G. Jones. FFOTOGRAFFIAETH dan 12 oed: 1, Rhian Meleri; 2, Jennie Lynne; 3, Trystan. Dan 15 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Agored: 1, Valmai Williams. TREFNIANT BLODAU dan 12 oed: 2, Rhian Meleri; cyd 3, Iona a Lynne. Dan 15 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Dan 19 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gymerodd ran i wneud yr Eisteddfod yn un mor lwyddiannus.



*Seremoni'r Cadeirio – Dyfan Siôn yn arwain defod cadeirio Mrs Eirlys Glyn Thomas, Dinbych.*

# ENILLWYR IFANC YR EISTEDDFOD



*Elfed, Aneurin a Rhian Williams gyda'u cwpanau am yr ymdrechion gorau ar ganu, llenyddiaeth ac adrodd.*



*Enillwyr ifanc y medalau yn yr Eisteddfod.*



*Enillwyr y cystadlaethau llwyfan a gwaith cartref yr Eisteddfod.*


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**40 Stryd Fawr PORTHAETHWY**

**Ffôn: (0248) 714043 neu C'fon 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**Ar Agor** 9-7pm 9-5pm Sadwrn **Ar Gau** Sul a Mercher



**Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.**
**Dewis eang o '3 Piece Suites'.**
**Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'**
**Gwaith Contract.**
**5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?**

**WAUNFAWR 650291**

**MODURDY**

**PLAS BACH**

**CAEATHRO**

**Ffôn: C'fon 672072**

Gwerthu, Trwsio Trin Cyrff H.P. ar gael

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

# ARFON GARAGE

## DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
**oddi wrth**

# SLING

GOLYGFEYDD I DELEDU A FFILM
Hefyd GWAITH COED:- grisiau, ffenestri ac ati ar gyfer eich cartref.

**Tabernacl**
**Ffordd Deiniol**
## DEINIOLEN

**Ffôn: Llanberis 872044**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

**BILL, LIZ a FIONA**

## SWYDDFA'R POST DEINIOLEN

**Ffôn: Llanberis 870283**

---

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

**ANITA, MARK A'R STAFF**

## WELLINGTON INN

**Deiniolen**

Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus — chwerw ar ei orau

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

# T. W. THOMAS

'SGUBWR SIMNAI

PENLAN, GALLTYFOEL,
## DEINIOLEN
**Ffôn: Llanberis 872288**

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN

---

# CYFARCHION DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**JAVED A SHAVEEN HAQ**

## SWYDDFA'R POST CLWT Y BONT

**Ffôn: 870325**

Cynrychiolwyr: SHELL GAS, RADIO RENTALS
Canolfan Ddosbarthu Llaeth Babi, yn cynnwys cyfnewid tocynnau Llaeth Lles
**Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

## NGORSAF BETROL
# BERAN

**DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521**

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
*Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn*

**10 Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol**

---

Dymuna **DAFYDD GWENLLI A STAFF**

## Y TARW
## BULL INN
## DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid a chyfeillion oll

---

**AR AGOR**
**Llun-Gwener 8.30am-10pm**
**Sdawrn 9am-10pm**
**Sul 10am-9pm**

## VG LATE SHOP

**Stryd Newydd**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: 870171**

Diolch am bob cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Edgar a'r holl staff

---

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD
oddi wrth
**GWYN OLIVER JONES**

# *Bar Super Arfonia*

**DEINIOLEN**
**Ffôn: Llanberis 870048**

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

**Y Seindorf:** Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar eu llwyddiant ym Mhencampwriaeth Pontins ddiwedd mis Hydref. Daethant yn ail allan o wyth o fandiau.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Cynan Jones, arweinydd newydd y Seindorf, oherwydd hwn oedd cystadleuaeth gyntaf Mr Jones gyda'r Seindorf.

Mae enw Cynan Jones yn bur adnabyddus gyda bandiau pres gan iddo ddechrau gyda Band y Royal Oakeley (Blaenau Ffestiniog) ym 1943, ac fe fu'n chwarae'r euphonium yno hyd 1957 pryd y symudodd i Essex. Yn 1968 symudodd i Gaerffili ac fe fu'n aelod o Fand Canol y Rhondda a Band Melingruffudd a oedd ar y pryd yn cael ei arwain gan Haydn White, gŵr a fu'n flaenllaw iawn yn Seindorf Deiniolen yn ystod y pumdegau.

Yn 1973 dechreuodd fand Bedwas, Tretomas a Machen (BTM) ac fe gododd y band yma i fyny i'r brif gynghrair, a chafodd gryn dipyn o lwyddiant gyda'r BTM.

Gweithio fel athro cerdd teithiol oedd ei waith beunyddiol a bu yn gyfrifol am ysbrydoli Band Ieuenctid De Morgannwg. Yn 1988 aeth yn arweinydd ar fand Cwmaman, a oedd yn y pedwerydd dosbarth ar y pryd, ac fe'i cododd hwythau i'r adran gyntaf. Ei ddymuniad yw cael llwyddiant cyffelyb yma yn Neiniolen.

Bydd y gystadleuaeth nesaf yn Llandudno ar Ragfyr 4ydd, sef pencampwriaeth Gogledd Cymru, lle bydd y Seindorf yn cystadlu yn Nosbarthiadau 2 a 3. Pob lwc iddynt.

**Cynhelir Cyngerdd Blynyddol y Seindorf Ieuenctid ar nos Fercher, 22ain o Ragfyr, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.**

**Gwasanaethau Eglwys Llandinorwig:**
19 Rhagfyr am 5.30: Gwasanaeth Naw Llith a Charol gan Gyngor Eglwysi Deiniolen a'r Cylch.
24 Rhagfyr am 11.30 p.m.: Gwasanaeth Noswyl y Nadolig.
25 Rhagfyr (Dydd Nadolig): Dim gwasnaeth yn yr Eglwys ond bydd Gwasanaeth Cymun Undebol yng Nghapel Ebeneser am 10 a.m.
26 Rhagfyr am 5: Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Crist Llandinorwig.

**Clwb Elidir:** Cafwyd cyfarod o dan arweiniad Mrs Eirlys Ll. Jones ar y 19eg o Hydref. Cynhaliwyd oedfa o Ddiolchgarwch a chymerwyd rhan gan y chwiorydd canlynol — Mrs Dolly Brown, Miss Jean Moeller, Mrs Buddug Jones, Mrs Megan P. Morris, Mrs Mair Owen, Mrs Eve Braithwaite, Mrs Pat Evans, Mrs Hannah J. Thomas, Mrs Sally Lewis, a Mrs Ellen Williams. Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn a diolchwn i Mrs Beti W. Davies am ei chymorth wrth y piano. Gwesteion y te oedd Mrs Ellen Williams, Mrs Jane C. Hughes a Mrs Glenys Williams. Rhoddwyd y wobr lwcus gan Mrs J. C. Hughes ac fe'i henillwyd gan Mrs Dolly Brown.

Cynhaliwyd cyfarfod arall ar yr 2il o Dachwedd gyda Cwis wedi ei drefnu gan Mrs Jane Jones. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Miss Jean Moeller ac fe'i llongyfarchwyd am ennill dwy wo br gyntaf yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Mrs Elsie Davies a fu yn aelod ffyddlon o'r Clwb am flynyddoedd. Rhoddwyd y te gan Mrs Dolly Brown, Mrs Pat Evans a Mrs Edna Cole. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Doll Brown, gan Mrs Pat Evans.

**Plaid Cymru:** Enillwyr Clwb 100 am fis Medi — £10: Miss Nancy Owen, 4 Rhydfadog; £5: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog. Mis Hydref — £10: Miss Margaret Williams, Ael-y-bryn, Rhiwen; £5: Mr Owen Thomas, Mona House. Mis Tachwedd — £10: Mrs M. C. Jones, Tan y Caerau; £5: Mrs Sheila Thomas, Mona House.

**Ar y Radio:** Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar ddydd Mawrth, Tachwedd 16eg, ar Radio Cymru, gan Wendy Roberts am ei gwaith fel nyrs ddeintyddol gyda Mr Robert Jones ym Mangor. Soniodd am yr holl newidiadau sydd wedi digwydd yn y proffesiwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Y mae Wendy yn wreiddiol o 17 Rhydfadog ond sydd, ers iddi briodi, wedi cartrefu yn y Felinheli.

**Adroddiad gan Lucy a Bethan o Ysgol Gwaun Gynfi:** Cafodd plant yr Ysgol lwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen. Ymwelodd safon 2, 3 a 4 ag Ynni Cymru yn Llanberis a gwelwyd sut mae'r trydan yn cael ei gynhyrchu yno. Cafwyd noson Bingo yn yr Ysgol a chasglwyd dros £200. Ar hyn o bryd mae'r Ysgol yn brysur gyda paratoadau Nadolig. Mae'r Ysgol yn gobeithio gweld pantomeim 'Un Dyn Ar Ôl' ym Methesda ym mis Rhagfyr. Hefyd daw Siôn Corn i'r Ysgol ar ddiwedd y tymor, a bydd Disgo i'r plant hyna.


# OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545




*Ian Williams a Bethan Parry a briodwyn yn ddiweddar yng nghapel Seilo, Caernarfon.*

LLWYDDIANT Y BAND, A DWY MEWN FFWDAN

Llongyfarchiadau i'r Band ar ei llwyddiant
Ac i'r hyfforddwer newydd am ei hyfforddiant
Teilwng oedd y wobr am ei gwaith
Yn dod yn ail allan o saith.

Caniatewch i mi ddweud rhyw hanesyn
Ddigwyddodd draw tua Prestatyn
Pan oedd Band Deiniolen yn cystadlu-
Y mae yn wir ni all neb ei gwadu.-

Gresyn i ddwy o'u cefnogwyr ffyddlon
Fethu cael hyd i neuadd iawn y profion
Yr oedd dwy neuadd gogyfer y gwahanol ddosbariada
Y mae yn gyffredin mewn cystadleuaeth bandia.

Tra bo Band Deiniolen yn cystadlu yn Neuadd Clwyd
Yr oedd y ddwy chwaer yn mwynhau pryd o fwyd
Ond ar ôl y pryd, aeth y ddwy am y Neuadd Ddawns
I wrando ar Band Deiniolen yn mentro'i siawns.

Ond nid yn Neuadd y Ddawns oedd dosbarth Deiniolen
Wedi sylweddoli hynny, i gwadnu hi am Neuadd Clwyd
Ac yno roedd y ddwy mewn mwy o ffwdan
Achos yr oedd Band Deiniolen wedi bod ar y llwyfan.

Clywsoch i am gefnogwyr rhyfeddach erioed yn eich byw
Mynd yn un swydd i Brestatyn i wrando'r Band, a hwnnw o gyrraedd eu clyw
Gofalwch tro nesaf ac anghofiwch y blwmin bwyd
Pwysicach i chwi wybod pa le bydd y Band, Neuadd y Ddawns ynte Neuadd Clwyd.

H.J.

**Dathliad Arbennig:** Bydd dathliad arbennig iawn ar ddydd Nadolig eleni i efeilliaid o'r ardal ar ddathlu eu pen-blwydd yn 80 oed. Dymunwn longyfarch y ddwy efell Mrs Nellie Hughes, 5 Rhes Gwyrfai, Clwt-y-Bont a Mrs Gracie Thomas, Caernarfon, gan ddymuno pen-blwydd hapus iawn iddynt.

**Cynhelir CYFARFOD BLYNYDDOL Y GANOLFAN ar nos Wener, Rhagfyr 10fed, am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.**

**Diolch:** Dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei osod yn glerig mewn gofal ym mhlwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun. Diolch am y paratoadau ar gyfer yr oedfa gosod, am bob cefnogaeth i'r oedfa honno, ac am yr holl weddïau ar ei ran.

**ORIAU NEWYDD MEDDYGON LLANBERIS BOB DYDD GWENER:**
**Llanrug yn y bore o 9.30 — 11.00**
**Deiniolen yn y pnawn o 2.00 — 3.30**
**Croeso i'r Dr Alwyn Parry i'n plith.**

**Er cof am Ifan Williams,** a laddwyd ar 10fed o Ragfyr, hanner can mlynedd yn ôl yn Sangro River, yr Eidal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Oddi wrth y plant Ronnie, Yvonne, Vernon, Viola, Helen, Nigel Wyn ac Eleri Wyn.

Priodas: Ddydd Sadwrn, Hydref 2il, yng nghapel Seilo, Caernarfon, a'r gwasanaeth o dan ofal y Parchg Harri Parri, a'r organydd oedd y Dr W. Gwyn Lewis, priodwyd Bethan, merch Haydn a Nan Parry, Awelfryn, Dwyrain Twtil, â Dr Ian Williams, mab Windsor a Nancy Marian Williams, 10 Rhes Marian, Deiniolen. Y morynion oedd Jacueline, Alison a Nia, chwiorydd i Bethan, a Delyth, Rhian a Ffion, wyresau i Ian. Y gwas priodas oedd Keith Jones, Llanrug, ffrind i'r priodfab. Y tywyswyr oedd Dylan a Shaun, wyrion i Ian. Dathlwyd y mis mêl yn Kenya.

Dymuna Bethan ac Ian ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant. Diolch yn fawr i bawb.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Deiniolen
Llanberis 870484

- ★ Bysus o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

# CYNGHORYDD NEWYDD



Penodwyd R. Hefin Williams, Ffiolau'r Grug, Cae Glas, Rhiwlas yn gynghorydd ar Gyngor Dosbarth Arfon i olynu'r diweddar Mr Sam Jones, Cefn, Llanddeiniolen. Mae Mr Williams hefyd yn gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Os am gysylltu â Mr Williams dyma rif ffôn ei gartref: **(0248) 352890.**

## CERDYN NADOLIG

**Seren yn disgleirio,**
**Doethion yn ei gwylio;**
**Hwythau y bugeiliaid**
**Gyda'u praidd o ddefaid.**


**Cân yr engyl swynol,**
**Anthem y llu nefol;**
**Siriol wên y baban**
**Geir mewn preseb bychan.**

**Clychau tros yr awel,**
**Su y noson dawel,**
**Dyner fref yr oenig,**
**Heddwch bendigedig.**

**Mam a thad yn gwylio,**
**Byd yn disgwyl wrtho;**
**Mintai a'i anrhegion,**
**Llawen sain cyfarchion.**

**Galw mae y clychau —**
**Deuwch, fe awn ninnau,**
**Gwyddom y cawn groeso,**
**Cariad Duw sydd yno.**

JOHN H. HUGHES




**CABS LLANRUG**




**C'fon 675951**

**Prisiau cystadleuol**
**Gwaith contract**
**pell ac agos**

THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY HAMDDEN

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

**Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.**


# Newyddion o Ysgol Brynrefail

**Clwb Cant Ysgol Brynrefail:** Enillwyr mis Tachwedd oedd: Aelwen Jones, Caernarfon; M. ac E. Baylis, Nant Peris; a Nan Owen, Llanberis.

**Yr Ŵyl Gerdd Dant:** Eleni cynhaliwyd yr Ŵyl yn Hendy-gwyn-ar-daf ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 13. Llongyfarchiadau calonnog i ddwy o'r ysgol a wnaeth eu marc yn yr Ŵyl. Dyfarnwyd Lyndsey Vaughan Parry yn gyntaf yn yr unawd cerdd dant dan un ar bymtheg oed a Michelle Roberts yn drydydd yn yr unawd cerdd dant dan ddeuddeg.

**Ymweliad â Theatr Gwynedd:** Ar ddydd Gwener, Tachwedd 5, teithiodd 140 o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 ynghyd â phump o athrawon yr adran Gymraeg i Theatr Gwynedd i wylio cynhyrchiad Cwmni Theatr Gwynedd o 'Awê Bryncoch!' Mwynhaodd pawb y perfformiad gwych gan griw 'C'mon Midffîld'. Dyma adolygiad o'r cynhyrchiad llwyfan gan Eleri Robinson blwyddyn 9S.

Ar ddydd Gwener y pumed o Dachwedd euthum i a chriw blwyddyn 9 a rhai o flwyddyn 8 gyda'r adran Gymraeg i Theatr Gwynedd, Bangor. Roedd y ddrama i fod i ddechrau am 10 o'r gloch ac roeddynt yn brydlon iawn yn dechrau.

Yn y 'Bull', Byncoch 'roedd yr olygfa gyntaf gyda dim ond Ted (Fraser Caines) yn gwarchod y bar, a bwrdd yng nghornel y llwyfan a dau wydriad o gwrw ar y bwrdd wedi hanner eu yfed. Ymddangosodd Jîn (Bethan Gwilym) a Sandra (Gwenno Ellis Hodkins) i chwilio am George (Llion Williams) a Tecs (Bryn Fôn). A lle mae'r ddau lembo yn cuddio; Y tu ôl i'r bar!

Cynllun y stori yn fras yw bod tîm pêl-droed Bryncoch wedi cael eu gwahodd i Gaerdydd i chwarae yng nghwpan yr ysbryd neu'r 'Spirit Cup'. Felly mae'n rhaid iddynt gasglu llawer o arian i dalu am y trip. Ond hefyd ar yr un adeg mae parti cerdd dant 'Blodau Bryncoch' wedi cael cynnig i fynd a chystadlu yng Nghaerdydd ar raglen deledu Eurwyn Ogmor (Fraser Caines). Pwy yw'r cynrychiolwyr, y tîm pêl-droed yntau'r parti cerdd dant? Y tîm pêl-droed sydd yn ennill yn y diwedd ac ar ôl yr holl ddathlu mae Arthur yn llewygu.

Teimlais yn gryf iawn fod y plot a'r sgript wedi cael ei hysgrifennu yn glyfar, anghyffredin, gwreiddiol a phroffesiynol iawn. Breuddwyd o fewn breuddwyd. Roeddwn yn hoffi'r syniad mai ein bws ni yn y gynulleidfa oedd wedi torri i lawr.

Yn fy marn i yn y ddrama hon yr iaith a'r hiwmor sydd yn gwneud iddi fod mor llwyddiannus. Un darn sydd yn sefyll allan yn fy nghof yw pan oedd y 'reff' (Fraser Caines) wedi dysgu Cymraeg ac yn camgymryd geiriau Wali. 'Roedd cyfieithiad y dyfarnwr yn dda iawn, e.e. iaith iâr am 'foul language'! A bod yn onest y darn mwyaf digrif yn fy marn i oedd pan oedd Wali a'i fam yn canu deuawd cerdd dant yn yr ystafell molchi, oherwydd 'roedd yr hiwmor i gyd yno a Lydia Thomas (Catrin Dafydd) yn dal i alw Wali (Mei Jones) yn 'y fo'!

Bedd fuasai 'Awê Bryncoch!' heb yr hen Wali? O ddifri mae Mei Jones yn berson hynod o glyfar ac yn actor naturiol. Mae ganddo'r ddawn i gadw cynulleidfa i chwerthin heb yn oed pan mae'r digwyddiad mwyaf trist yn digwydd. I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gwybod mae Mei Jones yn bêl-droediwr o fri a chredaf mai o'r fan hyn y daeth y syniad o 'C'mon Midffîld' ac 'Awê Bryncoch!'

Dydi Arthur Picton (John Pierce Jones) ddim wedi newid o gwbl, yr un mor hunanol a chegog a dyna beth sydd yn apelio ataf.

Rydwi yn hoffi'r syniad o Wali fel twpsyn; George fel un o'r hogia sydd yn dod o'r dre; Tecs fel y dyn o dan y fawd; ac Arthur fel yr un sengl (ers i Els farw!)

Canwr yw Bryn Fôn yn wreiddiol, newidiodd i fod yn actor pan gafodd gynnig chwarae Mr Morris (y dyn drwg yn 'Jabas') ac rŵan dyma fo yn chwarae Tecs yn 'Awê Bryncoch!' Tecs yw'r callaf ohonynt ac felly y fo sydd wastad yn poeni ac ef yw gôlgeidwad tîm pêl-droed Bryncoch. Yn y ddrama teimlais fod Jean (Bethan Gwilym) wedi cael troedigaeth. Hen gymeriad digon segur a blin yw ac mae Bethan Gwilym yr union ddynes i'r swydd. Hefyd roedd Jîn yn siarad fel melin bupur!

Teimlais braidd yn siomedig mai Gwenno Ellis Hodgkins oedd yn chwarae Sandra Picton ac nid Siân Wheldon. Chwarae teg i Gwenno am drio ond nid hi ydi'r person, sori! Ar y llaw arall roedd hi'n ardderchog yn chwarae y ferch fach o dde Cymru, Dora Jên (cariad yr hen Wali) 'Rydw i yn tybio oherwydd ein bod wedi arfer â Siân Wheldon fel Sandra bod Gwenno wedi chwarae rhan Dora Jên yn well.

Ym Mhontrug, ger Llanrug a Chaernarfon, y mae Llion Williams yn byw. Yn fy marn i dyma un o'r rhannau anoddaf i'w chwarae. 'Roedd yn rhaid iddo ddysgu dynwared iaith Bangor. Teimlais fod George wedi colli ychydig o'r iaith ers 'C'mon Midffîld'

Freaser Caines oedd yn actio llawer o rannau, e.e., Tec, farnwer, Eurwyn Ogmor, arweinydd parti cerdd dant o'r de a'r bownsar yn y clwb lle roedd y 'Dinoethwyr Cymraeg' yn perfformio. Mae Fraser Caines yn actor gwych yn gallu newid o un cymeriad i'r llall ond efallai nad yw'n gallu gwneud i'r gynulleidfa chwerthin cymaint â'r actorion eraill.

Llongyfarchiadau i Graham Laker ac i'r technegwyr am eu gwaith hynod o daclus pan yn newid golygfeydd. 'Doedd yno ddim gwastraff amser o gwbl. 'Roedd y set yn dangos gwahanol olygfeydd a oedd wedi eu cynllunio'n safonol dros ben.

Mae 'Awê Bryncoch!' wedi bod yn brofiad oherwydd oeddwn i ddim yn credu y buasai cystal ar lwyfan, ond chwarae teg 'roedd yn 'grêt'. Buaswn i yn argymell unrhyw berson i fynd i'w gweld. 'Roedd y jôcs yn wych a pherfformiadau addawol a digri iawn. Dwy awr o adloniant pur a gwerth chweil i'w weld.

**Sul yr Urdd:** Ar ddydd Sul, Tachwedd 21ain, cynhaliwyd Sul yr Urdd yng Nghapel Cysegr, Bethel. Diolch i Robin a Deiniol, blwyddyn 7; Meilyr a Dewi, blwyddyn 8; a Caryl a Bethan, blwyddyn 9, am gymryd rhan fel cynrychiolwyr aelodau'r Urdd yn yr ysgol.

# EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Llŷr Siôn, enillydd y Gadair a Delyth Humphreys enillydd Tlws yr Ifanc yn yr Eisteddfod.*

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail — Tachwedd 18fed.**: Cafwyd Eisteddfod Ysgol hynod lwyddiannus eleni eto. 'Roedd yr awyrgylch yn y neuadd yn y prynhawn, ac unwaith eto gyda'r nos yn arbennig. Y beirniaid eleni oedd Nia Royles yn beirniadu gwaith llenyddol, adrodd ac actio, a Rhian Owen, cyn ddisgybl o'r ysgol yn beirniadu'r ochr gerddorol. Ar ddiwedd y dydd roedd y ddwy yn tystio eu bod wedi cael modd i fyw!

Bu'r partïon bechgyn a'r partïon Ffrangeg yn llwyddiant ysgubol, ac Elidir yn fuddugol yn y ddwy gystadleuaeth. Sgets glyfar Gwyrfai yn dynwared rhai o'r athrawon aeth â hi, ac roeddynt yn gydradd gyntaf â dynion(!) Elidir ar y gân ysgafn. Yn y cystadlaethau mwy difrifol cipiodd Eilian y wobr gyntaf am y grŵp llefaru gorau ac Elidir yn fuddugol â'u parti cerdd dant ac â'r côr.

Eleni am y tro cyntaf, yn ogystal â chadair ar gyfer y gwaith llenyddol gorau ym mlwyddyn 10, 11, 12 a 13, rhoddwyd tlws yr ifanc ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9. Cynhaliwyd seremoni gadeirio urddasol gan y chweched dosbarth a'r Archdderwydd Siôn Wyn Hughes. Canmolodd y beirniad, Nia Royles, safon uchel y ddwy gystadleuaeth a soniodd am y mwynhad a gafodd o ddarllen yr holl gynnyrch. Dyfarnwyd Llŷr Siôn, bl. 11 yn deilwn o'r gadair, a Delyth Humphreys, 9E, yn teilyngu tlws yr ifanc. Yn ail am y gadair oedd Catrin Thomas, 6(2) ac yn gydradd drydydd Nia Griffith, 6(2), a Dylan Lloyd 6(1). Yn ail am dlws yr ifanc oedd Anest Williams, 8I, a Llinos Mair Williams, 8O, a Steffan Rhys Evans yn gydradd drydydd.

Un o uchafbwyntiau'r Eisteddfod oedd y gystadleuaeth siarad cyhoeddus ar gyfer y disgyblion hŷn. Ymatebodd y gynulleidfa yn frwd i sylwadau siofinistaidd Siôn Wyn ac i farn Catrin Thomas ar rai o raglenni S4C! Perl o gystadleuaeth, a'r ddau'n cael eu dyfarnu'n gydradd gyntaf.

Erbyn diwedd y noson 'roedd y neuadd yn ferw gwyllt a'r awyrgylch yn wefreiddiol. Sylweddolwyd mai dim ond ychydig farciau oedd yn gwahanu'r pedwar tŷ a bod popeth felly yn dibynnu ar y cystadlaethau olaf. Er i bob tŷ toi o'i orau Gwyrfai a orfu yn y pendraw eleni eto, Eilian yn ail ac Eryri ac Elidir yn drydydd a phedwerydd. Cyflwynwyd tarianau arbennig i'r rhai a enillodd y marciau uchaf i'w tŷ, sef Eleri Robinson i Eryri ym mlwyddyn 7, 8 a 9 a Lyndsey Vaughan Parry i Gwyrfai ym mlwyddyn 10, 11, a 12. Dyfarnwyd mai Llinos Angharad Morris, Eilian, oedd i dderbyn y tlws er cof am Emma Bernard am yr adroddiad gorau yn yr Eisteddfod. Ar ddiwedd y noson cyflwynwyd tarian yr Eisteddfod i gapteiniaid gweithgar Gwyrfai, sef Nia Griffith, Non Llywelyn a Gwion ap Llwyd.

Unwaith eto profodd yr Eisteddfod i ni bod gan Ysgol Brynrefail ddisgyblion brwdfrydig a gweithgar tu hwnt. Dylid talu teyrnged arbennig i aelodau o'r chweched dosbarth a daflodd eu hunain i ysbryd yr ŵyl ac a weithiodd yn ddiflino i hyfforddi disgyblion iau yr ysgol. Ymddangosodd yn agos i dri chant o ddisgyblion yr ysgol ar y llwyfan yn ystod y dydd, dros hanner poblogaeth yr ysgol, ffigwr sy'n profi llwyddiant a phoblogrwydd yr Eisteddfod hon.



*Seremoni'r Cadeirio.*

*Stori fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, Llanrug, 1993*

## RHYDDID

gan LLŶR SIÔN ROBERTS

Llifodd y lliwiau oddi ar ei frwsh gan lygru'r dŵr oedd yn yr hen bot jam; plethodd y coch a'r melyn a'r glas trwy ei gilydd, ond er i'r glas a'r melyn frwydro'n galed am eu heinioes, y coch a orfu, ac mewn ychydig eiliadau 'roedd y frwydr drosodd. Syllodd yr artist yn fud ar hyn, heb fedru gwneud dim, a llithrodd ei feddwl yn araf i ddyddiau ei blentyndod.

Yn fachgen ifanc fe syllodd Hugho trwy ffenestr ei lofft ar y wlad hardd o gwmpas ei gartref; hydref ydoedd, a dail y coed yn glytwaith ar lawr. Gallai weld yn y pellter fynyddoedd, a'u copaon wedi'i peintio'n wyn. Cofiodd am ei ffantasi ffôl pan yn ifancach mai gwlad y tylwyth teg oedd yno; a chofiodd y siom a gafodd pan ddywedwyd wrtho mai eira oedd yno mewn gwirionedd. O, mor braf fyddai dianc i wlad o'r fath y diwrnod hwnnw.

Canys, mewn ychydig oriau byddai'n rhaid iddo adael ei famwlad Latfia, a dianc gyda'i deulu i diroedd diarth yr Almaen. Gan fod ei dad yn genedlaetholwr, ac wedi cael addysg, byddai'r Comiwnyddion yn siŵr o'i ladd; a gyda rhuo eu tanciau i'w clywed yn y pellter, a mwg du o'r tanau wrth i'r pentrefi cyfagos gael eu llosgi i'r llawr, 'roedd y bygythiad yn dod yn fwy real bob dydd.

Llithrodd ei chwaer fach Margo i mewn i'w ystafell. 'Roedd hi'n wyth oed, tair blynedd yn iau nag ef. 'Roedd ganddi wallt tonnog, melyn, tlws, a llygaid glas perliog; ond heddiw 'roeddynt yn ddi-fywyd, ac ôl crïo ar ei hwyneb. Tosturiodd Hugho wrthi, a chymerodd hi yn ei freichiau a'i hanwesu; ffrydiodd y dagrau o lygaid y ddau; pam 'roedd rhaid mynd?

Y diwrnod cynt bu raid iddynt ffarwelio â'u nain oedd yn byw mewn pentref bychan rhyw ugain milltir oddi wrthynt. 'Roedd hi'n rhy hen i fynd ar daith mor hir er i Margo grefu arni i ddod. Anodd oedd dychmygu na fyddent yn ei gweld fyth eto heblaw mewn rhyw ffotograff, ond dyna oedd realiti'r sefyllfa; os caent fyth ddychwelyd i Latfia ni fyddai eu nain yno i'w disgwyl.

Fe dreuliodd y ddau nifer o hafau yno ar y fferm gyda hi, yn casglu cnwd o'r caeau, ac yn cerdded y llwybrau mynydd gyda'i gilydd. 'Roedd gan eu nain ddawn dweud stori a Margo oedd cannwyll ei llygaid.

'Cofia di fod yn eneth dda 'nawr Margo.'

'Mi wna i Nain.'

'Hwyl fawr, machgen i.'

'Hwyl fawr Nain.'

Dyma'r tri gair anodda' a ddywedodd erioed; bu'n rhy ddewr i grïo ar y pryd, ond 'nawr ni allai ddal y dagrau 'nôl. Oedd hi yn werth gadael eu ffrindiau, eu teulu a'u cartref am ryw dipyn o 'ryddid'?

Daeth llais eu tad o'r gegin —

'Ydych chi'n barod blant?'

Gwahanodd Hugho a Margo, ac aethant ati i gario eu hychydig eiddo i lawr y grisiau. Yn y gegin 'roedd eu mam yn wylo, a'u tad yn ceisio ei chysuro.

'Ydym, rydym yn barod dad,' dyweddodd Hugho, a cheisiodd y tad ei orau i wenu arno.

Yna'n sydyn daeth sŵn ffrwydriad i dorri ar y tawelwch, a daeth panig i wyneb y tad. Casglodd y paciau at ei gilydd ar frys a'u cario at y cart a'r ceffyl y tu allan. 'Roedd y Rwsiaid wedi cyrraedd yn gynt na'r disgwyl — rhaid oedd mynd ar frys!

'Roedd yr holl bentref wedi sylweddoli'r perygl, ac wedi brysio allan i'r stryd. Sgrechiai'r gwragedd a'r plant, ond 'roedd y gwŷr yn fud. Rhuthrodd y tanciau a'r milwyr i mewn gan saethu at bawb a phopeth. Saethwyd Margo.

Gwelodd yr artist hyn oll yn ei bot dŵr; Margo a'i gwallt tonnog melyn a'i llygaid glas, y gwaed coch, y Comiwnyddion coch . . . Er bod deugain mlynedd wedi mynd heibio 'roedd marwolaeth ei chwaer yr un mor fyw ag erioed ym meddwl Hugho. Ar y ganfas 'roedd darlun prydferth; y dail crin ar lawr, copaon y mynyddoedd yn wyn, a llun geneth ifanc yn chwarae'n hapus. Gafaelodd Hugho yn y pot jam a thaflu ei gynnwys coch ar y ganfas; y cwbwl 'roeddynt eisiau oedd ychydig o ryddid, ond 'roedd hyn yn ormod i'w ofyn.

*Cyhoeddir stori Delyth Humphreys, enillydd Tlws yr Ifanc ar dudalen 10.*

## GLEN'S FOOTWEAR

Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**



CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS

Am Wasanaeth Fframio
Lluniau Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol

**ELWYN PRITCHARD**

**Parc Padarn, Llanberis**
Ar agor Llun – Gwener
10.00 – 4.00
I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch
**Llanberis 870922**
neu **Bangor 351427**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



## E.W.Pritchard
## CENTRAL GARAGE
## Llanberis

**Ffôn: 870202 a 870272**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

## Y Bistro

43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278

*Rhwng Ynys Môn a Pharis*
*Does unlle gwell i'w dewis*
*Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,*
*Na'r Bistro yn Llanberis*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Danny a Nerys Roberts** a'r staff



Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES

PET TRADE & INDUSTRY ASSOCIATION PTIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Kerry, Jill a Peter

## GARTH MAELOG
PET CENTRE
& GROOMING SALON
51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840





BRYSIWCH I GAEL EICH TEGANAU, SIOCLED, CARDIAU NADOLIG AC ANRHEGION CAIN YN SIOP GWYNETH AC EIFION

## ROBERTS

CACENNAU NADOLIG A BARA BRITH TRADDODIADOL

Gwesty
## Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDI WRTH

## BECWS ERYRI

STRYD FAWR
LLANBERIS 870491

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

**Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/11/93** – £35: Mrs Hellfeld, 6 Rhes Fictoria (76); £25: Mr D. Roberts, Y Bistro (14); £15: Mrs J. Roberts 'Rallt Isaf (72); £10: Les, Gwesty Fictoria (178); £5: Mrs A. Hughes 2 Pen-y-bont (185).

**Lleisiau Lliwedd a Hogia'r Wyddfa:** Ar brynhawn Sul, Tachwedd 21ain, mwynhawyd awr ddiddan yng nghwmni Lleisiau Lliwedd a Hogia'r Wyddfa. Cymerwyd y rhan gyntaf o'r cyngerdd gan Lleisiau Lliwedd, o dan arweiniad Mrs Mattie Hughes gyda Gareth Jones yn cyfeilio. Cafwyd rhaglen Nadoligaidd ei naws gan y merched. Cafwyd perfformiad caboledig ganddynt ac yr oedd ansawdd eu rhaglen yn rhagorol.

Yna, yn yr ail rhan cymerwyd y llwyfan gan yr Hogia. Hwythau hefyd yn cyflwyno'r hen ffefrynnau yn swynol dros ben i gyfeiliant meistrolgar Mrs Annette Bryn Parri.

Mwynhaodd y gynulleidfa a ddath i'r Oriel y ddau befformiad yn fawr iawn a diolchir i'r Dr Dafydd Roberts, Curadur Oriel Eryri, am gyflwyno'r eitemau ac am drefnu prynhawn mor fendithiol.

**Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Iau, Tachwedd 4ydd, gyda Mrs Ann Parry-Jones yn llywyddu. Mrs Iola Evans, Stryd Fawr, Llanberis, oedd y wraig wadd a rhoddodd arddangosfa sut i addurno teisennau Nadolig. Trwy garedigrwydd Iola fe roddwyd un o'r teisennau yn wobr raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Ann Parry Jones. 'Roedd yr elw tuag at Apêl Tŵr yr Eglwys. Rhoddwyd y baned arferol gan Mrs Nancy E. Jones a Mrs Olwena Morris. Diolchwyd iddynt ac i Iola Evans gan Mrs Jean Roberts.

**Diolch:** Dymuna Mrs H. M. Edwards, Victoria House, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Prifardd Selwyn Griffith yng nghyfarfod cyntaf y tymor. Cawsom hanes ei ymdrechion i gipio'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol ynghyd â chefndir y gerdd fuddugol yn Llanrwst. Cafodd pawb gyfle i weld a gafael yn y Goron. Daeth Mrs Griffith gydag ef i ddarllen darnau o'i waith. Noddwyd y noson gan 'Gynllun Awdur ar Daith' Cymdeithas Gelfyddydau'r Gogledd. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn festri Capel Coch, am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 21. Bydd Mrs Maureen Lennon yn rhoi sgwrs ar rai o arferion y Nadolig, a chawn gyfle hefyd i ganu ambell garol.

**Y Cyngor Eglwysig:** Bydd gwasanaeth yn cael ei gynnal dan nawdd Cyngor Eglwysi Llanberis yn Nant Padarn, am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 14. Bydd aelodau eglwysi'r pentref yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn.

**Capel Coch:** Yn ystod yr oedfa fore Sul, Tachwedd 14, bedyddiwyd Tomos Wyn, mab Gareth a Dilys Williams, Ffordd Tŷ Du gan y gweinidog, y Parchg John Pritchard. Mae plant yr Ysgol Sul wedi dechrau paratoi ar gyfer eu gwasanaeth Nadolig erbyn hyn. Mae nifer y plant sy'n dod i'r Ysgol Sul yn dal i gynyddu, ac yr oedd hynny yn peri problem braf erbyn amser y Diolchgarwch, gan nad oedd digon o athrawon ar eu cyfer. Mae'n galondid mawr bod pump o famau'r plant wedi ymateb i'r apêl a wnaed am gymorth. Diolch iddynt am fod mor barod i weithio dros yr Ysgol Sul. Mwynhaodd dosbarth chwiorydd Capel Coch a Rehoboth sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Ken Jones, Blan-y-ddôl, yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd. Roedd y lluniau o Gapel Hebron a Chwm Brwynog yn hynod o ddiddorol, a chawsom lawer o wybodaeth i'n hatgoffa am y gymuned arbennig a arferai fod yn y Cwm.

**Yr Urdd:** Ar y noson gofrestru ar Dachwedd 3 dangoswyd fideos yn cyflwyno gweithgareddau'r Urdd. Ar Dachwedd 10 bu'r plant iau yn gwneud bathodyn triban yr Urdd. Ar Dachwedd 17 cafodd y plant hŷn noson o gemau. Ar Dachwedd 24 trefnwyd noson o ganu ar gyfer y plant iau.

Llongyfarchiadau i'r plant a gynrychiolodd y Gangen yn Gala Nofio'r Sir. Enillodd Gareth Jones y ras gymysg unigol a'r ras broga, a dymunwn yn dda iddo pan fydd yn cynrychioli Eryri yn y ddwy ras yn y Gala Nofio Genedlaethol a gynhelir ym Mangor ar Ragfyr 4.

**Apêl atgyweirio tŵr yr Eglwys:** Bu'r merched yn ddiwyd iawn yn gwneud marmalêd, taffi triog, nionod picl a chutney i'w gwerthu er budd yr Apêl. Y mis Rhagfyr gobeithir mynd o amgylch y pentref i ganu carolau. Ym mis Ionawr fe gynhelir Noson Lawen yng Ngwesty Dolbadarn. Ym mis Chwefror fe gynhelir Cyngerdd gan Gôr Meibion Bangor yn Eglwys St Padarn. Ym mis Mawrth gobeithir gael taith gerdded.

**3ydd, 2il a 1af:** Er bod Alun Vaughan wedi codi am chwarter wedi pump fore Sul, Tachwedd 7fed, er mwyn teithio yr holl ffordd i Fryste i gystadlu mewn ras yno, llwyddodd i ddod yn drydydd ac ennill y bathodyn efydd. Ddydd Sadwrn, Tachwedd 13eg, aeth i'r Drenewydd i redeg yn Ras Traws Gwlad y TSB. Gorffennodd yn ail ac ennill y bathodyn arian. Y diwrnod wedyn daeth yn gyntaf mewn ras ar Lannau Dyfrdwy.'

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Eifion a Bethan, 8 Stryd Bethesda, ar enedigaeth eu geneth fach.

**Priodas Aur:** Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Bob Williams, 5 Rhes y Faenol, ar ddathlu eu Priodas Aur, ar Dachwedd 27ain. Priodwyd hwy yn Eglwys Sant Padarn gyda'r diweddar Barchedig J. H. Williams a'r Parchg Bailey Hughes yn gweinyddu. Pob bendith i'r dyfodol oddi wrth y teulu i gyd.

**Genedigaeth:** Ar Dachwedd 11eg ganed Siân, merch fach i Mary ac Ian Jones, 4 Ffordd Padarn; chwaer i Gwyn. Dymuna Ian a Mary ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion.

**Coffad:** Bu farw Mr Thomas Leonard Davies yn ei gartref, 12 Dôl Eilian, ar Hydref 14 yn 70 mlwydd oed. Un o Roslannerchrugog oedd, ond bu'n byw yn Llanberis am dros ddeugain mlynedd. Bu'n berchen ar y Siop Wlân Gymreig, gan arloesi wrth sicrhau bod dros 90% o'r nwyddau a werthai wedi eu gwneud yng Nghymru. Bu'n gadeirydd Cymdeithas Nofio Gogledd Cymru a Chlwb Pêl-droed Llanberis, ac yn Llywydd Cymdeithas Bêl-droed y Gogledd. Bu'n chwaraewr pêl-droed o fri yn yr ysgol ac yn baffiwr amatur, ond cerddoriaeth oedd ei brif ddiddordeb. Cofiai wrando ar y Dr Caradog Roberts yn chwarae'r organ yng nghapel Bethlem, y Rhos, a soniai am y datganiad blynyddol o'r 'Meseia' yng Nghapel Mawr y Rhos. Bu'n aelod o Gôr Meibion y Rhos a Chôr yr Eisteddfod Genedlaethol yno. Yn ddiweddarach bu'n aelod o Gôr Eisteddfod Caernarfon. Yr oedd yn arbennig o hoff o opera, a theithiai'n gyson i Lerpwl i weld yr enwogion. Daeth yn gefnogwr brwd o Gôr Meibion Dyffryn Peris, a chanodd y Côr yn ei angladd yn Eglwys St Padarn ar Hydref 19.

Dymuna Mary, Gareth a Geraint, a'r teulu, ddiolch i'r cymdogion, cyfeillion a phawb yn yr ardal, am eu cydymdeimlad yn eu profedigaeth.

**Diolchiadau:**

Dymuna Eiddwen Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y negeseuon calonogol, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno ac yn Lerpwl.

Hoffai Mr a Mrs J. Thomas, 61 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar y ddau achlysur arbennig, sef eu Priodas Ddeiamwnd a phen-blwydd Mr Thomas yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn i'r gymdeithas.

Dymuna Mrs Eunice Williams a'r teulu oll ddatgan eu diolch a'u gwerthfawrogiad i bobl Llanberis a'r cylch am eu holl garedigrwydd a'u geiriau caredig ac am y cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar yr achlysur tris o golli gŵr, tad a thaid annwyl, William Thomas Roberts (Wil Lôn Bost).

Dymuna Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, ddiolch am y dymuniadau da a'r caredigrwydd a dderbyniodd pan fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch i'w berthnasau a'i gyfeillion am y cardiau, ymweliadau, dymuniadau da a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i'r gweinidogion am eu hymweliadau, ac i feddygon a gweinyddesau Ward Glyder Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mr Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, ddiolch am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd ato yn ystod ac wedi ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Clwb Eryri:** Yng nghyfarfod cyntaf y tymor ar Dachwedd 5, cafwyd anerchiad graenus gan y llywydd, Mr Eurwyn Jones, Llanberis, ar effeithiau diweithdra ar y gymdeithas gyfoes. Llywyddwyd y cyfarfod gan Is-lywydd y Clwb, Mr Evan Parry, Ceunant, a diolchwyd i'r siaradwr gan Dr Dan Hughes, Llanrug. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Rhagfyr 3, am 7.30 p.m. yng Ngwesty'r Erw Fair, gyda Mr Meurig Evans, Caernarfon, yn traddodi a Mr Arwel Jones, Penisarwaun, yn llywyddu. Taer erfynnir am gefnogaeth deilwng eto ar y noson honno.




Gwynedd Hotel
& Restaurant
LLANBERIS
Ffôn 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Lin**, **John** a phawb o'r staff



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH BAWB YN

## AMGUEDDFA'R GOGLEDD AC AMGUEDDFA LECHI CYMRU

**LLANBERIS 870636 A 870630**

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH.
DEWCH I WELD
CYFLWYNIAD YNNI CYMRU

---

**Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd**

## FORMAG

**Stryd Fawr**
**Llanberis 872501**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
**Ifor a Margaret**
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn


---

**CYFARCHION Y TYMOR**

**i bawb yn yr ardal**

oddi wrth

## TRÊN BACH LLYN LLANBERIS



---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**RAYMOND A'R STAFF**

## SWYDDFA'R POST LLANBERIS

**Ffôn: 870 201**

Cardiau Nadolig a Phenblwydd
Teganau
Gwasanaeth Ffotogopio

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y**

## PRINCE OF WALES

**LLANBERIS 870708**

Cwrw Blasus
Croso Cartrefol

Adloniant:-
**Nos Wener**
Adloniant Byw
**Nos Sadwrn**
Canu Cymraeg efo'r Organ

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Michal a Brigid Moran a'r plant**

## Sea Fresh Chip Shop

**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**870425**

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

---

## SEREN


**47 STRYD FAWR**
**LLANBERIS 871060**

Ffrwythau a Llysiau Ffres
Bwydydd Iach a Blodau at bob achlysur
Arbenigwyr mewn blodau priodas

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

**Perchennog: Bobbie de Lanerolle**

---



★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel

## Royal Victoria Hotel

*wrth droed yr Wyddfa*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y gwesty.**
**Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.**

# DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Clwb Hwyl Hwyr:** Os bydd yr ymateb yn gadarnhaol, oddi wrth y rhieni a'r plant, yna gobeithir sefydlu Clwb Hwyl Hwyr yma yn y pentref. Fel mae enw'r Clwb yn ei awgrymu cyfle fydd hwn i ddwyn plant at ei gilydd y tu allan i oriau'r ysgol i fwynhau eu hunain (fel y 'Band of Hope' gynt), drwy ymuno mewn pob math o weithgareddau diddorol. Y bwriad yw cynnal y Clwb am un noson yr wythnos a hynny yn y Ganolfan. Mawr hyderir y bydd y syniad yn cael sêl bendith y rhieni ac yn arbennig y plant fel y gwelwn Glwb o'r fath yn cael ei sefydlu yn y dyfodol agos.

**Cludiant Cyhoeddus:** Mae'n ddal gallu adrodd bod y gwasanaeth bysys o'r pentref i Gaernarfon wedi ei adfer ac mae'r diolch am hynny yn ddyledus i'r Cyngor Sir. Yn sicr mae'r datblygiad yma i'w groesawu gan bod y misoedd diwethaf heb wasanaeth o'r fath wedi gwneud pethau yn anodd i sawl un.

**Cyngor Cymuned:** Unwaith yn rhagor mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi tynnu sylw y Cyngor Sir at sefyllfa pen Gallt y Foel. Mewn gohebiaeth ddiweddar dywed adran priffyrdd y Cyngor Sir eu bod yn edrych ar y broblem llifogydd a'r gobaith yw y bydd y gwaith yn cael ei wneud pan fydd cyllid digonol ar gael. Mae'r gŵyn ynglŷn â'r tro yn cael sylw gan yr adran gweinyddiaeth dechnegol yng Nghaernarfon. Wrth gwrs er cydnabod bod y Cyngor Sir yn wynebu toriadau ariannol enbyd ar hyn o bryd mae'n deg dweud bod y ddau fater yma wedi bod ar eu hagenda ers sawl blwyddyn a fawr o ddim wedi digwydd. Oes rhaid i ni ddisgwyl hyd nes bydd damwain yn digwydd cyn y gwelwn weithredu ar y materion hyn?

**Sedd:** Mae ambell un wedi sôn mor addas fyddai cael sedd wedi ei lleoli ar y ffordd trwy'r Fach-wen. Bydai y Cynghorydd Glyn Tomos yn falch o gael gwybod ble yn union y dymunir gosod sedd o'r fath. Oes yna unrhyw syniadau?

**Llongyfarchiadau:**

— i Sara Wood, Fron Heulog, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar;

— i Llywela a James, 5 Maes Eilian, ar enedigaeth merch fach, Manon, chwaer i Ioan;

— i Hannah M. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar gyrraedd carreg filltir bwysig yn ei hanes ychydig wythnosau'n ôl.

**Diolchiadau:**

Dymuna John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl iddo ddod gartref. Llawer o ddiolch i staff Ward Glyder ac Aran yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Dymuna Mrs Mary Thomas, St. Teilo, Bethel, a Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, sef Mrs Elsi Davies, gynt o Gwyrfai Terrace, Clwt-y-bont. Diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r llythyrau, sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol, a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Andrew Griffith, Tanybwlch, gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ym marwolaeth ei frawd, Emlyn. Diolch yn fawr.

**Llongyfarchiadau** i bawb am gystadlu ac ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gwaun Gynfi yn ddiweddar.

**Y Gymdeithas Lenyddol Undebol:** Eisoes mae sawl noson ddifyr dros ben wedi ei threfnu gan y Gymdeithas. Cafwyd noson agoriadol arbennig o dda ar nos Iau, Hydref 21, yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris. Cawsom nosweithiau ddiddorol iawn yng nghwmni Emrys a Jane, Groeslon Uchaf ar nos Iau, 28 Hydref; a'r Parchedig Iorwerth Jones Owen, Caernarfon, ar y 18 Tachwedd. Yn ystod mis Rhagfyr fe roddir croeso i Rol Williams, Waunfawr, fydd yn 'Galifantio' ar yr ail o Ragfyr. Bydd Gwasanaeth Carolau ar y 16eg o Ragfyr.

**Eglwys St. Mair:** Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn fe fydd y Parchedig Tegid Roberts wedi ei sefydlu fel Offeiriad mewn Gofal i'r plwyf. Dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol ac edrychwn ymlaen i gydweithio ag ef. Mae ein diolchiadau yn ddyledus i Mr Llew Jones am ei waith yn atgyweirio ffenestri'r Eglwys yn ddiweddar — byddai wedi bod yn ddrwg arnom heb ei gymorth. Yr un yw'n diolch i Mr Robin Evans am ei gymorth arferol yn torri'r gwair ac yn gofalu bod y gwres ymlaen o Sul i Sul; ac fe ddymunwn adferian llwyr a buan i'w fam sydd heb fod yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Rhoddir blodau'r allor gan Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir ar y Suliau 5ed a 12fed o Ragfyr; ac yna teulu Creigle gynt ar y 19ef a'r 26ain o Ragfyr. Diolch ymlaen llaw iddynt.

**ORIAU NEWYDD MEDDYGON LLANBERIS BOB DYDD GWENER:**
**Llanrug yn y bore o 9.30 — 11.00**
**Deiniolen yn y pnawn o 2.00 — 3.30**
**Croeso i'r Dr Alwyn Parry i'n plith.**


**BRYSIWCH!**

Archebwch eich TWRCI NADOLIG a'ch CYW IÂR a CHIGOEDD ERAILL RŴAN



oddi wrth

**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 673574**


PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI


# CEUNANT

**Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)**

**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlwn â theulu Pritchard, Glasfryn, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw Mrs Dorothy Ellen Pritchard ar y 10fed o Dachwedd yn Ysbyty Gwynedd yn 83 mlwydd oedd. 'Roedd wedi symud o'r Glasfryn i Blas Maesincla, Caernarfon dros flwyddyn yn ôl, gyda'i gŵr, oherwydd ei hiechyd. 'Roedd Mrs Pritchard yn enedigol o Ddyffryn Nantlle ond wedi byw y rhan fwyaf o'i bywyd priodasol yng Ngheunant.




*Llongyfarchiadau i Ifan Lloyd Evans, postmon siriol Llanrug a'r cylch, am ennill pencampwriaeth NABBA (Amateur British Bodybuilding Association) ym Mhenybont-ar-Ogwr. Curodd Ifan ymgeiswyr y De yn ogystal â chystadleuwyr o Fryste gan ddod â'r wobr i'r Gogledd. Mae'n briod â Sandra o Ddeiniolen, ac mae'r ddau yn byw yn y Groeslon. Gyda hyn maent yn disgwyl bod yn dri.*



*Plant Ysgol Gynradd Bethel yn cyflwyno rhodd i Gartref Sant Teilo. Gweler y stori lawn yn newyddion Bethel.*

# Cyfarchion Nadolig Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**MERIL A PHAWB YN SIOP**

**SPAR**

**LLANBERIS**

Dewch atom am eich holl anghenion bwyd a diod Nadolig



**GWÊL Y LLYN**

**Lake View Hotel**

**LLANBERIS**

**870422**

**PRYDAU ARBENNIG AR GYFER PARTI**

Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer eich dathliadau Nadolig

**Rhaid archebu lle ar gyfer Dydd Nadolig a Nos Calan**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dymuna pawb yn siop

**VALERIE J. JONES**


**Ffrwythau a Llysiau**

**GLAN Y DON**

**STRYD FAWR**

**LLANBERIS 870301**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**



**Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn**

**CELF Y COPÄON**

**MOUNTAIN ART**

**Stryd Fawr**

**LLANBERIS 870925**

Am luniau mynyddoedd
*Peintiadau *Printiadau
*Posteri *Ffotograffau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

**FFARM FÊL YR WYDDFA**

**STRYD FAWR, LLANBERIS**

**Ffôn: 870218**

★ Dewch draw am luniaeth ac anrhegion Nadolig
★ Hufen Ia Mêl
★ Da Da Mêl
★ Ystafell De ar agor
11am – 4pm penwythnos
12pm – 3pm yn yr wythnos
★ Glasied o Fedd Fferm yr Wyddfa am ddim efo pryd o fwyd
★ Ystafell Fideo
★ Yn arbennig i'r plant dros gyfnod y Nadolig – Fideo *Winnie the Pooh* – mêl yn y siop – a mêl ar y sgrin!

**NADOLIG A BLWYDDYN** Mêl **LLAWEN NEWYDD DDA**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Peter ac Irene Hagerty**

**TOUCHWOOD**

**Y Glyn, Llanberis**

**Ffôn 871224**

**ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN, DIDDOROL, DELFRYDOL!**

Galwch yn ein siop i weld drosoch eich hun.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Sue Lowe

**odyn copr**

**66 Stryd Fawr**

**Llanberis**

**Ffôn: 871366**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB**

**ODDI WRTH**

# KMP LLANBERIS

**DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN**

Dim bysus Sadwrn/Sul 25, 26, Rhagfyr na Dydd Sadwrn 1 Ionawr

Gwasanaeth Sul ar 27 a 28 Rhagfyr a 2 Ionawr

# YN FY MARN I . . .

## IFOR GLYN EFANS

### Y BUSNES EITHRIO YMA!

**'Beth yw'ch barn am CYG?' meddai rhiant wrthyf yn ardal Llanrwst y llynedd. 'Beth yw CYG?' meddech chwithau yn union fel y bu i minnau ofyn ar y pryd. Wel ystyr yr acronym yma yw Cynnal Ysgolion â Grant. Fel gyda llawer o dalfyriadau o'r fath, yr un Saesneg a glywir ar lafar gwlad yn aml, sef GMS a gadawaf i chwi weithio allan ystyr y llythrennau hynny.**

Ar ddechrau hydref mentrais i ffau'r llewod, fel petae, i Ganolfan Aberconwy i gynhadledd a drefnwyd gan y Swyddfa Gymreig er mwyn, yn ôl pob tebyg, egluro peth o gyfrinion y syniad o eithrio ysgol allan o ofal Awdurdod lleol megis Gwynedd. Y profiad amhleserus cyntaf oedd cerdded trwy math o linell biced o'm cydnabod. 'Rwy'n siŵr mai dyma'r tro cyntaf erioed imi fynd drwy linell o'r fath. Ond, fodd bynnag, dadleuais fy ffordd i mewn gan nodi fod yr arian i redeg ysgol yn prinhau'n flynyddol ac nad oedd ond yn deg i rywun glywed am bob syniad sy'n berthnasol.

Mae sefyllfa ysgolion uwchradd ardal bresennol Aberconwy yn un anodd os y symudir ymlaen gyda'r cynlluniau presennol o ad-drefnu Llywodrath Leol. Argymhellir fod cynghorau presennol Colwyn ac Aberconwy yn ymunio i greu un cyngor newydd a fyddai gyda saith ysgol uwchradd o fewn ei ffiniau. O'r cyfanswm yma, mae Ysgol Emrys ap Iwan eisoes wedi eithrio, mae dwy ysgol uwchradd Bae Colwyn yn gwneud symudiadau pendant i'r un cyfeiriad sydd yn gadael ysgolion Aberconwy mewn cryn dipyn o bicil. Diddorol oedd sylwi serch fod gwahoddiad wedi cael ei anfon i holl ysgolion y gogledd (cynradd ac uwchradd) mai pum ysgol uwchradd o Wynedd a gynrychiolwyd — pedair ohonynt yn rhai rhanbarth Aberconwy sy'n dangos eto fod ysgolion y cylch neilltuol hwnnw'n teimlo'r pwysau, fel petae.

Dechreuwyd y gynhadledd gydag anerchiad gan Syr Wyn Roberts, y Gweinidog Gwladol dros Gymru, sydd â gofal penodol am addysg. Ar ôl brawddeg neu ddwy neu dair yng Nghymraeg ar ddechrau ei araith dyna droi i'r Saesneg ac ni chlywais air arall o Gymraeg o'r llwyfan am weddill y dydd. A oedd yno offer cyfieithu? 'Sgersli bilif', chwedl Ifas y Tryc. Dyna'r neges gudd gyntaf — o eithrio bois bach peidiwch a disgwyl gweinyddiaeth swyddogol trwy gyfrwng y Gymraeg. Prinder personél yn y Swyddfa Gymreig hwyrach neu brinder awydd. 'Gwaith i Dafydd El,' meddwn wrthyf fy hun yn dawel.

Bu i'r Syr barablu'n alluog tros ben yn ei ffordd arferol gan weld bai ar y bobl hynny a oedd yn gwrthwynebu'r syniad. Mae'n debyg mai'r cyfan y mae'r Llywodraeth yn geisio'i wneud yw rhoi dewis ychwanegol i rieni, creu haen arall o Addysg, creu sefyllfa'r farchnad a chystadleuaeth mewn sefydliadau, creu awyrgylch o gefnogi'r cryf ac anwybyddu'r gwan. Yn od, ac yn anarferol iawn debygwn i, ni fu i unrhyw gynrychiolydd daro'i ddwylaw ar ddiwedd yr anerchiad a gellid clywed pin yn disgyn wrth i'r Gweinidog ymlwybro'n ôl i'w sedd ar ôl gadael ei 'bulpud'. Tybed mai hon oedd yr ail guddneges? Cyfleai'r distawrwydd yr argraf nad oedd cynnwys yr araith yn dderbyniol gan y llawr.

Ymlaen wedyn i un o bedwar gweithdy. Elfen arall o ddewis. Trafodwyd y canlynol: (i) gwneud cais am Statws Cynnal â Grant; (ii) agweddau ariannol o Statws C. â G.; (iii) agweddau staffio o 'eithrio'; a (iv) gwasanaethau cynhaliol i Ysgolion Eithredig a Rôl Canolfan yr Ysgolion a Gynhelir â Grant. Fy newis i oedd mynychu'r ail a'r trydydd gweithdy, cyn ac ar ôl y cinio. Cinio, gyda llaw, a roddwyd am ddim i'r cynadleddwyr gyda glasiad o win neu ddiod ysgafn, eto am ddim i bob cynrychiolydd, ar fyrddau a oedd gyda chadachau bychain glas neu goch i bob person. Dyna'r drydedd neges gudd efallai! Beth y mae'r lliwiau coch a glas ar lieiniau bwrdd claerwyn yn ei gyfleu i chwi? Prydeindod yw'r ateb gennyf i.



Nid af ymlaen i ymhelaethu mwy ar gynnwys y gweithdai gan iddi ddod yn amlwg y ddau dro fod y pwyslais mawr yn cael ei roi ar 'fanteision' enfawr o eithrio. Clywyd am ysgolion oedd wedi eithrio yn cynyddu'r cyllideb flynyddol o bron i 13%, sef tua £300,000 mewn un achos. 'Roedd ysgol arall wedi gallu cynyddu'r gwariant y pen ar bob plentyn 400%, ie, pedair gwaith o'i gymharu â'r hyn a dderbyniwyd trwy ddwylo'r Awdurdod. Serch gofyn y cwestiwn, ni chafwyd fawr o sylw i'r ysgolion hynny a eithriodd sydd mewn trafferthion ariannol dybryd. Camreoli o fewn yr ysgol mae'n siŵr! Dyna'r bedwaredd guddneges. Ni allai rhywun beidio a dyfalu nad oedd canmol cymaint ar lwyddiannau ariannol posibl ond yn ceisio cuddio'r craciau sydd yn y gyfundrefn honno. Yn ddistaw bach, bu i un neu ddau sôn am y cywilydd oedd ganddynt o gymryd arian a allai gael ei ddefnyddio'n fwy teg gyda rhai mwy anghennus mewn sefydliadau cyfagos. Ond na, 'treched y trechaf' yw hi dan drefn o'r fath.

Ar ddiwedd y cyfarfod, bu'r anerchiad glo'n pwysleisio'r ffaith mai pwrpas y dydd oedd ceisio egluro oblygiadau 'eithrio' heb geisio dwyn perswâd ar neb. 'Tynnwch y goes arall,' meddaf wrthyf fy hun. (Ie, dyna chwi — hon oedd y chweched neges gudd.)

Lle mae hyn yn ein gadael yw ei bod yn hollol angenrheidiol bellach i ysgolion chwilio am waredigaeth ariannol o gyfeiriadau gwahanol i'r arferol. Yn bersonol, mae gennyf barch mawr i Awdurdod Addysg Gwynedd sydd wedi llwyddo, yng ngwyneb sawl trwystr, i wneud defnydd o'r iaith Gymraeg yn arferiad hollol naturiol o fewn y cymunedau. Braf yw clywed mwy a mwy o bobl yn ymdrechu i siarad Cymraeg a sylwch fel mae'r polisi iaith yn y sector gynradd yn barod yn dwyn ffrwyth.

Un enghraifft yn unig o gydweithio yw polisi iaith Gwynedd wrth gwrs. Datblygodd y syniad tros y ddwy ddegawd ddiwethaf o 'gyd-ddyheu' gyda pharch amlwg gan bob ysgol i'w gilydd. Ond, ac mae hwn yn ond annifyr, gwelir datblygiadau'n barod sy'n gwneud ysgolion yn fwyfwy amharchus o'i gilydd a chreu rhyw hunanoldeb — fy mod 'i' yn iawn ac nad yw fawr o wahaniaeth am neb arall. Yn fy myw ni allaf beidio a meddwl fod cytundeb gweddol dda dros y blynyddoedd ymysg ysgolion Gwynedd ar bob math o bynciau trafod wedi rhoi hwb enfawr i addysg yn y sir. Wedi'r cyfan, pwy all wadu nad yw canlyniadau Gwynedd dros y blynyddoedd mewn arholiadau cyhoeddus wedi bod yn gyson uchel. Ac nid llwyddiant arholiadol yw'r unig beth i'w ganmol wrth gwrs. Meddyliwn faint o ieuenctid bro'r 'Eco' sydd wedi gwneud enw iddynt eu hunain yn y byd cerddorol, yn gantorion, cyfeilyddion ac offerynwyr eraill. Yna, mae Gwynedd eto'n fridfa gyforiog o dalentau i chwaraeon o bob math wedyn a chlywir yn gyson am lwyddiannau eraill gan ddisgyblion ysgolion Gwynedd. Yn fy marn i cododd hyn allan o barchu hawliau'n gilydd.

Tybed beth fydd y dyfodol? Ai bwriad y Llywodraeth yw gwasgu cymaint ar adnoddau'r Cynghorau Sir fel bod pob ysgol yn gorfod diswyddo athrawon, creu dosbarthiadau mawr o ran nifer, yn methu a fforddio trwsio neu adnewyddu offer technolegol drudfawr, ac yn y blaen? Os yw'r ateb i'r cwestiwn olaf yma'n gadarnhaol ai rhan o'r gêm yw gwthio ysgolion i chwilio am ffynonellau gwahanol o arian, ac yn y diwedd, eu gwneud yn hollol ddibynnol ar Lywodraeth Ganolog am gyllid? Os 'ie' yw'r ateb yna mae'n dipyn haws i bwyllgorddyn sydd ddim yn atebol yn lleol i'w etholwyr benderfyn torri 5%, dyweder, ar gyllideb ysgol nag yw i Gynghorydd Sir druan godi'i law tros yr un mater onidyw?

Yn fy marn i, gyfeillion, mae gwir angen i ysgolion Gwynedd barhau i barchu'i gilydd. Os 'eithrio' yw'r nod yna ni welaf ddim o'i le i'r holl ysgolion wneud cais ar yr un pryd. Ie, mae'r hen air yn parhau i fod yn wir — 'Mewn undeb mae nerth'.

## NANT PERIS

**Elwyn Searell Jones, Dwyfor**
**Ffôn: 870440**

**Llongyfarchiadau** i Tony a Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Jennifer a Robin, Bethel, Catrin Elidir, chwaer fach i Olwen a Siân.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Ann Caroline a Jim Cumberton, 3 Gwastadnant ar enedigaeth merch fach.

**Marwolaeth:** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 1af (Dydd Gŵyl yr Holl Saint) bu farw Mrs Nellie Roberts, Glanrafon, yn 83 mlwydd oed. Un o Hoelion Wyth y Nant. Yr oedd yn briod a'r diweddar Robert Ellis Roberts, brodor o Ddolgarrog, a fu farw ym 1967, a mam annwyl iawn John a Gwynedd a nain hoffus Alwyn, Helen a Gareth. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

**Gwellhad:** Da clywed fod Iwan o Fethel, sef mab Prydwen a Melvin Pritchard, Llys Awel, yn gwella ar ôl derbyn triniaeth ar ei lygaid yn yr ysbyty.

### Y FARCHNAD WLÂN

Wyddoch i beth yw pryder hogia'r defaid eleni?
Chwi gofiwch, llynedd torri'r grantia oedd yn eu poeni
Eleni eu pryder yw, a ma nhw bron a drysu'n lân
Yn talu am gneifio, a cael dim am y gwlân.

Brethyn gwlân y defaid mân
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r blaen
Digon gwir, ond nid felly heddiw, ceir enghreifftia ddigon
Dillad tena byr, ac ysgafn o bapur a neilon.

Maent yn hwylus a lliwgar a digon rhad
Er hwyrach ma byr yw eu parhad
Ac yn barod iw gwisgo heb brinder cyflenwad
Yn wir maent wedi gorlifo marchnadoedd ein gwlad.

A dyna lle mae'r broblem, mae yn ddigon plaen
Ysbeilio marchnadoedd y dillad gwlân
Rhaid ymgyrchu i wisgo mwy o ddillad gwlanog
I hybu eto marchnad wlâsn ein defaid enwog.

Beth am dani ferched a deimlwch i'n euog
Yn gwisgo'ch frils sidan a neilon llinynog rhwyllog
Ninnau ddynion a phlant efo'n jeans papur gwasgedig
Tra bod marchnadoedd gwlân y wlad mor sigledig.

Os na cheir adfywiad buan
Fe fydd sefyllfa ddifrifol yn ôl y darogan
A hoffech i weld ceirw, yn lle defaid ac ŵyn
Ar erwau Gwaun Gynfi yn carlamu trwy'r brwyn.

H.J.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

**PAT A KEN**

**CREFFTAU FFERM**

**CAE COCH**

**STRYD FAWR**

**LLANBERIS**

**Ffôn: 870777**

GALWCH I MEWN AM ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN

Diolch i bawb am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Garvin, Wil a Jim**

**W.G. ALLSUP**

**Storfa Gig Glan Padarn**



**LLANBERIS 870319**

**joe brown**

CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST

**Am anrhegion Nadolig a werthfawrogir trwy'r flwyddyn**



★ Dewis rhagorol o lyfrau ar deithio a mynydda
★ Sanau a Siwmperi trwchus
★ Cotiau a Sgidiau Dal Dŵr
★ Dillad Thermal ★ Capiau a Menig Gwlân

**Llanberis, Ffôn 870327**

**Hefyd yng Nghapel Curig**
**(tu cefn y post) Ffôn: 069 04 205**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

joe brown

**Gwesty Erw Fair**

**LLANBERIS**

**Ffôn 872400**



★ Dyddiau'n dal ar gael ar gyfer partïon Nadolig, yn cynnwys Dydd Nadolig
★ Partïon mawr a phartïon bach
★ Cinio Nadolig 3 - 12 cwrs yn dechrau o £6.50
★ Lle addas ar gyfer pob achlysur
★ Dewch i fwynhau ein bwyd blasus mewn awyrgylch braf

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob ac Annie Kane**


**Padarn Lake Hotel**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI OLL ODDI WRTH TERRY, VAL, LUCY A'R STAFF

**LLANBERIS Ffôn 870 260**

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

**Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa**



**SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll**

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

**Enillwyr Clwb 300 am fis Hydref** – £40: Mrs M. Owen, Bryn Gwylan; £25: Mr J. Pitman, 11 Ael-y-bryn; £10: Mrs Ann Jones, Haulfryn.

**Llwyddiant Eisteddfodol:** Llongyfarchiadau i Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Nantlle am bryddest ar y testun 'Y Frwydr'. Fe fwynhaodd y seremoni yn fawr iawn.

**Arddangos Adar:** Llongyfarchwn Siôn Rhys Williams, 19 Bro Waun, ar ennill gwobr gydai ganeri mewn sioe adar yng Nghaernarfon.

**Dyweddïo:** Llongyfarchiadau i Anthony Marston, Blaen-y-nant, ar ei ddyweddïad â Louisa Nicholas o'r Groeslon.

**Priodas:** Llongyfarchiadau i Delyth a Phil Lowe ar eu priodas. Maent yn cartrefu yn Gwylfa.

**Adref o'r Ysbyty:** Croesawn Nia Llwyd, Dôl-y-coed; Delyth Lowe, Gwylfa; Mr Tom Thomas, Gilfach; Mr O. T. Jones, Gwenallt; a Dylan Jones, Rhandir Mwyn, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Huw Williams, Stad Croes-y-waun, yn dilyn ei hymweliad a'r ysbyty ar ôl iddi syrthio a thorri ei braich.

Anfonwn ein cofion at bawb yn y pentref sydd heb fod yn rhy dda eu hiechyd. Cymerwch ofal ohonoch eich hunain ar y tywydd oer 'ma.

Anfonwn ein cofion at Miss Maggie Roberts sydd wedi mynd i aros ym Mhlas Pengwaith, ac at bob un o'r pentref sydd mewn cartref preswyl.

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion at Mr Glyn Williams, Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlo:** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r canlynol,
– i Gwenlli Williams, Ardwyn, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei mham, y ddiweddar Mrs Annie Williams, Garreg Fawr gynt;
– i deulu a chyfeillion y ddiweddar Mrs Lyons, 6 Ael-y-bryn;
– i deulu a chyfeillion y ddiweddar Mrs Simpson, Dyffryn;
– i deulu a chyfeillion y diweddar Mr Robert Hugh Owen, Caemabynyr gynt;
– i Mr Emlyn Williams, Geraint a Richard, Henllan, Stad Croes-y-waun, yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl.

Ychydig fisoedd ar ôl ei brofedigaeth o golli ei briod daeth profedigaeth drist arall i Mr John Cotton, Stad Tŷ Hen. Bu farw ei wyres fach, Eleanor, naw mlwydd oed. Merch fach Robart a Jo. Cydymdeimlwn yn ddwys â hwy yn eu profedigaeth.

**Diolchiadau:**

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Annie Williams, gynt o Ddrws y Nant, Dôl Erddi, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Gwerthfawrogwyd y llu o gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a dymuna Gwenlli a Rol ddiolch yn arbennig i Miss Eirlys Jones a Mr R. Gwynn Davies am eu hymweliadau wythnosol di-dor i'r Cartref Nyrsio ym Mhenisarwaun. Diolch hefyd am y rhoddion a gyfrannwyd er cof am Mrs Williams i gapel Bethel a'r Feddygfa leol.

Dymuna Dylan, Rhandir Mwyn, ddiolch i bawb a fu'n holi amdano tra bu yn yr ysbyty ac ar ol dod gartref. Diolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato.

**Cyngerdd Nadolig:** Cynhelir Cyngerdd Nadolig gan Barti'r Gest yn Eglwys Sant Ioan, nos Sul, Rhagfyr 12, am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cafwyd cynulliadau da yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar. Yn y cyfarfod agoriadol ar nos Lun, Hydref 25, cafwyd cyflwyniad ysgafn a hwyliog o dan y pennawd 'Ci a Chath' gan Maureen Rhys a John Ogwen, gyda Iolo Huws Roberts yn llywyddu a thalwyd y diolchiadau gan Eurig Wyn. Nos Lun, Tachwedd 8, daeth Mr John Grisdale atom i roi sgwrs, gyda sleidiau, ar beryglon y mynyddoedd gan ganolbwyntio ar waith canmoladwy tîm achub Llanberis y mae yn aelod ohonno ers blynyddoedd. Llywyddwyd gan Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, ac fe ddiolchwyd gan Rol Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Rhagfyr 13, pryd y ceir sgwrs gan Gwilym O. Williams, Fferm Bodhyfryd, ar ei ymweliad â Canada gyda sleidiau o olygfeydd hynod y wlad. Llywydd y noson fydd O. T. Jones, Bryn Gwenallt. Os am ymuno â'r Gymdeithas gofynnir i chwi wneud hynny cyn diwedd y flwyddyn, a chalondid yw gweld cymaint o aelodau newydd eleni eto.

**Cyfeillion yr Ysgol:** Eleni eto, bu Blodwen (neu Bleddyn) yn ein cynorthwyo i wneud elw tuag at yr Ysgol. Diolchwn fod y tywydd wedi bod yn ffafriol ar ddydd Sadwrn, 16 Hydref, gan i ni orfod disgwyl am beth amser cyn i'r hen Flodwen fendithio'r cae. Ni fu Graeme fawr o amser yn mesur pwy oedd yn mynd i elwa o weithred y bustach. Sgwâr rhif 177 oedd o ac enillyd y £50 oedd Miss Frances Haley o Fanceinion.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i Graeme Hughes am fesur a rhannu'r cae, ac i Steve a Carys Jones am fenthyg y cae a'r creadur. Diolch hefyd i'r rhieni a ffrindiau am gefnogi drwy brynu tocynnau.

**Yr Urdd:** Ar Dachwedd 5ed cafwyd noson Guto Ffowc yn y Ganolfan ac fe fu'n noson lwyddiannus iawn. Diolch yn fawr i Elfyn, Bryn, Gary ac Alfie am fod yn gyfrifol am danio'r goelcerth a'r tân gwyllt. I ddilyn daeth llawer i fwynhau'r cawl a chŵn poeth a oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y noson.

Mwynhaodd y plant eu hunain ar Dachwedd 10fed pan aeth yr adran i'r Ganolfan Hamdden i nofio. Diolch i Anti Sylvia, Anti Christine, Anti Yvonne ac Yncl Brian am fod mor ddewr i fynd i mewn i'r dŵr hefo'r plant – gan i ni glywed fod y dŵr yn oer iawn! Diolch yn fawr iawn i'r pedwar ohonoch a diolch hefyd i'r rhieni am gludo'r plant.

Tachwedd 17eg fe aeth Anti Nan, Geraint ac Anti Shirley i chwarae gemau hefo'r plant.

Cynhaliwyd Sul yr Urdd ar Dachwedd 21ain yn Nghapel Cysegr, Bethel, ac fe gymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rai o blant Waunfawr. Diolch i'r plant, Anti Jina, Anti Sylvia ac Anti Joy am gadw trefn ar y diwrnod.

Ar Dachwedd 24ain fe ddaeth Sioned Glyn at y plant i wneud cardiau Nadolig ac Anti Menna ac Anti Heulwen oedd yno i helpu.

Ar Rhagfyr 1af bydd Anti Jina yn ymarfer canu carolau hefo'r plant, oherwydd ar Rhagfyr 15fed bydd plant yr Urdd yn mynd o amgylch y pentref i ganu carolau.

Bydd Disgo yn cael ei gynnal ar Ragfyr 8fed – cofiwch wisgo gwisg ffansi.

Llongyfarchiadau i Fiona Sanderson am ddod yn drydydd o dan 10 oed yng ngala nofio'r Urdd a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar; ac i Ieuan Parry a Gareth Patchett am gymeryd rhan. Hefyd Dewi Owen, Ifan Glyn, Hywel Jones a Kimberley Taylor am gymeryd rhan yn y gala o dan 12 oed. Da iawn chwi i gyd am drio, daliwch ati.

**Dathlu Pen-blwydd:** Llongyfarchiadau i Manon Jones, 11 Tref Eilian ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymuna Manon ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwyddyn 18 oed.

## EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR

Cafwyd Eisteddfod dda a llawer iawn o gystadlu brwd trwy'r dydd, a hwnnw o safon uchel. Y Beirniaid eleni oedd Ilid Jones (Eames), Rhos Isa, ar y canu a'r enwog Arwel Jones, Penisarwaun, ar yr adrodd. Cychwynwyd am ychydig wedi hanner dydd o dan arweiniad y Llywydd, Irene Roberts a dyma'r canlyniadau –

**CYFARFOD Y PRYNHAWN**

Canu dosbarth yr Hafod: 1, Deion; 2, Trefor; 3, Beth; gyda canmoliaeth i Gafin, Bethan, Arawn, Nia, Caryl a Marc. Oed meithrin: 1, Mererid; 2, Dafydd; 3, Hefin; a chlap fawr i Emma, Owain, Angharad, Arwel, Siôn, James, Elidir, Gwion, Gethin, Tegwen, Rebecca, Marie, Jason a Sara. Dosbarth Mrs Ellis: 1, Cathryn; 2, Guto; cyd 3, Ieuan ac Elgan; canmoliaeth i Nia, Rhion, Pryderi, Esyllt a Wenna. Safon 1 a 2: 1, Anna Glyn; 2, Ioan Keller; 3, Ieuan Parry. Safon 3 a 4: 1, Sioned Jones; 2, Ifan Glyn. Parti canu dan 12 oed: Parti Anti Gwenda. Deuawd o dan 12: 1, Sioned a Ffion. Cân Actol – oed meithrin a babanod: 1, Parti Dyn Drwg; 2, Parti Zoo. Parti dawnsio gwerin cynradd: 1, Jac-y-do; 2, Stamp & kick. Dawnsio Disgo cynradd: Parti Fiona. Adrodd dosbarth yr Hafod: 1, Beth; 2, Deion; 3, Caryl; a chanmoliaeth i Gafin, Trefor, Nia, Bethan, Arawn a Marc. Oed meithrin: 1, Gwion; 2, Hefin; cyd 3,: Siôn a Mererid a chlap fawr i Emma, Owain, Angharad, Arwel, Dafydd, James, Elidir, Rebecca, Marie, Tegwen, Gethin, Jason a Sara. Dosbarth Mrs Ellis: 1, Pryderi; 2, Nia; 3, Elin; gyda chanmoliaeth i Rhion, Cathryn, Guto, Esyllt, Elgan, Ieuan a Wenna. Safon 1 a 2: 1, Anna Glyn; 2, Ieuan Parry. Safon 3 a 4: 1, Ifan Morgan; cyd 2, Ifan Glyn a Sioned. Parti Adrodd: 1, Anti Jean. Unawd recorder safon 1 a 2: 1, Ioan Keller. Safon 3 a 4: 1, Sioned; 2, Fiona; 3, Ifan Glyn. Unawd piano safon hyd 2: 1, Ieuan Parry; 2, Ioan Keller. Safon 3 a 4: 1, Sioned; 2, Ifan Glyn; 3, Steffan Keller; 4, Ifan Morgan. Unawd offeryn llinynnol oed cynradd: 1, steffan Keller. Unawd offeryn chwyth: 1, Ifan Glyn, clarinet; 2, Sioned, oboe. Arlunio oed meithrin: cyd 1, Hefin a Gwion; cyd 2, Arwel a Gethin; cyd 3, Siôn a Rebecca. Hafod: cyd 1, Jacob a Kelly Lloyd; cyd 2, Nia a Lesley; cyd 3, Dafydd a Kelly Roberts. Mrs Ellis: cyd 1, Eifion Patchett a Owain Thomas; cyd 2, Louise Prichard a Jason Grenham; 3, Rhion Glyn. Safon 1: 1, Sara Roberts; 2, Adam Gruffudd; 3, Anna Glyn. Safon 2: 1, Fiona Anderson; 2, Ben Philips; cyd 3, Sara Owen a Thomas Hughes. Safon 3: 1, Sion Williams; 2, Joanne Williams; cyd 3, Alistair Addison a Samantha Weir. Safon 4: 1, James Paul; 2, Hywel Jones; 3, Anthony Burton. Gwaith llaw Hafod: cyd 1, Carwyn a Bethan; cyd 2, Steven a Sarah; cyd 3, Arawn a Carla. Mrs Ellis: cyd 1, Nia Griffiths a Guto Llywelyn; 2, Eifion Patchet; 3, Emma Simpson. Safon 1: 1, Sarah Weir; 2, Sara Roberts; 3, Iwan Parry. Safon 2: 1, Fiona Sanderson; 2, Erica Jones; 3, Dilwyn Jones. Safon 3: 1, Ceri Rowlands; cyd 2, Wayne Roberts a Sion Williams; 3, Emma Davies. Safon 4: 1, Liam Roberts; 2, Nathan Philips; 3, Llion Dafydd. Coginio ysgol gynradd – Bisgedi: 1, Sioned Jones; cyd 2, Anna Glyn a Daniel Griffiths. Peppermint Creams: 1, Ifan Glyn. Llên Safon 1: 1, Sara Roberts; cyd 2, Sara Weir a Ieuan Parri; cyd 3, Anna Glyn a Julie Roberts. Safon 2: 1, Erica Jones; cyd 2, Sara Owen a Thomas Hughes; cyd 3, Fiona Sanderson a Gareth Patchet. Safon 3: 1, Ifan Glyn; 2, Ifan Morgan; cyd 3, Sioned Williams a Dewi Owen. Safon 4: cyd 1, Llion Dafydd a Steffan Elidir; 2, Sioned Jones; cyd 3, Ffion Williams ac Aled Griffiths. Geiriau o'r gair 'Pendramwnwgl': 1, Dewi Owen; 2, Ifan Glyn; 3, Sioned Jones.

**CYFARFOD YR HWYR**

Canu – Unawd blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Lowri Glyn. Blwyddyn 4 a 5, dan 19: 1, Manon Jones; 2, Catrin Keller. Cân Werin: 1, Humphrey Jones. Grŵp Pop: 1, Cwangos; cyd 2, Tri dyn dewr a'r Merched Talentog. Unawd Cerdd Dant: 1, Catrin Keller. Unawd Cân Werin o dan 19: 1, Catrin Keller. Cân Actol: 1, Criw y Merched Talentog. Parti Canu: 1, Gororau; 2, Croes-y-waun; 3, Parti Sylvia. Unawd offeryn chwyth 1, 2 a 3: 1, Heledd; 2, Elin; 3, Osian; 4, Manon; 5, Aled. Unawd piano 1, 2 a 3: 1, Heledd; 2, Manon; 3, Lowri; 4, Aled; 5, Elin. Blwyddyn 4 a 5, dan 19: 1, Catrin. Unawd llinynnol 1, 2 a 3: 1, Lowri Glyn. Bl. 4 a 5, o dan 19: 1, Catrin. Emyn dros 40 oed: 1, Humphrey; 2, Douglas. Dawnsio Gwerin: Parti Munud Olaf. Unawd dros 19: 1, Humphrey. Adrodd blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Lowri Glyn. Côr adrodd: 1, Parti Jean. Sgets: cyd 1, Consurwyr a'r Chefs. Gwaith llaw – model o wastraff: 1, Heledd Elfryn; 2, Lowri Glyn; 3, Lowri Huws. Gwaith coed, metel neu rhywbeth arall 1, 2 a 3: 1 a 2, Edryd Williams; cyd 2, Lowri Glyn. Blwyddyn 4 a 5, dan 19: 1, Elain Owen. Gwnio addurn corff: 1, Lowri Glyn. Gwau agored: 1, Marian W. Jones; 2, Delyth Jones; 3, Marian W. Jones. Arlunio 1, 2 a 3: 1, Kevin Davies; 2, Lowri Glyn. Agored: Rhys Huws. Caligraffi: 1, Sioned Glyn. Ffotograffiaeth: 1, Delyth Jones; 2, Alfie Jones; 3, John Roberts. Sleidiau: 1, John Roberts. Coginio blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Lowri Huws; 2, Elin Evans; 3, Manon Evans. Blwyddyn 4 a 5: 1, Gerallt Jones. Agored – Jam neu Jeli: 1, Irene Robers; 2 a cyd 3, Rhian Evans. Gateaux: 1, Irene Roberts; 2, Veronica Owen; Rum Truffles: 1 a 2, Heulwen Jones. Fudge: 1, Irene Roberts; 2, Joy Glyn. Taffi Triog: 1, Heulwen Huws; 2, Heulwen Jones; 3, Irene Roberts. Chutney: 1, Irene Roberts. Llên – llinell goll: cyd 1: John G. Jones ac Elwyn Griffith. Brawddeg: 1, Robert Williams. Hunangofiant Sbectol: 1 a 2, Bethan Williams; 3, Margaret Owen. Darn heb ei atalnodi: 1, Nan Roberts; cyd 2, Robert Williams ac Eifion Glyn; 3, Sylvia Jones. Llên blwyddyn 1, 2 a 3: Lowri Glyn. Blwyddyn 4 a 5: Elain Owen. Darllen darn: 1, Lowri Huws; 2, Lowri Glyn; 3, Elain Owen; 4, Osian Elfryn.

Dymunaf ddiolch yn fawr i bawb a fu yn gymorth i mi wrth baratoi ar gyfer yr Eisteddfod. 'Roedd yn anodd iawn dilyn Heulwen, diolch iddi hi am ei harweiniad, i'r rhai a wnaeth ufuddhau i fod wrth y drws yn ystod y dydd ac i bawb am gystadlu. Beth am i fwy ohonoch wneud y flwyddyn nesaf. Diolchaf hefyd i Mrs Thomas, y brifathrawes, a'i hathrawon – roedd gwaith y plant yn werth ei weld. Diolch i Pat Parry am agor a chau yr ysgol.

Diolchir i'r rhai fu'n hyfforddi'r plant – hebddynt hwy fyddai yna ddim Eisteddfod.

Diolch hefyd i ddwy siop y pentref a'r feddygfa am arddangos ein hysbysebion.

Diolch Irene am edrych ar ôl y beirniaid ac am arwain y gweithgareddau gyda Carys Owen, Eurig Wyn a Norman Williams. Diolch i bawb. – Glenys


**Emyr Jones**
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



**CARPEDI GLÂN**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
W.J. DAVIES
**MODURDY'R WYDDFA**
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd
JOHN WHITE
**THE BODY SHOP**
LLANBERIS
★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS
A NANT PERIS

SWYDDFA'R POST
**NANT PERIS**
Ffôn: Llanberis 870258
Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i'n holl gwsmeriaid oddi wrth
Glyn, Ann, Neil a Karen Ann Price

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop
**HAIRLINES**
Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth
**H.E. HUGHES a'r MEIBION**
870 902
870 444
ac 872200
MASNACHWYR GLO
1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

DYMUNA
MERVYN A DILYS,
JENNIFER, HELEN,
GLENYS AC APPY
**CASTLE GIFT SHOP**
LLANBERIS Ffôn: 870379
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth
**Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy**

**Outside**
**TU ALLAN**
(Hen Gapel Y Bedyddwyr)
Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 871534

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y siop i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa*

Dewch atom y Nadolig hwn am ddewis rhagorol o Ddillad Awyr Agored, Esgidiau, Mapiau a Llyfrau Tywys – pob dim i'ch helpu i fwynhau bod **Tu Allan**.

# LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

**Plaid Cymru:** Trefnwyd Cwis gan Arwel Jones ar gyfer y cyfarfod pan ymunodd caelodau o ganghennnau Bethel a Deiniolen â ni yng nghyfarfod mis Tachwedd. Croesawyd pawb yno gan y Cadeirydd, Phyllis Ellis. Rhoddwyd y raffl gan Meryl Green a'r enillydd oedd Arwel Jones. Nan Humphreys a roddodd y te. Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — Hydref: 1, Raymond Jones, Bryn Fedwen; 2, Mrs J. E. Parry, Môrannedd. Tachwedd: 1, John Rowlands, Llys Forgan; 2, Phyllis Ellis. Edrychwn ymlaen at y Ffair Nadolig ar Ragfyr 1af pan ddaw Siôn Corn heibio i weld y plant.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfd o'r gangen ar Dachwedd 8fed, o dan lywyddiaeth Menna Williams. Diolchodd y llywydd i'r aelodau am eu cydymdeimlad llwyraf â hi a'r teulu o golli brawd annwyl ac am y dymuniadau da am adferiad buan i'w gŵr. Croesawyd Mrs Margaret Parry yn ôl wedi ei gwaeledd ac anfonwyd cofion am wellhad buan i Mrs Jennie Williams.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Mrs W. O. Roberts ar farwolaeth ei gŵr, y Parchedig W. O. Roberts. Fe'i cofir fel y dyn addfwyn a'r cymwynaswr mawr ac fe fydd bwlch mawr ar ei ôl.

Anfonir ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd i Mrs Vera Hughes, Sŵn-y-nant, Bethesda. Mrs Hughes oedd gwestai y mis ac roedd edrych ymlaen am gael ei chlywed yn olrhain hanesion rhai o'r tebotiau o'i heiddo, ond oherwydd anhwylder bu'n rhaid iddi ymddiheuro. Brysiwch wella Vera.

Ar fyr rybudd daeth Ms Rose Evans o Benmynydd, Môn, i'n swyno a'n cyfareddu gyda'i thalent o wneud blodau allan o siwgr. Mae ei henw hi ei hun yn addas iawn i'w chrefft anhygoel. Gwneuthurwr melysfwyd oedd hi cyn iddi ymuno â'r 'Sugar Craft Guild' dair mlynedd yn ôl. 'Roedd rhaid i nifer o'r aelodau gael cyffwrdd yn y blodau er mwyn profi mai siwgr oeddynt gan eu bod yn edrych mor naturiol.

'Roedd distawrwydd llethol yn y neuadd wrth i'r aelodau lygadrythu a rhyfeddu wrth i Mrs Evans wneud rhosyn, lili a rhosyn Nadolig. Ie, artist a chrefftwraig go iawn wrth ei gwaith:

'Nid o'i ôl y gedy 'i waith
Heb ei orffen yn berffaith.'

Diolchwyd iddi gan Mrs Mair Huws ac fe ddiolchodd Nan Humphreys i Pat, Ann a Julie am wneud y te. Enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Thomas a derbyniodd un o'r blodau siwgr gan Mrs Evans.

Ar Rhagfyr 7fed fe ddethlir ein Cinio Nadolig ym Mryn Eisteddfod, Clynnog. Trefnir bws a bydd posteri er gwybodaeth yn y siopau lleol.

**Cynhelir Cinio Nadolig yr Henoed yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug, am 7 o'r gloch nos Fercher, 8fed o Ragfyr. Enwau, os gwelwch yn dda, yn y llyfr sydd yn y Swyddfa Bost. Croeso i bawb.**

**Gwellhad:** Dychywelodd Mr Robert Williams, Llain Gwta, Gwêl Fynydd, Llanrug, o Ysbyty Llandudno lle y cafodd lawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunir adferiad llwyr a buan iddo.

**Ysgol Gynradd Llanrug:** Croeso atom i dair myfyrwraig o'r Coleg Normal — Eirian Davies, Siân Jones a Nia Bleddyn. Byddant yn ein plith am chwe wythnos yn hyfforddi i fod yn athrawon trwyddedig. Gobeithio byddwch yn hapus yma gyda ni.

Cafwyd wythnos Ffair Lyfrau lwyddiannus iawn a diolch i bawb, yn rieni a ffrindiau, a'n cefnogodd unwaith eto.

Bu prysurdeb mawr yn yr ysgol yn creu lliain sychu llestri arbennig gyda llun pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol arno a'r holl staff. Maent ar werth yn yr ysgol am £2.50. Anrheg Nadolig buddiol! Brysiwch mae mynd mawr arnynt.

Bu blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â'r ysbyty a'r baracs yn Chwarel Dinorwig. Er fod y tywydd yn arw roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac wedi cael gweld a dysgu llawer.

Ddydd Mawrth, Tachwedd 23ain, daeth Alison Brown i roi sgwrs i blwyddyn 1 a 2 ar sut i ofalu am eu dannedd yn briodol.

**Dyddiadau pwysig i'w cofio** — Cyngerdd y Babanod ar nos Fawrth, Rhagfyr 14, yn neuadd yr Ysgol. Sioe Gerdd 'Branwen' gan yr adran iau ar nos Iau, Rhagfyr 16, yn neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug.

**Yr Urdd:** Llongyfarchiadau i bawb wnaeth mor rhagorol yng ngala nofio'r Sir eto eleni, a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar. Gwnaeth y plant yn ardderchog a daeth llwyddiant i'r Ysgol o dan 10 oed ac o dan 12 oed. Bydd y canlynol yn cynrychioli'r sir yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd ym Mangor ar Ragfyr 4ydd, a dymunwn pob lwc iddynt — Nicola Jones, nofio broga a chefn; Elin Dafydd, nofio cefn a chymysg; Hefin Roberts, nofio rhydd; Iwan Parry Jones, nofio pili pala; David Jones, nofio broga; Philip Lyons, nofio rhydd a pili pala; tîm ras gyfenewid rhydd dan 10 oed, Robin, David, Philip ac Eifion; tim ras gyfnewid rhydd dan 12 oed, Nia, Elin, Nicola, Siân; tîm ras gyfnewid rhydd bechgyn dan 12 oed, Guto, Hefin, Kevin, Iwan; tîm ras gyfnewid cymysg merched dan 12 oed, Siân, Elin, Melia, Nicola; tîm ras gyfnewid cymysg bechgyn dan 12 oed, Robin, Iolo, Hefin, Iwan.

Cymerodd yr Ysgol ran yn Sul yr Urdd yng Nghapel Cysegr, Bethel, 'Goleuni' oedd y thema eleni.

Enillwyr Clwb Cant am fis Tachwedd oedd: 1, Michelle Louise Roberts, 6 Talybont; 2, Beryl Roberts, 20 Glanffynnon; 3, Meirwen Thomas, Foelas; 4, Beryl Thomas, 54 Nant y Glyn; 5, Rhiannon Ann Evans, 24 Nant y Glyn.

**Marwolaeth:** Ar Hydref 22ain bu farw Mr O. G. Williams, Llanfairfechan, yn 80 oed. Yn frodor o Lanrug (O.G. i'w gyfeillion) ac yn fab i'r diweddar Owen a Kate Williams, Arfryn, Rhes Rhythallt gynt.

Cyn ei ymddeoliad bu'n athro yng Nghwm Penmachno a Llanllyfni cyn ei benodi yn brifathro cyntaf Ysgol Treborth, Bangor. 'Roedd yn flaenor yng Nghapel Horeb, Llanfairfechan, ac yno cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus ddydd ei angladd gyda'r Parchedigion H. Gwynfa Roberts (perthynas) ac E. Idris Davies, ei gyn-Weinidog ym Mhorthaethwy, yn gwasanaethu. Hwy hefyd a wasanaethodd yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlir â'r mab a'r ferch a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

**Diolchiadau:**

Dymuna Mrs Nansi Roberts a theulu'r diweddar Barchedig W. O. Roberts, Manod, Llanrug, ddiolch yn ddiffuant am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd, llythyrau, cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at y meddygon a'r nyrsus a dderbyniwyd. Diolch i chwiorydd yr ofalaeth am baratoi'r lluniaeth yn festri'r Capel Mawr. Diolchir hefyd i'r gweinidogion, meddygon a'r nyrsus am eu gofal arbennig yn ystod gwaeledd Mr Roberts; ac i Mr Gwynfor Jones, Llanberis am ei wasanaeth. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Annie Parry, 14 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra roedd yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod gartref.

Dymuna Nigel Kirkpatrick, 1 Rhos Rhug, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am y rhoddion, cardiau a galwadau ffôn adderbyniodd tra yn Ysbyty Gwyned ac ar ôl iddo ddod gartref. Llawer o ddiolch i'r meddygon a nyrsus Wardiau Cybi, Tryfan ac Alaw. Hefyd diolchir i feddygon a nyrsus Ysbyty Clatterbridge. Diolch yn fawr i bawb.

**ORIAU NEWYDD MEDDYGON LLANBERIS BOB DYDD GWENER:**
**Llanrug yn y bore o 9.30 — 11.00**
**Deiniolen yn y pnawn o 2.00 — 3.30**
**Croeso i'r Dr Alwyn Parry i'n plith.**

## Er Cof am y Parchedig W. O. Roberts

Fore Gwener, Tachwedd 5ed, ehedodd ysbryd ein brawd a'n cyfaill, y Parchg W. O. Roberts, at Dduw. Yr oedd wedi dioddef cystudd hir a blin yn dawel a dirwgnach, a phrofiad yr emynydd wedi bod yn brofiad iddo yntau:

*Mewn cystudd rwyf yn dawel,*
*Y fuddugoliaeth sydd o'n tu;*
*Nid oes elyn wna im niwed,*
*Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd fry.*

Braint yw ceisio talu teyrnged i'r gŵr annwyl hwn a fagwyd ym mro'r chwareli ym Mlaenau Ffestiniog ac a ddangosodd yn ei gymeriad lawer o gadernid yr ardal honno. Byddaf yn ei gofio'n arbennig fel pregethwr, gweinidog a chyfaill.

### Y Pregethwr

Yn gynnar yn ei fywyd yr oedd wedi ymglywed â'r alwad i bregethu Gair Duw — Gair y Ffydd a'r Deyrnas. Yr oedd ar dân eisiau dweud am yr Hwn a garai mor fawr. Ac ar hyd y blynyddoedd gallai Mr Roberts, fel Pantycelyn o'i flaen, ddweud am yr Iesu,

*Ymhlith a fu neu ynteu ddaw,*
*Does debyg iddo Fe.*

Yr oedd bob amser yn paratoi yn fanwl cyn esgyn i bulpud. Yr oedd yn amlwg yn ofid mawr iddo pan ddaeth amser pan na fedrai barhau i bregethu'r Efengyl. Ond gellid dweud amdano yntau fel y dywedwyd am y Parchg Tom Nefyn Williams:

*O'i bregethau i gyd*
*Y fwyaf oedd ei fywyd.*

Yr oedd wedi ei fagu yn eglwys Tabernacl, Ffestiniog, lle'r oedd ganddo barch mawr i'w weinidog, y diweddar Barchg Hywel Jones. Ganddo ef y cawsai Mr Roberts gyngor i bori yn Llyfr y Salmau er mwyn cyfoethogi ei weddïau, a phan fyddai Mr Roberts yn gweddïo ni allech lai na theimlo bod y ddaear yn esgyn a'r nefoedd yn disgyn. Gweddïai gyda'r weddw a'r amddifad, wrth wely'r claf mewn ysbyty ac ar aelwyd, a chydag unrhyw un mewn trallod.

### Y Gweinidog

Bu'n gweinidogaethu yn Rhuallt, Bontuchel, Y Ffôr a Ffynnongroyw cyn symud i ofalaeth Llanrug. Bu'n fawr ei barch yn yr ardal hon oherwydd ei ofal tyner am ei braidd. Carai blant a charent hwythau ef, ac yr oedd graen bob amser ar y gwasanaethau a drefnai ar eu cyfer adeg Diolchgarwch a'r Nadolig. Roedd ganddo feddwl y byd o ieuenctid ei ofalaeth; llawenhai yn eu llwyddiant a pharhau i ymddiddori ynddynt a gweddïo drostynt wedi iddynt adael cartref ac ardal. Paratoi yn ofalus ar gyfer derbyn pobl ifanc yn aelodau o'r Eglwys, gan bwyso arnynt i beidio esgeuluos Bwrdd y Cymun ble bynnag a pha mor brysur bynnag y byddent, ac i gofio aberth drud Iesu Grist ar y Groes er clirio ein beiau. Mynnai nad oedd neb arall dan y nef a all ein nerthu fel y gwna'r Iesu. Rhoddodd wasanaeth gwerthfawr hefyd i Ganolfan y Weinidogaeth Iacháu yng Nghaernarfon lle bu'n gaplan am rai blynyddoedd.

### Y Cyfaill

Wrth ddeffro i sŵn gwynt a glaw ar ddydd ei angladd cofiais innau eiriau o eiddo Syr John Morris-Jones:

*Pam y deui, wynt, i wylo*
*At fy ffenestr i?*
*Dywed im, a gollaist tithau*
*Un a'th garai di?*

Bu'r Parchg W. O. Roberts yn gyfaill ffyddlon i mi ac i gannoedd o rai eraill ar hyd y blynyddoedd, a gellir dweud mai

*Gwag fydd yr aelwyd heb dy gwmni,*
*Oer fydd yr ardal heb dy wên;*
*Wylai'r ieuanc am dy golli,*
*Dagrau sydd ar ruddiau'r hen.*

Wrth estyn ein cydymdeimlad i'w briod, Mrs Nansi Roberts, dymunwn i nawdd y Nef fod gyda hi.

JOHN WYN OWEN

*Cofio'r pregethwr, y gweinidog a'r cyfaill a wna Mr Garrison Williams, Y Ffôr, hefyd yn yr englynion coffa hyn i'r Parchedig W. O. Roberts:*

Un doeth a fu'n goeth bregethwr — ydoedd
Gweinidog ein Crëwr;
Un dewr, i'r gwan a fu'n dŵr,
Rhodiodd fel ei Waredwr.

Daeth solas o'i gymwynasau — yn nodded
Yn nyddiau y dagrau;
A'i wên hael fu'n llawenhau'n
Siriol mewn braf amserau.

Ar ei daith faith cyfaill a fu — yn dwyn
Dynion at yr Iesu;
Coronbleth ei bregethu
Fu Duw Dad a'r 'Cariad Cu'.



# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

**Diolchiadau:**
Dymuna Wendy a Barry Grail ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu mherch Manon ar Hydref 4ydd.

Dymuna Mr Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhos-lan, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd. Diolch hefyd i'r Parchg W. R. Williams am ei ofal. Diolch o galon i bawb.

**O'r Ysbyty:** Rydym yn falch o weld Mr Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhos-lan yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlo:** Ddydd Gwener, Tachwedd 12fed, yn Ysbyty Bryn Seiont ar ôl cystudd hir bu farw Mr W. G. Ellis, Cremlyn. Estynnir pob cydymdeimlad i Mrs Ellis a'r teulu yn eu profedigaeth.

**Llongyfarchiadau** i Wendy a Barry Grail, Y Ddôl, ar enedigaeth merch fach, Manon, ar Hydref 4ydd.

**Plaid Cymru:** Cynhelir Twmpath Dawns i ddathlu'r Hen Galan ar nos Wener, 7fed Ionawr, yng Ngwesty Brenhinol Caernarfon, am 8 o'r gloch. Tocynnau (£3) ar gael o Siop y Pentan neu drwy ffonio Nia ar 670641. Trefnir bws os bydd digon o ddiddordeb.

**Ffair Nadolig:** Cynhelir Ffair Nadolig gan Gylch Meithrin Bethel yn y Neuadd Goffa ar y 4ydd o Ragfyr am 11 o'r gloch y bore. Bydd Robert John y consuriwr enwog yn dod yno i'n difyrru. Codir tâl o £1 ar bawb (plant dan 4 oed am ddim). Croeso i bawb!

**Pwyllgor y Gofeb:** Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng rhai o aelodau o Bwyllgor y Gofeb a chynrychiolwyr o Gorff Llywodraethol yr Ysgol Gynradd i drafod sut i sicrhau gofal teilwng o'r Gofeb yn y dyfodol.

Fel canlyniad bydd llythyr yn mynd i bob cymdeithas yn y pentref yn gofyn iddynt enwi un o'u plith i fod yn aelod o Bwyllgor y Gofeb.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Yn y cyfarfod diwethaf cafwyd noson ddifyr iawn yn y Gymdeithas yng nghwmni Mr Maldwyn Thomas, Bangor, yn sôn am 'Silff Lyfrau fy Nain'. Dilynodd Mr Thomas ddatblygiad cyhoeddi yn Gymraeg o ddyddiau Griffith Jones, Llanddowror pan ddechreuodd y werin ddarllen y Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin, hyd ddyddiau cyhoeddi toreithiog o'r 50au ac hyd heddiw. Diolchwyd i Mr Thomas gan Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd.

**Ysgol Bethel:** Aeth nifer o blant yr ysgol i gyflwyno siec o £60 i gartref St Teilo yn ddiweddar. Cyflwynwyd y siec, casgliad a wnaed yn y gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol, gan Gwenan Michael, merch hynaf yr ysgol.

Mae'r plant yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer eu Cyngerdd Nadolig ac fe'i cynhelir ar brynhawn Mercher, 8fed Rhagfyr, a nos Iau, Rhagfyr 9fed.

Nos Lun, 15fed o Dachwedd, 'roedd noson Cwis y Bedol wedi ei threfnu er budd yr Ysgol. Gofynnwyd y cwestiynau gan Richard Lloyd Jones. Bu cystadlu brwd iawn gyda 14 o dimau ar y noson. Cyflwynwyd dros £60 i'r ysgol. Diolchwyd i bawb gan Mrs Sian Jones, Cadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yn neuadd yr ysgol dan lywyddiaeth Eirlys Williams. Croesawyd y gŵr gwadd Morus, cynllunydd gwallt, ynghyd a thri o'i gydweithwyr a threuliwyd noson arbennig o dda a hwyliog yn eu cwmni. Cafodd tair o'r aelodau drin eu gwallt, sef Rhian Hughes, Deilwen Hughes a Jaqueline Jones gyda Delyth Williams yn cael colur ar ei hwyneb. Rhoddwyd y diolchiadau iddynt gan Eryl Roberts.

Llongyfarchwyd Manon, merch Rita Williams, ar enedigaeth mab, Gethin Wyn; a Catrin, merch Mary Evans, ar enedigaeth mab, Aaron Martin; a hefyd Wendy ar enedigaeth merch, Manon Loise.

Dymunwyd gwellhad llwyr i Alun, mab Joyce Gaffey, ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd â Nora Parry ar golli ei modryb.

Y gwestwragedd oedd Gwyneth Williams, Sheila Roberts a Nora Parry. Cynhelir y Cinio 'Dolig yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy, nos Fercher, Rhagfyr 8fed, a bydd bws yn cychwyn o Benrhos am 7.30.

**Yr Urdd:** Mae cyfarfodydd wythnosol y gangen leol wedi cychwyn, gyda 70 o ieuenctid y pentref wedi ymaelodi. Bu rhai o'r aelodau hŷn yn cymryd rhan yng ngwasanaeth arbennig yn enw Urdd Gobaith Cymru yng Nghapel y Cysegr, brynhawn Sul, Tachwedd 21ain, ac eraill yn cynrychioli'r gangen mewn dwy gala nofio. I ddiweddu sesiwn y tymor yma cynhelir Disgo yn y Neuadd Goffa i'r aelodau.

**Sul yr Urdd:** Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn i'r gwasanaeth Sul yr Urdd ar brynhawn Sul, 21 Tachwedd, yng Nghapel y Cysegr. Cymerwyd rhan gan bobl ifainc o Adran Bentref Waunfawr, Adran Bentref Bethel, Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Uwchradd Brynrefail, a chafwyd anerchiad ar y thema 'Goleuni' gan Brian Jones, Swyddog Ieuenctid Coleg y Bala. Cyflwynwyd cyfanswm y casgliad, sef £55 i Goleg y Bala. Diolchwyd i bawb gan Geraint Ellis.

**Gala Nofio:** Bu nifer o aelodau o gangen yr Urdd yn cymryd rhan mewn gala nofio o dan 10 oed a than 12 oed yn ddiweddar. Enillodd y tîm ras gyfnewid y drydedd safle yn y gystadleuaeth i ferched o dan 12 oed. Aelodau'r tîm oedd Gwenan Michael, Gwenan Jones, Bethan Mair Jones a Nia Thomas.

**Clwb 200 y Neuadd:** Enillwyr gwobrau am fis Hydref oedd — £20: Mrs Mair Jones, Glan Gors (43); £10: Mr David Markland, Ceidio (223); £5: Mrs Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (32); Mrs Cheryl Williams, 2 Bryn Hyfryd (163); Mrs Helen Roberts, Bryn Chwilog (91); Mrs Carys Jones, Bwlch-y-gwynt (20); Mrs Elizabeth Jones, Tyddyn Oer (92); Mrs June Jones, 5 Bro Rhos (186); Mrs Rhian Bardsley, 3 Stâd Eryri (106); Mrs Myrna Owen, Camlan (117).

**Clwb 100 yr Ysgol:** Enillwyr gwobrau y Clwb am fis Tachwedd oedd — £20: Sion a Mair Williams, Pengwern, Y Ddôl (110); £15: Ann Pierce Roberts, Bron Irwch, Y Groeslon (48); £10: Aled Vaughan Roberts, Gwynfryn (71); £5: R. R. Parry, 4 Rhos-lan; Nora Parry, 11 Tan-y-buarth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon:** Agorwyd y tymor eleni gyda Helfa Drysor o gwmpas ardal Bethel. Wedi cyrraedd yn ôl i'r Vaynol Arms, Pentir, a chyfrif y pwyntiau i gyd tîm Myfanwy ddaeth yn fuddugol. Cafwyd pryd blasus yno ac 'roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Ar noson arall yn y Clwb cafwyd fideo ddiddorol a wnaed yn y rali flynyddol ym mis Gorffennaf. Ddechrau mis Hydref cafwyd noson yng nghwmni dwy nyrs yn sôn am Gymorth Cyntaf ac fe ddysgwyd llawer o bethau newydd a gwerthfawr. Yn gynharach yn y mis aeth y Clwb am drip i Dir Prince, Towyn, i roi bet fach ar y ceffylau. Enillodd un neu ddau ychydig o arian, ond yn dlotach y daeth y mwyafrif gartref.

Ddechrau Tachwedd cawsom sgwrs gan ŵr sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn cystadlaethau gyda'i gŵn.

Bu Mr W. H. Griffiths, Penisarwaun, yn y Clwb hefyd yn sôn am ei geffylau gwedd enwog. Mae Mr Griffiths wedi cael llwyddiant mawr gyda'i geffylau ac yn adnabyddus iawn trwy Brydain.

# TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

Diolch: Dymuna Mrs Jennie Hughes ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at Blant Mewn Angen er cof am Mr Gwilym Rees Hughes, Oerddwr.

**Yn yr Ysbyty:** Drwg gennym ddeall fod Mr R. Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn gynt, wedi dychwelyd i Ysbyty Gwynedd eto. Gobeithio y caiff adferiad llwyr a buan. Hefyd mae Mr T. Hefin Hughes, Pant-y-coed gynt, wedi bod yn yr ysbyty yn Llangefni. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo yntau. Erbyn hyn mae Mr Hughes ym Mhlas Pengwaith, Llanberis.

**Colledion:** Yn ddiweddar bu farw dau aelod ffyddlon o Eglwys Bresbyteraidd Tan-y-coed.

Ar Dachwedd 5, wedi cystudd hir, bu farw'r Parchedig William Owen Roberts, Manod, Llanrug, yn 76 mlwydd oed.

Bu'n weinidog ar yr eglwys am un mlynedd ar hugain ac wedi iddo ymddeol, yn 1982, etholwyd ef yn flaenor yn Nhan-y-coed.

Braint fawr oedd cael ei wasanaeth fel gweinidog a blaenor. Er i lesgedd a chystudd hir ei oddiweddu 'roedd bob amser yn barod gyda'i gyngor a'i arweiniad doeth.

Cerddodd filltiroedd drwy bob tywydd ar hyd a lled yr ardal gan wneuthur daioni, a chafodd y da ym mhob dyn. Diolch am gael ei adnabod.

Mae'r un yn wir am y Parchg W. O. Roberts ag yw'r geiriau am Waldo, allan o *Cerddi Roger Jones:*

Gwelais ei fuddugoliaeth — yn ei loes,
Bu'n lamp i'w genhedlaeth;
A'i fwyn fyw a fu yn faeth
I'n hegwan Gristionogaeth.

Cydymdeimlwn a'i briod Mrs Nansi Roberts a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

Bu farw Mrs Elizabeth Morris Jones, gynt o Tan-y-bryn, Bwlch, Cwm-y-glo, ar Dachwedd 9fed, yn 94 mlwydd oed.

Mrs Jones oedd aelod hynaf Capel Tan-y-coed. Hyd ei goddiweddu gan lesgedd a chystudd bu yn aelod ffyddlon o'i heglwys. Er methu dilyn yr oedfaon fe barhaodd ei chariad a'i diddordeb yn yr eglwys a llwyddodd i ailgydio yn y 'pethe' trwy ymddiddori yng ngweithgareddau ei thri wyrion yn yr Ysgol Sul a phleser diffuant iddi oedd cael clywed am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch yn yr Ysgol Sul a'u cyfraniadau i wasanaethau gwyliau Cristnogol plant ac ieuenctid yr eglwys.

Cydymdeimlir a'r teulu yn eu galar a'u hiraeth, Hefin, Beth, John, Mark a Tudor.

# DRAENOG



**Glywsoch chi am y pysgotwr o Lanberis a daflodd ei hun i mewn i un o byllau dyfnaf Afon Hwch pan welodd glamp o bysgodyn yn y dŵr. Er ei ymdrechion fe fethodd a dal y pysgodyn ond daliodd anwyd go drwm ac anaf i'w law chwith. Bydd rhaid i DICI DOWCAR farcio ei gardiau Bingo hefo'i law dde o hyn ymlaen!**


AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

NHBC


★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

# CROESAIR RHAGFYR



**I LAWR**

1. Planhigion trist y gors? (5)
2. Swydd anrhydeddus na cheir cyflog am ei gwneud (7)
3. Gan Iarll Iwerddon y cawn flas ar fyw (5)
4. Y drwm bach fydd yn mynd am dro 'efo'r bîb (6)
5. Yr hyn fyddai'n amddiffyn yr hen farchog rhag niwed o'r blaen (7)
6. Un araf, hurt ydi Edrig (5)
7. Ynfytyn serchog (7)
12. Taranu o uchel fan! (7)
13. Stordy milwrol Clifford, Nansi a'r Pentagon (7)
15. Perl o hogan (7)
16. Undeb Gymraeg yr athrawon? (6)
18. Ffafriaeth (5)
20. Anifeiliaid boliog yn llawn sudd y tu fewn (5)
21. Gwasgad o Las Fegas cynhyrfus, ond heb wefr (5)

**AR DRAWS**

1. Math o offeryn cerdd a chwaraewyd gan B.Wart MB (7)
5. Y dull o ymlwybro drwy'r llyfr melyn, yn ôl yr hysbyseb (5)
8. Ymae mae hadau'r plant yn tyfu (5)
9. Mae'r odl o Ebu yn llewyrchu (7)
10. Rhwystrwyr, rhai sy'n hoffi llesteirio (7)
11. Potsiar sy'n byw ar bysgod o'r afon (5)
12. Fydda nhw byth yn symud, ond eto'n cario negeseuon (6)
14. Cysgod Lleifior? (6)
17. Swnio'n debyg i fam Noddy am eiliad! (5)
19. Dig, llidiog (7)
22. Eira fud yn teimlo'n flin am iddi beidio a glanhau ei chlustiau (7)
23. Fersiwn Gymraeg o'r Saesnes sy'n dringo waliau (5)
24. Anrhydedd (5)
25. A'i yma y caiff fan Dewi ei ffeirio am un well? (7)

Mae'n rhaid i mi gyfaddef mod i'n cael modd i fyw pan fydda i'n agor ambell amlen a darganfod pwt o lythyr wedi ei amgau gyda'r croesair.

Cefais ddau ymysg y dwsin o atebion y mis diwethaf, a'r un a roes fwyaf o bleser, mae'n rhaid cyfaddef, oedd yr un yn ymbil am groesair ychydig yn haws y tro nesaf!! Diolch am eich geiriau caredig, Iorwerth a Joan Williams.


Mewn ymateb i Elfed Evans, mae'n rhaid i mi ymddiheuro unwaith eto na ddaeth y croesair allan o'r wasg yn gywir, 'roedd camdeipio yn golygu fod dau o'r cliwiau yn anghywir.

'mawrygwn' ac nid 'awgrymwn' a ddylai fod yn 35 ar draws, a 'Cadi dew', nid 'cadw dew'; oedd yr anagram i 'ceidwad' yn 2 i lawr.

'Fedra i ddim gaddo fod croesair mis Rhagfyr yn haws, dydi o 'mond y pedwerydd i mi ei greu erioed, a mae'n fwy na thebyg fod pob un o'r rhai a atebodd y diwethaf yn gywir yn meddwl eu bod yn rhy hawdd!!

O'r saith ateb cywir ymdrech **William Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda,** ddaeth allan o'r het, ac iddo fo y mae'r wobr yn mynd y tro hwn i brynu tair pêl golff yn anrheg iddo ei hun erbyn y Nadolig!!

Atebion i **Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Rhagfyr 13.**




**ERIC JONES**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: 872421**
★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim
**PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO**


## Dyddiadur y Mis

**1 Mercher. Llanrug:** Plaid Cymru — Ffair Nadolig yn yr Ysgol Gynradd.

**2 Iau. Dinorwig:** Y Gymdeithas Lenyddol. Rol Williams, Waunfawr, yn 'Galifantio'.

**4 Sadwrn. Bethel:** Ffair Nadolig yn y Neuadd Goffa am 11 o'r gloch y bore. Ceir cwmni Robert John y consuriwr.

**6 Llun. Llanrug:** Undeb y Mamau. Gwasanaeth Carolau yn Hafan Elan.

**7 Mawrth. Llanrug:** Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Nghlynnog.

**8 Mercher. Llanberis:** Sgwrs a Sleidiau gan Mrs M. Green, Coleg y Bala yn y Capel Coch am 2 or gloch. **Bethel:** Cyngerdd Nadolig y plant. **Llanrug:** Cinio Nadolig yr henoed am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Ysgol Gynradd.

**10 Gwener. Deiniolen:** Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan am 7 o'r gloch.

**12 Sul. Waunfawr:** Cyngerdd Nadolig gan Barti Gêst yn EGlwys Sant Ioan am 7.30 o'r gloch.

**13 Llun. Waunfawr:** Y Gymdeithas — Sgwrs a Sleidiau gan G. O. Williams am ei ymweliad â Chanada.

**14 Mawrth. Llanberis:** Gwasanaeth Undebol yn Nant Padarn am 7 o'r gloch. **Llanrug:** Cyngerdd y Babanod yn Neuadd yr Ysgol.

**15 Mercher. Penisarwaun:** Gwasanaeth Nadolig yn y Neuadd Gymuned am 1.30, ac wedyn am 6 o'r gloch i oedolion.

**16 Iau. Llanrug:** Sioe Gerdd 'Branwen' gan adran iau yr Ysgol Gynradd yn Neuadd Ysgol Brynrefail. **Dinorwig:** Gwasanaeth Carolau yn y Ganolfan.

**19 Sul. Deiniolen:** Gwasanaeth Undebol Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig am 5.30 o'r gloch. **Caeathro:** Gwasanaeth yn y Capel o dan ofal Dafydd Iwan a'r bobl ifanc. **Penisarwaun:** Naw Llith a Charol am **2 o'r gloch** yn Eglwys Santes Helen. **Brynrefail:** Gwasanaeth Nadolig am 2 o'r gloch.

**21 Mawrth. Penisarwaun:** Parti Nadolig yr Urdd. **Llanberis:** Sgwrs gan Mrs M. Lennon, a chanu carolau.

**22 Mercher. Caeathro:** Parti Nadolig i blant yng Nglangwna yn y prynhawn. **Llanberis:** PLYGU'R ECO o 6 o'r gloch ymlaen.

**24 Gwener. Deiniolen:** Gwasanaeth Noswyl Nadolig yn Eglwys Crist am 11.30 p.m.

**25 DYDD NADOLIG. Deiniolen:** Gwasanaeth Undebol yn Ebeneser am 10 y bore.

**26 GŴYL SANT STEFFAN. Deiniolen:** Oedfa Undebol yng Nghefn-y-waun am 10 y bore. Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Crist am 5 o'r gloch.

## RHODDION

**£20: Teulu Rudkin, Llanberis; Miss M. A. Jones, Abertawe.**

**£10: Teulu y ddiweddar Mrs Arvonia Evans, Derlwyn, Llanberis; Ronnie Williams er cof am ei diweddar dad, Ifan Williams, Pentre Helen, Deiniolen.**

**£5: Dr a Mrs Ian Williams; Mrs Eunice Roberts, Maes Padarn, Llanberis; Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Eiddwen Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Mr Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis; Mr R. O. Williams a'r plant er cof am y ddiweddar Mrs E. A. Williams, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; Mrs M. Thomas a Mrs Katie Ll. Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig; Teulu y ddiweddar Annie May Williams; Di-enw.**

**£3: Mr a Mrs J. Thomas, 64 Maes Padarn, Llanberis; Teulu Mr a Mrs Bob Williams, 5 Rhes y Faenol; Ian a Mary Jones, 4 Ffordd Padarn.**

**£2: Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, Llanberis; Mrs Betty Roberts, Rhydfadog, Deiniolen; John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Di-enw.**


**Y STORFA LLANRUG**
**(Richard a Meirwen Williams)**
**Ffôn: C'fon 672790**
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**



**AR WERTH**
**SYSTEM 'MIDI'**
**gyda dau chwaraewr casét a chryno ddisg.**
**Fel newydd — blwyddyn oed.**
**870695**

# CHWARAEON

## PÊL-DROED: GWYLIO A SYNFYFYRIO

Y Stadiwn Cenedlaethol, Dros yr Abar, Pwllheli a Gwalchmai. Dyna'r pedwar lleoliad y bûm yn gwylio pêl-droed yn ystod y mis. Ysgrifennwyd colofnau yn y wasg yn ddiweddar am safon pêl-droed, ei sefyllfa mewn cymdeithas a'r gwahanol syniadau am y 'ffordd ymlaen'. Nid fy mhwrpas yw ail gynhyrchu y toreth geiriol yma ond trosglwyddo rhai o'r meddyliau neu syniadau am trawodd wrth wylio'r gemau. Mae'r pedair gêm yn drawsdoriad o lefelau'r gêm yng Nghymru — y lefel ryngwladol, pêl-dreod cynghrair ieuenctid leol, pêl-droed y cynghreiriau lleol (yn yr achos yma prif gêm Cwpan lau y Gogledd), a phêl-droed yn yr ysgolion.

Y lefel ryngwladol yn gyntaf. Siomedigaeth unwaith eto, er na allwn feio neb ond ni ein hunain y tro yma. Hunanladdiad yn wir. Nid af i fanylu am y gêm, ac yn sicr ni drafodaf y drychineb erchyll a ddigwyddodd o flaen fy llygaid. Yn dilyn hynny gobeithio na fydd yr helynt yma yn arwain at wahardd Cymru rhag defnyddio y Stadiwm Cenedlaethol am gemau yn y dyfodol — er fod hynny yn ymddangos yn anochel. Y mae'r stadiwm yn rhoddi urddas a statws i'r gêm ar lefel ryngwladol. Mae'n wir 'theatr'. Er y dylsid chwarae y gemau 'mawr' i gyd yno, ni ddylsem fynd yn or-ddibynol arni. Ni ddylsid anwybyddu y Cae Ras, y Vetch neu hyd yn oed Ffordd Farrar ar gyfer gemau – 18 neu – 21. Siomedig yw sylwi fod y ddwy gêm – 21 ddiwethaf wedi mynd i Lyn Ebwy. O gofio y gost o deithio i, ac aros yn y brifddinas erbyn hyn, dylid anelu i ddod ac ambell i gêm gyfeillgar o'r brifddinas. Y mae'r gefnogaeth i'r tîm



cenedlaethol ar hyn o bryd yn dda, a gobeithio y deil hynny yn y Bencampwriaeth Ewropeaidd nesaf. Soniwyd droeon am 'baratoi' yn ddiweddar. Tybed a yw gwledydd Prydain — gan gynnwys Eiré — yn colli elfen bwysig o baratoad gan nad oes Pencampwriaeth Brydeinig. Onid dyma gyfle euraidd i ail sefydlu y gystadleuaeth a chwarae'r gemau tu allan i Lundain, Caerdydd a Chaeredin. Rhaid llongyfarch BBC Cymru am eu rhan bwysig yn natblygiad a chynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r bêl-droed yng Nghymru. Diolch arbennig i'r sawl sy'n cynhyrchu yr hysbysebion bachog cyn y gemau. Y mae rhaglenni 'Ar y Marc', 'Byd y Bêl' — ar ei newydd wedd gyda llawer mwy o newyddiaduraeth — a'r rhaglen wych 'Chwaraeon' ar bnawn Sadwrn yn elfennau holl bwysig. Y mae'r deimensiwn ieithyddol hefyd yn bwysig tu hwnt. Credaf yn y blynyddoedd i ddod bydd sefydlu y Konica yn cael ei gydnabod fel cam arwyddocaol. Dowch yn ôl i'r gorlan Cofis! Pwy tybed fydd y chwaraewr cyntaf o'r Konica i gynhyrchioli Cymru?

Daeth yn amser i sefydlu fframwaith bendant i'r gêm yng Nghymru. Rhaid gosod llwyfan pendant fydd yn denu pob oedran sy â gwir ddiddordeb i gyfrannu at ddatblygiad y gêm — yn chwaraewr, rheolwr, hyfforddwr, dyfarnwr, llumianwr, pwyllgorddyn, sylwebydd ac yn y blaen. Rhaid gweld yr her a'r cyfle sydd inni fel gwlad fechan — a hynny am fod pêl-droed yn ei hanfod yn gêm y WERIN. Mae elfennau o ymdrech cyd-dynnu, cystadlu, cynhyrchioli, gwella a thrafod yn rannau greddfol ohonni i'r Werin. Mae pêl-droed erbyn hyn yn gêm 'genedlaethol' y genedl, rhoddwn iddi felly yr ymroddiad a'r parch mae'n ei haeddu.

Yna y gêm ar draws yr Abar. Bethel yn erbyn Mountain Rangers – 14 Cynghrair Gwyrfai. Dyma'r oedran sy'n galw am gefnogaeth. Diolch am y criw, bach ffyddlon. Y mae angen cymorth yma, yn enwedig gyda hyfforddi. Efallai fod gormod o bwyslais ar yr elfen gymdeithasol o ffurfio tîm (er fod hynny'n bwysig), ac anwybyddu datblygiad sgiliau'r bechgyn. Y bêl hir a chryfder yw'r patrwm o hyd. Mae cynnydd sylweddol mewn 'timau' – 10 yn y cylch. Gwelaf hyn yn gyfle euraidd i ddatblygu sgiliau. Y mae canllawiau y Gymdeithas Bêl-droed i'w canmol — llai mewn tim, dim camsefyll, a'r pleser gobeithio o sgorio digon o goliau. Roedd un pwynt hapus ynglŷn â'r gêm. Wrth siarad ag un o bwyllgor Mountain Rangers sylwais fod ganddo raglen ar gyfer gêm y prynhawn yn erbyn Llandegfan.

Mwynheais ei darllen, a hoffais yn arbennig y llun o dîm y Rangers yn 1970 yn yr adran 'Edrych yn Ôl'. Y diweddar Dafydd Pierce, Glyn Coch y goli, Dafydd Butcher, y Meri Ans, Asgi, Reg Roberts a Len Bach Penisarwaun. Adran arall yn y rhaglen oedd 'Gemau eraill heddiw yn ymwneud â Chlwb Mountain Rangers'. Nodwyd yma y gemau – 12, – 14 a – 16. Ar dudalen arall roedd adroddiadau am gemau y timau hyn. Yr oedd adran arall yn adrodd troeon trwstan CEFNOGWYR. Syniadau gwych, ac yn sicr yn cryfhau y syniad o BERTHYN. Mae hefyd yn amlygu y clwb fel sefydliad pwysig yn y gymdeithas leol. Llongyfarchiadau Rangers — ond rwy'n sicr fod mwy o le i'r Gymraeg rhwng y cloriau. Ar ddiwedd y dydd, ar 'Cae'r Gors' mae'r maes!

Ymlaen i Bwllheli — a gêm gwpan rhwng yr ysgol acw ac Ysgol Glan-y-môr. Cawsom gêm dda yn y rownd gynharaf yn erbyn Brynrefail — ac mae ambell i chwaraewr addawol yno eleni. Braf oedd gweld Mick Love — un o'r prif ddyfarnwyr — yn rhoddi ei amser yn rhad ac am ddim. Y CYFRANIAD yna eto ynte! Cafwyd gêm gystadleuol a chyfartal 1-1. Mae safon pêl-droed ysgolion yn foddhaol ar hyn o bryd, er fod ambell wrthdaro rhwng teyrngarwch i dimau'r ysgol neu i'r clwb ar y Sadwrn. Mae hyn yn broblem y dylid rhoi sylw iddi, oherwydd yn sicr mae nifer o'r plant yn chwarae gormod o gemau. Does dim rhyfedd eu bod yn gorflino. Mae un bachgen addawol iawn acw eleni. Yn 13 oed, mae eisoes wedi chwarae 40 o gemau yn barod y tymor yma ar wahanol lefelau. Ar ben hynny mae'r 'training' gorfodol gan nifer o'r clybiau Sadyrnol. Ar ben hyn, mae'r pwysau cynyddol ar blant heddiw gyda gwaith ysgol. Y mae'r ddadl hon, ynglŷn â datblygiad plant yn yr arddegau yn un ddyrus sydd angen ei hateb yn gyflym. Yr ydym yn hynod ffodus ym mro'r Eco, gan fod nifer o athrawon yn ymwneud â llawer o'r timau. Beth amdani rieni? Mae nifer ohonoch yn gyn-chwaraewyr. Beth am gynnig help?



*'Spot the Ball' cynta'r Eco! Arbediad da gan gôlgeidwad Gwalchmai y tro yma — ond yna'r diweddglo!*

Ac yna'r uchafbwynt — y gêm yng Ngwalchmai. Yn ddiamheuol, dyma'r gêm a fwynheais fwyaf ers cryn amser. Roedd yn hymdingar! Torf dda, cymeriadau ffraeth yn y dorf, dyfarnu da a diweddglo anhygoel. Nid wyf am roi adroddiad am y gêm (cefais dipyn o drafferth y tro diwethaf!). Roedd hwn yn achlysur i'w gofio o'r dechrau. Llond dybl dec a llu o geir yn croesi'r Fenai. Roedd y chwaraewyr yn teithio gyda'r cefnogwyr. Roedd teuluoedd yno ac Alun Wyn a'i waedd 'C'mon Llanbabs!' Cyrraedd maes Primin Môn, a sylw mai'r sied anferth oedd yr ystafell newid. Doedd dim bwrdd — na hyd yn oed hoelen — i ddal y dillad. Peth rhyfedd oedd gweld rhai o'r tîm a chefnogwyr yn cynhesu cyn y gêm trwy gael gêm bêl-droed — yn y stafell newid! Rwy'n siwr fod y croeso oeraidd yma wedi helpu i grynhoi meddyliau'r chwaraewyr am y frwydr o'u blaen. Ac yna i faes y frwydr. A brwydr fu hi. Taclo caled, rhedeg diflino, a'r bêl yn sgrialu o un geg gôl i'r llall. Roedd pob un o chwaraewyr Deiniolen yn arwyr, ond rhaid nodi cyfraniad dau. Rwy' wedi beirniadu Kevin John yn y gorffennol am chwarae yn rhy ddyfn fel ysgubwr. Yn y gêm yma, ar gae bach, chwaraeodd yn wych — yn sicr ei berfformiad gorau hyd yn hyn. Roedd yn gawr yng nghanol yr amddiffyn. Dro ar ôl tro yr oedd yn ddigon effro i sgubo tu ôl i'r ddau gefnwr pan chwaraewyd y bêl tu cefn iddynt. Roedd ambell dacl ar Richard Jones — seren y Gweilch — yn dyngedfennol. Chwaraewr diddorol yw Richard Jones. Cafodd gyfle i arwyddo i Wrecsam, chwaraeodd i Cemaes — a dyma fo rwan yn chwarae mewn cynghrair llai.


Ac yna Gwil y gôlgeidwad. Ni thybiaf iddo gael y fath brynhawn gydol ei yrfa. Mae'n sicr ei fod yn meddwl ei fod yn ôl gydag Orig a'r criw yn Nyffryn Nantlle ers talwm. Yn ogystal â thorri ei fys, cafodd anaf drwg i'w goes. Yn wir, dywedodd un wag ei fod am ddysgu Mathemateg ym Mrynrefail — one down, carry one! Serch hynny, gwnaeth lawer arbediad gwych ac yn ystod y ciciau o'r smotyn arbedodd ddwy gic gosb. Perfformiad campus, Gwil. Gobeithio bydd dy law wedi gwella i godi'r Cwpan lau. Ni welir gêm cystal â hon yn y gystadleuaeth eleni. Roedd Gwalchmai yn dîm da, ond ddim digon da ar y diwrnod. Tybed a yw enw Deiniolen ar y gwpan eleni. A'r diweddglo anhygoel yna. Gweld tri cefnwr — Bodin, Arwel a leu — yn methu ciciau pwysig. A ddylid gwahardd y cefnwyr ôl yma rhag cymryd ciciau dwedwch! Gyda llaw, Kevin John — seren y gêm — sgoriodd y gic holl bwysig. O ia! rhag ofn i mi anghofio, llongyfarchiadau mawr i John Cefn y rheolwr. Gobeithio ei fod wedi cyrraedd adref erbyn hyn!

Rhaid llongyfarch Jiws a'r criw yn Llanbêr am ddechreuad campus i'r tymor. Pan yw pawb yn holliach, mae carfan gref yno. Mae'n argoeli'n dda am dlws eleni. Mae Jiws yn gwadu ei fod â diddordeb yn swydd Graham Taylor, a'i fod yn gwrthod derbyn tlws rheolwr y mis am nad yw'n hoffi wiskey!

Ac yna Llanrug. Ennill un wythnos, goblyn o sdid y tro nesaf. Dim cysondeb o gwbwl. Ac yna mynd i Landyrnog o Gynghrair Sealink yng Nghwpan Barrit ac ennill. Funny old game!

Wel dyna ni. Tudalen gyfan o wylio a hel meddyliau. Ydy'r gêm yn bwysicach na bywyd, chwedl Bill Shankley? Sgersli bilîf — ond beth fuasai ni'n wneud hebddi.

## DRAENOG



**Ond doedd o'n 'Dlws y Mis' ar raglen Hywel Gwynfryn? Golygydd chwaraeon eich papur bro yn dod i sylw cenedl gyfan fel 'Mr Mêt-alion Man'. Ai teimlo yr oedd iddo gael cam wrth orfod rhoi Tlws yr Eco i eraill ac yntau heb dderbyn medal o fath yn y byd?**